

Chwaraeon Cymru

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2025-2026

sportwales chwaraeoncymru

THE NATIONAL LOTTERY

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Neges gan y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru	6
Trosolwg perfformiad	8
Y Weledigaeth	10
Chwaraeon Cymru: cyflawni'r Weledigaeth a bodloni ein dyletswyddau cyhoeddus	11
Ein meysydd gwaith 2025 – 2026	14
Ein bwriadau strategol fel ein nodau llesiant	16
#1 Person-ganolog	17
#2 Sicrhau bod pob person ifanc yn cael dechrau gwych	24
#3 Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon	30
#4 Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir	40
#5 Arddangos manteision chwaraeon	48
#6 Sefydliad o werth mawr	52
Amcanion cydraddoldeb	59
Adrodd ar safonau'r Gymraeg	63
Amcanion tlodi plant	70
Perfformiad Ariannol	88
Adroddiad atebolrwydd	96
Datganiad llywodraethu blynyddol 2025-26	100
Adroddiad tâl a staff	111
Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	121
Nodiadau Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026	132

Cyflwyniad

Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026

Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymgorffori'r Adroddiad Perfformiad, gan gynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Chwaraeon Cymru yn Unig Ymddiriedolwr ar gyfer Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden corfforol, a'u hymarfer, ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Caiff ei gyllido gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau.





Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 Siarter Frenhinol Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.



Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'r cyhoedd ei archwilio yn swyddfeydd Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi'i chofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. Gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a'r addysg mewn perthynas â hynny;
2. Darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Swyddfa Gofrestredig

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

Neges gan y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru

Mae'n fraint cael edrych yn ôl dros eleni ar ôl i'm hailbenodiad i rôl Cadeirydd Chwaraeon Cymru gael ei gadarnhau ym mis Mawrth. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda fy nghyd-ymddiriedolwyr a'r rhai sy'n dechrau tymor newydd gyda ni wrth i ni barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd dros y pedair blynedd diwethaf. Ar y nodyn hwnnw, hoffwn ddiolch i aelodau'r Bwrdd sy'n gadael: Phil Tilley, Martin Veale YH, Judi Rhys OBE, Delyth Evans, Chris Jenkins OBE a Dafydd Trystan am eu gwasanaeth i gefnogi datblygiad y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn eu cyfnod yn y swydd.



Wrth i aelodau allweddol o'n bwrdd ein gadael, rwy'n meddwl am amser ac ymroddiad aelodau'r bwrdd y mae'n hawdd eu hanwybyddu wrth i ni feddwl am chwaraeon a gwella cyfleoedd mewn chwaraeon. Rydym yn gwybod am y gwahaniaeth mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i'r tirlun chwaraeon ac ni fyddem yn bodoli hebddyn nhw. Mae llawer o gyfleoedd mewn chwaraeon yng Nghymru lle mae gwirfoddolwyr nid yn unig yn sicrhau bod y gweithgarwch chwaraeon yn digwydd, ond hefyd yn gwella'r profiad.

Ac yn wir, wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, lle mae chwaraeon merched wedi cael sylw arbennig ar lwyfan y byd, gwelais hyn drwy fy ymweliad â'r Royal ym Mhorthcawl, lle cynhaliwyd Pencampwriaeth Agored y Merched ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Roedd angen tua 750 o wirfoddolwyr i gefnogi'r gystadleuaeth, o fod yn farsial a chadw sgôr i wasanaethau ar gyfer y gwylwyr. Byddai hefyd yn esgeulus ohonof i beidio â sôn am y fyddin o gefnogwyr a deithiodd i'r Swistir i gefnogi tîm cenedlaethol Cymru wrth iddyn nhw chwarae yn eu cystadleuaeth fawr gyntaf erioed.



I bawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon drwy chwarae, gwirfoddoli, gwylio, ac yn y cefndir yn gwneud i bethau ddigwydd – diolch i chi am neilltuo eich amser i chwaraeon.

Wrth gwrs, rydym yn parhau i geisio annog pobl i fyw yn fwy actif gan fod canlyniadau'r arolwg cenedlaethol wedi dangos unwaith eto fod canran yr oedolion sy'n actif dair gwaith neu fwy yr wythnos yng Nghymru wedi parhau i fod yn tua 30%.

Rydym wedi argymell cynigion allweddol i'r pleidiau sy'n ceisio ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru i gefnogi Cymru iachach, ac edrychwn ymlaen at gyflawni hynny gyda'r Llywodraeth nesaf. Hoffwn ddiolch i Jack Sargeant AS, y Gweinidog sy'n gadael, a ddangosodd ddiddordeb brwd yn y sector chwaraeon yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Trosolwg perfformiad

Neges gan Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru

Fel Prif Weithredwr Chwaraeon Cymru, rwy'n falch iawn o rannu ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025–26. I mi, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi teimlo'n wirioneddol arbennig i chwaraeon yng Nghymru, ac mae hwn yn adroddiad sydd wedi'i lunio gan ymdrechion cymaint o bobl ar draws y sefydliad a'r sector.

Mae cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu holl egni, straeon pwerus, ac effaith gadarnhaol ein cynnyrch gwych, ond os oes un thema a ddiffiniodd eleni, cynnydd chwaraeon merched a genethod a dathlu hynny oedd honno. O ddigwyddiadau mawr i glybiau lleol, gwelsom gynnydd anhygoel mewn amlygrwydd, cyfranogiad a brwdfrydedd. Parhaodd athletwyr a thimau benywaidd Cymru i ysbrydoli ar y llwyfan rhyngwladol, a gartref, croesawodd cymunedau raglenni newydd a gynlluniwyd i ennyn hyder ac uchelgais drwy roi mwy o gyfleoedd i ferched a genethod gymryd rhan.

Mae'r momentwm hwn wedi atgyfnerthu ein cred bod cynrychiolaeth yn wirioneddol bwysig, a phan fydd chwaraeon merched yn ffynnu, mae chwaraeon yng Nghymru yn gyffredinol hefyd yn gwneud cynnydd.



Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom barhau â'n hymrwymiad i degwch a chynhwysiant, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mwy o bobl - yn enwedig pobl oedd wedi cael llai o gyfleoedd yn y gorffennol – yn gallu mwynhau manteision bod yn actif. Mae'r cerrig milltir arwyddocaol eleni yn cynnwys lansio **Fframwaith Sylfeini Cymru** ym mis Tachwedd, sy'n darparu canllaw arfer da cenedlaethol ar gyfer cyflwyno gweithgarwch corfforol i blant; a **Fframwaith Arwain Cymru**, sy'n gwasanaethu fel adnodd datblygiadol hanfodol i bartneriaid sy'n cael eu cyllido, gan sefydlu safonau cyson ar gyfer rheoli, arwain a datblygu pobl.

Yn ogystal, fe wnaethom barhau i helpu i ddatblygu, esblygu a pharatoi llwybrau perfformiad ar gyfer athletwyr ein partneriaid yn y cyrff rheoli ar bob cam, ac ochr yn ochr â'r uchod i gyd mae buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru – sy'n helpu i gyllido cyfleusterau modern, hygyrch, sydd hefyd yn helpu pobl i fod yn actif yn agos at adref.



Ni fyddai dim un o'r cyflawniadau hyn yn bosibl heb ymroddiad ein partneriaid, gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a sefydliadau sy'n grymuso chwaraeon ledled Cymru. Diolch i chi am bopeth rydych chi'n ei wneud.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn gwybod bod heriau sylweddol o hyd. Ond mae'r egni, y creadigrwydd a'r momentwm a adeiladwyd eleni - yn enwedig drwy chwaraeon merched - yn rhoi llwyfan cadarn i ni ar gyfer y dyfodol. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i wthio i sicrhau bod chwaraeon yn rym pwerus, sy'n cael effaith gadarnhaol ym mhob cymuned ledled Cymru.

Diolch i Fwrdd Chwaraeon Cymru, dan arweiniad y Farwnes Tanni Grey-Thompson fel Cadeirydd, am yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth a ddarparwyd. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall o newid personél gyda 5 Aelod newydd gwych yn cymryd lle'r rhai y daeth eu cyfnodau yn y swydd i ben.

Diolch i Phil Tilley, Martin Veale YH, Judi Rhys OBE, Delyth Evans a Dafydd Trystan am eu gwasanaeth a'u cyfraniadau gwerthfawr, a dyma estyn croeso cynnes atom i Alison Parken OBE, Martin Hurst, Roisin Connolly, Owain Schiavone a Sanjiv Vedi OBE.

Hoffwn hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru a Jack Sargeant AS, ein Gweinidog sy'n gadael, am eu cefnogaeth barhaus a'u cred yng ngwerth chwaraeon i ddyfodol Cymru.

Yn olaf, diolch i dîm Chwaraeon Cymru - mae eich angerdd a'ch ymroddiad, eich proffesiynoldeb a'ch ymrwymiad yn parhau i fy ysbrydoli ac rwy'n gwybod eich bod chi'n gyfrifol am yrru popeth rydym yn ei wneud wrth i ni geisio galluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu.

Y Weledigaeth

Trosolwg

Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

- Cenedl Actif
- Pawb
- Gydol Oes
- Mwynhad

Ein Strategaeth

#1 Bod Yn Berson-Ganolog

#2 Rhoi Dechrau Gwych i Bob Person Ifanc

#3 Sicrhau Bod Pawb yn Cael y Cyfle i Fod Yn Actif Drwy Chwaraeon

#4 Dod â Phobl at ei Gilydd ar gyfer y Tymor Hir

#5 Arddangos Manteision Chwaraeon

#6 Bod yn Sefydliad o Werth Mawr

5 Ffordd o weithio



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Cydweithredu



Ymwneud

Adrodd blynyddol integredig

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yr Iaith Gymraeg

Cydraddoldeb

Bioamrywiaeth

Economaidd-gymdeithasol

Chwaraeon Cymru: cyflawni'r Weledigaeth a bodloni ein dyletswyddau cyhoeddus

Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn sail i'n gwaith ni fel sefydliad, gwaith cydweithredol y sector chwaraeon ac ymwneud rhanddeiliaid ehangach. Nid dim ond Gweledigaeth i Chwaraeon Cymru weithio tuag ati yw hon, ond yn hytrach mae'n gyfrwng cyfunol ar gyfer ymgysylltu traws-sector i drawsnewid Cymru yn genedl actif.



Cenedl Actif
Rydym eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.



Pawb
Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn gweld eu hunain yn fedrus mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau.



Gydol Oes
Mae'r weledigaeth am oes; mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.



Mwynhad
Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar greu ystod o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.

Ein Strategaeth

Ffurfiwyd ein strategaeth i chwarae ein rhan wrth gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae ein Strategaeth yn cael ei ffurfio gan chwe datganiad o fwriad strategol. Mae'r datganiadau hyn hefyd yn gweithredu fel ein Nodau Llesiant, ac rydym yn eu defnyddio i fframio ein hadroddiadau ar ddyletswyddau cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG) (Deddf) Cymru 2015.

#1 Bod yn berson-ganolog

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

#2 Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc

Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

#3 Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

#4 Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir

Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

#5 Arddangos manteision chwaraeon

Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

#6 Bod yn sefydliad o werth mawr

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.

Darllen mwy ar dudalennau (Adran Naratif).

5 ffordd o weithio

Yn Chwaraeon Cymru, rydym wedi ymgorffori'r 5 Ffordd o Weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd hefyd yn sail i'r Weledigaeth. Fe welwch y rhain mewn print trwm drwy gydol y ddogfen, gan ddangos sut mae'r ffyrdd o weithio yn effeithio ar ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.



Tymor Hir – Mae'r weledigaeth yn sicrhau ein bod ni, ochr yn ochr â'n partneriaid, yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, gan ddatblygu cyfleoedd sy'n ymateb i anghenion pawb mewn cymdeithas sy'n newid.



Atal – Mae'r weledigaeth yn ymwneud â sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, yn hwyl ac yn fforddiadwy, ac nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi adnoddau i atal problemau rhag codi, neu rhag gwaethygu.



Integreiddio – Mae'r weledigaeth yn uno'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda sefydliadau drwy ei huchelgeisiau. Mae wedi'i llunio ar sail effaith gydweithredol yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.



Cydweithredu – Mae'r weledigaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru ac angen cefnogaeth pawb – gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.



Ymwneud – Lluniwyd y weledigaeth yn dilyn sgyrsiau ag unigolion o bob rhan o Gymru ac mae'n parhau i hybu ymwneud wrth lunio dyfodol Cymru fel cenedl actif.

Adrodd blynyddol integredig

Rydym yn parhau i adrodd ar ein Dyletswyddau Cyhoeddus drwy gydol yr un adroddiad hwn, gan roi golwg gyfannol ar ein gwaith. Drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch yr eiconau hyn isod sy'n ymwneud â'n dyletswyddau unigol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yr Iaith Gymraeg


Cydraddoldeb

Bioamrywiaeth

Economaidd-gymdeithasol

Ein meysydd gwaith 2025 – 2026

Drwy lens y Weledigaeth, ein strategaeth a'n ffyrdd o weithio, rydym yn pennu'r blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod, wedi'u cytuno gan ein Bwrdd a'n Llywodraeth. Drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch bob maes gwaith wedi'u dynodi gan yr eiconau isod.



Cynaliadwyedd amgylcheddol

- Ymgorffori caffael cymdeithasol gyfrifol ym mhrosesau a dogfennaeth Chwaraeon Cymru
- Gweithio gyda rhai o'n prif gyflenwyr yn ôl gwerth i nodi cyfleoedd arbed carbon
- Cyfathrebu arferion gorau
- Cyfleoedd **cydweithredu**, yn enwedig drwy'r Gynghrair Chwaraeon, Amgylchedd a Hinsawdd
- Hyrwyddo ac annog teithio llesol

Diwylliant sefydliadol cynhwysol

- Arwain y gwaith o greu gweithluoedd, rhwydweithiau a lleoedd amrywiol a chynhwysol
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â staff o bob cwr o Chwaraeon Cymru, a'n bod yn gallu gwrando ar eu safbwyntiau ac ymateb iddynt
- Mabwysiadu dull dylunio gwasanaethau i wella'r broses Asesu Effaith Integredig yn Chwaraeon Cymru
- Adolygu a diweddaru'r Polisïau Gwrth-fwlio, Aflonyddu ac Erlid
- Deall a dathlu'n well y gwahaniaeth rydym yn ei wneud drwy'r gwaith rydym yn ei gyflawni

Cefnogi Cymru iachach

- Cynllunio trosglwyddo ymyriadau iechyd i Bartneriaethau Chwaraeon
- Defnyddio partneriaethau i sicrhau bod chwaraeon yn chwarae'r rhan orau bosibl mewn **atal**
- Arwain y gwaith o ymgorffori'r dull perthynol o weithredu ym maes iechyd meddwl o fewn chwaraeon ar draws partneriaid a gyllidir
- Cefnogi'r sector gyda Chynllun Gweithredu Balch o'r Mislif

Sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiad cadarnhaol o chwaraeon

- Gweithredu a phrofi a dysgu'r 'Cynnig Actif Dyddiol'
- Fframwaith Sylfeini Cymru
- Cyfleoedd dysgu digidol Brightspace i hyfforddwyr
- Rhaglen Arweinwyr Hyfforddi
- Gwella datblygiad athletwyr ar y rhaglen safon byd
- Strategaeth gyfathrebu a mentrau ymgysylltu

Buddsoddiadau

- Cael dull buddsoddi agored a thryloyw sy'n cael ei sbarduno gan anghenion pobl Cymru ac yn eu galluogi i fod yn actif mewn chwaraeon
- Sicrhau effaith orau bosib y buddsoddiad ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn chwaraeon a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon
- Cael proses ar gyfer cael mynediad at gyllid a'i ddyfarnu sy'n symlach ac yn effeithlon

Dull person-ganolog o weithredu

- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith ein hunain a'n partneriaid ynghylch mabwysiadu dull person-ganolog o weithredu
- Cynyddu ein gallu ni a gallu ein partneriaid i gasglu, dehongli a defnyddio data a gwybodaeth yn effeithiol i leihau'r galw cudd a'r galw heb ei fodloni

Partneriaethau chwaraeon

- Parhau i weithio drwy gyfnodau sefydlu'r partneriaethau
- Cefnogi parhad busnes
- Diogelu partneriaethau chwaraeon ar gyfer y dyfodol i gyflawni eu pwrpas

Ein bwriadau strategol fel ein nodau llesiant

Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd adolygiad trwyadl gennym o Weledigaeth a Strategaeth Chwaraeon Cymru. Fe wnaethom ddiweddaru rhywfaint ar y geiriad ac adnewyddu rhai o'r ystadegau a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd. Cadarnhaodd yr adolygiad fod ein chwe nod llesiant (a'r datganiadau o fwriad strategol sy'n eistedd ochr yn ochr â hwy) yn parhau i fod yn berthnasol ac yn parhau i arwain gwaith Chwaraeon Cymru.

I wirio cynnydd tuag at ein nodau llesiant a chydraddoldeb, cynhaliwyd ein hadolygiad blynyddol ym mis Mawrth / Ebrill 2026. Cadarnhaodd yr adolygiad hwn eto fod yr amcanion yn parhau i fod yn briodol.

Fe wnaeth gwaith cynnar eleni ar ddull meddwl am systemau ein helpu hefyd i brofi a chadarnhau eu gwerth.

Felly mae Chwaraeon Cymru yn cadarnhau bod ein nodau llesiant yn parhau heb eu newid.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i strwythuro o amgylch y cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn ein nodau llesiant. Mae'n nodi'r hyn rydym wedi'i gyflawni, yr hyn rydym wedi'i ddysgu, a lle mae angen i ni wneud mwy o hyd. Ar ddiwedd pob adran, rydym yn cynnwys dadansoddiad o'r prif bwyntiau dysgu a'r heriau.



#1 Person-ganolog

Anghenion a chymhellion yr unigolyn sy'n arwain y ddarpariaeth, boed newydd ddechrau arni, yn anelu at gynnydd neu'n ymdrechu am ragoriaeth ar lwyfan y byd.

Astudiaeth achos

Clwb Syrffio Arian yn sicrhau bod chwaraeon dŵr yn hygyrch i bob oed

Mae Surf Therapy CIC yn sicrhau bod oedolion dros 50 oed yn gallu parhau i fwynhau traethau Gŵyr gyda'u Clwb Syrffio Arian. Y clwb yw un o'r unig glybiau yn yr ardal sy'n canolbwyntio'n llwyr ar oedolion ac yn ffrwyno pŵer y môr i gefnogi iechyd meddwl.

Creodd y sylfaenydd Phil Owen Surf Therapy i helpu pobl eraill gyda'u hiechyd meddwl ar ôl ei frwydr ei hun gydag iselder. Roedd syrffio'n rhan allweddol o adferiad Phil ac roedd yn deall y gallai helpu amrywiaeth ehangach o bobl, gan gynnwys pobl gydag iselder a gorbryder, cyn-filwyr sy'n byw gyda PTSD, pobl sy'n cael anhawster gyda dibyniaeth ac oedolion ar brawf, a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid.

Ym mis Gorffennaf 2025, derbyniodd Surf Therapy £5,711 gennym o Gronfa Cymru Actif sy'n cael ei chyllido gan y Loteri Genedlaethol i sicrhau bod y clwb yn gallu cadw i fyny â'r galw cynyddol. Fel rhan o'r offer newydd hwn, prynwyd pum bwrdd pen-glin, sy'n cynnig dewis arall yn lle syrffio yn sefyll i'r rhai sydd angen addasiadau neu i feithrin eu hyder.

Mae gallu darparu dulliau amgen wedi eu galluogi i helpu llawer mwy o bobl y mae Therapi Syrffio yn rhan hanfodol o'u rhwydwaith cefnogi ac adfer. Dywedodd y sylfaenydd Phil Owen:

> "Diolch i gyllid Chwaraeon Cymru, rydyn ni wedi gallu prynu offer fel byrddau syrffio a siwtiau gwlyb. Mae'n golygu ein bod ni'n gallu gweithio gydag amrywiaeth ehangach o grwpiau ac, yn y pen draw, helpu mwy o bobl."

Un person o'r fath yw Laurence, a gafodd ddiagnosis o PTSD cymhleth yn 2024 ar ôl colli ei dad hoff, a gorfod cau ei fusnes yn sgil pandemig Covid. Nid oedd Laurence wedi syrffio o'r blaen ond o'i sesiwn gyntaf fe welodd ei fod yn gallu mynd ar ei gyflymder ei hun gan ddechrau gyda padlo allan neu ddim ond ymlacio ar y bwrdd. Dywedodd Laurence:

> "Mae Therapi Syrffio wedi fy helpu i wella. Mae'r holl bethau sydd wedi bod yn troi yn fy mhen i'n golchi i ffwrdd. Mae'n fy helpu i reoli fy hun. Mae Therapi Syrffio wir yn anhygoel."

Iechyd merched a pherfformiad: Cynnydd penodol ar draws chwaraeon



Rydym yn parhau i **gydweithredu** â chwaraeon ledled Cymru i wneud yn siŵr bod athletwyr benywaidd yn cael y gefnogaeth briodol mewn hyfforddiant a pherfformiad. Rydym eisiau creu amgylchedd lle mae pob camp wedi'i grymuso i ddarparu cefnogaeth i athletwyr benywaidd fel nad yw bod yn fenyw byth yn **atal** unrhyw un rhag cymryd rhan, mwynhau chwaraeon, neu berfformio'n dda.

Eleni, fe wnaethom ganolbwyntio ar bynciau sy'n effeithio ar iechyd athletwyr benywaidd fel cylch y mislif, delwedd y corff, glasoed, iechyd y pelfis, beichiogrwydd a Diffyg Ynni Cymharol (REDs). Rydym yn helpu chwaraeon i ddeall y materion hyn ac yn defnyddio arfer da bob dydd fel bod athletwyr benywaidd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys.

Mae enghreifftiau o'n gwaith ni'n cynnwys:

- Addysgu chwaraewyr academi Cymdeithas Bêl-droed Cymru am ddelwedd y corff a bwyta'n iach a'u helpu i deimlo'n hyderus ynghylch bwyd a pherfformiad.
- Gweithio gyda Thriathlon Cymru i helpu athletwyr ifanc, rhieni a hyfforddwyr i ddeall y glasoed a theimlo'n fwy hyderus yn ystod y cyfnod hwn.
- Darparu sesiynau ymwybyddiaeth o gylch y mislif mewn criced fel bod athletwyr a hyfforddwyr yn gallu hyfforddi'n dda, cyfathrebu'n well a gofalu am lesiant

Mae'r prosiectau hyn yn helpu i greu newid **tymor hir** yn y byd chwaraeon yng Nghymru a sicrhau bod athletwyr benywaidd yn cael y gefnogaeth sydd arnynt ei hangen i wneud yn dda a mwynhau eu camp.

RYA Cymru Wales: Map ffordd ffyniannus



Dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda RYA Cymru Wales i greu Map Ffordd Ffyniannus. Mae'r cynllun hwn yn eu helpu i wirio pa mor dda mae eu hamgylcheddau'n cefnogi morwyr ifanc a sut gallant wneud gwelliannau.

Buom yn siarad â mwy na 50 o rieni hwylwyr ifanc. Hefyd buom yn arsylwi sesiynau hyfforddi, yn cynnal grwpiau ffocws ac yn siarad ag arweinwyr i ddeall beth sy'n helpu pobl ifanc i fwynhau a ffynnu yn y gamp.

Dywedodd rhieni fod plant yn ffynnu pan fydd hyfforddwyr gofalgar, gwybodaeth glir, cynllunio da, lleoliadau cyfeillgar, cyfleoedd i gymdeithasu a chydbwysedd rhwng hwyl a pherfformiad.

Mewn ymateb, daeth RYA Cymru Wales â'u llawlyfr rhaglen ar gyfer teuluoedd yn ôl a chreu model newydd i helpu clybiau i greu amgylcheddau cadarnhaol. Mae'r prosiect hwn yn dangos sut gall gweithio'n agos gyda hyfforddwyr, arweinwyr a rhieni feithrin ymddiriedaeth ac arwain at newid gwirioneddol, cadarnhaol ar draws y gamp yn y **tymor hir.**

Sylw i

Cyrraedd pwysau yn ddiogel mewn Jiwdo



Sylwodd hyfforddwyr yn y byd Jiwdo yng Nghymru bod llawer o chwaraewyr ifanc yn defnyddio dulliau cyrraedd pwysau peryglus. Roedd y dulliau hyn yn ddrwg i'w hiechyd ac yn eu hatal rhag aros yn y gamp, gwella'n ddiogel, neu berfformio'n dda yn y **tymor hir.**

Codwyd y mater hwn gyda Jiwdo Prydain, oedd yn cytuno ei bod yn bwysig cefnogi athletwyr, rhieni a hyfforddwyr i ddeall rheoli pwysau'n ddiogel.

Gan **gydweithredu** â chyrff Jiwdo'r Gwledydd Cartref, helpodd Chwaraeon Cymru i greu canllawiau ac adnodd gwneud penderfyniadau i gefnogi rheoli pwysau'n fwy diogel.

Bydd y canllawiau'n cael eu haddysgu drwy fodiwlau dysgu ar-lein sy'n ymdrin â diwylliant jiwdo, tyfu, maeth a chyfathrebu. Mae'r cwrs yn cynnwys fideos a gweithgareddau model rôl. Bydd yn ofynnol i athletwyr llwybr, rhieni a hyfforddwyr.

Yng Nghymru, mae hyfforddwyr, rhieni a chwaraewyr eisoes wedi dechrau dysgu am hyn, gan helpu i greu amgylchedd mwy cefnogol.

Sylw i

Partneriaeth Sefydliad Gwyddorau Perfformio Cymru (WIPS)

Mae WIPS yn bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru, gwyddonwyr chwaraeon gorau Cymru, a phartneriaid yn y diwydiant, sy'n **cydweithredu** i wella perfformiad chwaraeon.

Bydd WIPS yn cynnal prosiectau gwyddoniaeth o ansawdd uchel sy'n helpu athletwyr a busnesau Cymru i berfformio'n well.

Mae hefyd yn cefnogi'r llwybr chwaraeon (sut mae athletwyr yn datblygu) ac yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae WIPS hefyd yn helpu i hyfforddi gwyddonwyr newydd ac yn annog cysylltiadau cryfach rhwng chwaraeon, prifysgolion a busnesau yng Nghymru.

Prosiectau WIPS yn 2025-26

Yn 2025-26, gweithiodd WIPS ar sawl prosiect ar draws gwahanol chwaraeon yng Nghymru:

Insights 360: Profiad ac amgylcheddau

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar Ddatganiad Safbwynt Ffyniannus Chwaraeon Cymru. Mae'n edrych ar safbwyntiau gwahanol bobl sy'n **ymwneud** â chwaraeon er mwyn deall amgylcheddau athletwyr yn well. Y nod yw gweld beth sy'n gweithio'n dda a lle gallai gwelliannau wedi'u targedu wneud gwahaniaeth mawr.

Anymataliaeth iwrinol straen mewn chwaraeon

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar fater iechyd sy'n effeithio ar lawer o athletwyr, yn enwedig merched. Gall **atal** pobl rhag cymryd rhan neu berfformio'n dda. Nod y gwaith yw deall y mater hwn yn well a chreu atebion gydag arbenigwyr y mae posib eu hintegreiddio ar draws y tirlun chwaraeon.

Dangosodd hefyd fod angen i hyfforddwyr a staff cefnogi gydweithredu'n agosach i gefnogi iechyd merched mewn chwaraeon.

Sut berson yw addysgwr hyfforddwyr safon byd?

Gan weithio gyda Chanolfan Ymchwil Pêl-droed Cymdeithas Bêl-droed Cymru, archwiliodd y prosiect hwn beth sy'n gwneud addysgwr hyfforddwyr gwych. Mae'n canolbwyntio ar sut mae hyfforddwyr yn dysgu ac yn adlewyrchu a sut gall hyn wella hyfforddi. Mae'r canfyddiadau'n helpu addysgwyr hyfforddwyr i adlewyrchu ar eu gwaith a gwella sut maent yn addysgu.

Prosiect Pwysau Diogel

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag athletwyr sy'n ceisio colli pwysau'n gyflym, yn enwedig pobl ifanc. Nododd Chwaraeon Cymru fod hyn yn bryder cynyddol. Mae'r prosiect yn adeiladu tystiolaeth i helpu i greu polisïau, addysg a chefnogaeth well. Y nod yw cadw athletwyr ifanc yn iach ac yn ddiogel yn y **tymor hir.**

Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026: Profi gwybyddol a gweithdai cyd-ddylunio

Mae Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru yn sail i'n model buddsoddi wrth i ni ddefnyddio'r data i sicrhau bod y chwaraeon y mae plant eisiau cymryd rhan ynddynt yn cael eu cyllido i greu cyfleoedd. Mae'n un o'r arolygon mwyaf o bobl ifanc yng Nghymru.

Gan adeiladu ar ein hymchwil 'profi gwybyddol' gyda'r nod o wella Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026, eleni fe wnaethom gynnwys plant a phobl ifanc drwy weithdai cyd-ddylunio, gan ofyn iddynt ddarllen cwestiynau'r arolwg yn uchel, egluro beth oeddent yn ei feddwl oedd ystyr y cwestiynau, a disgrifio sut gwnaethant ddewis eu hatebion. Helpodd hyn ni i nodi cwestiynau a oedd yn ddryslyd neu'n anodd eu deall ac amlygodd ble roedd angen gwelliannau i gefnogi ymatebion manwl gywir a hawdd.

Drwy wrando ar adborth disgyblion, fe wnaethom symleiddio'r iaith, egluro'r ystyr, a gwella'r opsiynau ymateb. Helpodd hyn i sicrhau profiad mwy cadarnhaol wrth gwblhau'r arolwg.

O ganlyniad, mae Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026, a fydd yn fyw drwy gydol Tymor yr Haf 2026, yn gliriach, yn fwy cynhwysol, ac yn adlewyrchu barn plant a phobl ifanc yn well. Mae hyn yn sicrhau y bydd eu barn yn cael ei chofnodi'n fwy didwyll.

Cynllun Hamdden Actif (CHA) 60+

Mae'r Cynllun Hamdden Actif (CHA) 60+ yn cefnogi oedolion 60 oed a hŷn i fod yn fwy actif ac aros yn actif. Fe'i lansiwyd yn 2021 fel rhan o gynllun Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol **integredig** drwy helpu pobl i aros yn actif, yn iach ac yn annibynnol wrth iddynt heneiddio. Mae hefyd yn helpu i leihau ac **atal** anghydraddoldebau iechyd drwy gyrraedd pobl sydd mewn mwy o berygl o iechyd gwael ac yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Atgyfeirio at Ymarfer Corff Cenedlaethol.

Gan gynnig sesiynau gweithgarwch grŵp cost isel mewn canolfannau hamdden a lleoliadau cymunedol, mae'r sesiynau'n canolbwyntio ar feithrin hyder, cysylltiadau cymdeithasol ac arferion iach **tymor hir.** Mae'r sesiynau'n gynhwysol ac yn addas ar gyfer gwahanol alluoedd ac anghenion iechyd. Mae ffocws hefyd ar gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl mewn ardaloedd incwm isel a phobl sydd â chyflyrau iechyd **tymor hir.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhaglen wedi cael ei haddasu i anghenion lleol, gyda phartneriaid cyflawni'n arloesi i gynnwys rhaglenni cyngynefino ac adferiad ôl-lawfeddygol, gan sicrhau manteision **ataliol** pellach. Mae tystiolaeth gynyddol o gyfranogiad parhaus y tu hwnt i'r atgyfeiriad cychwynnol, gan roi ffordd i bobl aros yn actif ar ôl gorffen rhaglenni clinigol.

Diogelu

Rydym wedi parhau i gryfhau diogelu ar draws chwaraeon yng Nghymru ochr yn ochr ag arbenigwyr yn y maes – Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC (CPSU) ac Ymddiriedolaeth Ann Craft (ACT) – i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i'n partneriaid. Mae hyn wedi galluogi iddynt ddatblygu arferion amddiffyn plant ac oedolion cryfach a chodi safonau ar draws y sector.

Mae pob Corff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) sy'n cael ei gyllido wedi cyrraedd Lefel 1 o leiaf bellach yn safonau diogelu CPSU. Mae hyn yn golygu bod ganddynt fesurau allweddol ar waith, gan gynnwys polisïau clir, systemau adrodd, a pherson arweiniol ar lefel y bwrdd. Maent hefyd yn bodloni gofynion diogelu oedolion Cymru yn llawn.

Gyda'r sylfeini hyn yn eu lle, mae'r ffocws wedi symud i gyfnod **cydweithredol** o welliant parhaus. Drwy CPSU ac ACT, mae partneriaid yn derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra i adolygu a chryfhau eu cynlluniau diogelu, sydd wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth, gwella tryloywder, a gwneud diogelu yn rhan gryfach o sut mae sefydliadau'n cael eu rhedeg.

Mae cefnogaeth bellach hefyd yn cael ei hymestyn i gynnwys partneriaid **cenedlaethol** a phartneriaethau chwaraeon. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn mapio'r gefnogaeth hon i sicrhau ei bod yn gyson ac o ansawdd uchel ar draws y system gyfan ar gyfer y **tymor hir.**

Dadansoddiad

Mae dull Chwaraeon Cymru o ymdrin ag Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026 wedi canolbwyntio'n gryf ar y person. Aethom ati i symleiddio ac ailgynllunio'r arolwg gydag **ymwneud** gan blant a phobl ifanc.

Er enghraifft, defnyddiwyd ymchwil defnyddwyr drwyddo draw, gan gynnwys profion gwybyddol: cyfweld â phlant a phobl ifanc ledled Cymru i wirio pa mor dda roeddent yn deall y cwestiynau a'r termau allweddol. Helpodd hyn ni i greu arolwg sy'n berthnasol, yn gynhwysol ac yn hygyrch. Fe wnaethom hefyd dreialu'r arolwg mewn ysgolion i gael adborth uniongyrchol. Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol:

- Cwestiynau newydd a dyluniad cwestiynau gwell.
- Cymhorthion sain a gweledol.
- Awgrymiadau sain dwyieithog.
- Gellir cwblhau'r arolwg mewn 15 iaith wahanol.
- Mae Iaith Arwyddion Prydain wedi'i hymgorffori drwy gydol yr arolwg.
- Fersiwn fyrrach o'r arolwg ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion hygyrchedd ychwanegol.

Fe wnaethom **gydweithredu** hefyd â Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol a Chyrff Rheoli Cenedlaethol cyn yr arolwg. Bydd hyn yn helpu partneriaid i ddefnyddio'r wybodaeth a'r data i wneud penderfyniadau person-ganolog.

Mae Tîm Dylunio Digidol a Gwasanaethau Chwaraeon Cymru wedi bod yn allweddol i'r dull hwn o weithredu sy'n canolbwyntio ar y person.



Yn 2025, arweiniodd y tîm 16 o brosiectau, pob un yn defnyddio ymchwil defnyddwyr i helpu i siapio penderfyniadau. Mae hyn yn dangos cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar hyn ar draws y sefydliad, gyda thimau a chyfarwyddiaethau'n defnyddio dylunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr.

Mae sgiliau a hyder mewn ymchwil defnyddwyr yn parhau i dyfu ar draws Chwaraeon Cymru. Mae mwy o gydweithwyr nid yn unig yn cymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr ond hefyd yn ei gynllunio a'i arwain o fewn eu prosiectau eu hunain. Mae hyn yn dangos defnydd ehangach o ymchwil defnyddwyr a dealltwriaeth gadarnach o'i egwyddorion.

Er enghraifft, gweithiodd Athrofa Chwaraeon Cymru gyda RYA Cymru Wales i greu Map Ffordd Ffyniannus. Mae hyn yn eu helpu i wirio pa mor dda mae eu hamgylcheddau'n cefnogi morwyr ifanc, a beth gallant ei wella. Buom yn sgwrsio gyda mwy na 50 o rieni morwyr ifanc, yn arsylwi sesiynau hyfforddi, yn cynnal grwpiau ffocws, ac yn siarad gydag arweinwyr i ddeall beth sy'n helpu pobl ifanc i fwynhau a ffynnu yn y gamp.

Mae'r amcan hwn yn dod yn rhan annatod o Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar draws y sector chwaraeon ehangach yn llai clir.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Un neges sy'n cael ei hailadrodd o'r adolygiad yw bod angen i'n dealltwriaeth ni o beth mae canolbwyntio ar y person yn ei olygu ddatblygu a dod yn fwy soffistigedig, gan gynnwys drwy well dealltwriaeth o ymddygiad dynol. Mae canolbwyntio ar y person yn fwy na gofyn i bobl beth maen nhw ei eisiau.

Nid yw mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y person o weithredu'n golygu'n awtomatig y bydd rhywbeth yn llwyddo. Gall rhoi hyn ar waith fod yn anodd o hyd. Er enghraifft, dylai'r Arolwg Chwaraeon Ysgol gwell ddarparu canfyddiadau gwell a manwl gywir ond, os na chaiff y wybodaeth ei defnyddio'n dda yn Chwaraeon Cymru a chan ranbarthau, cymunedau ac ysgolion, bydd y cyfle'n cael ei golli.

Gallai ein gwaith ar ddull meddwl systemau mwy cyfannol, ar adegau, greu tensiynau gydag amcan sy'n canolbwyntio ar y person. Bydd angen i ni reoli'r rhain yn ofalus.

#2 Sicrhau bod pob person ifanc yn cael dechrau gwych

Mae gan bob person ifanc y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi sylfeini iddynt fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

Astudiaeth achos

Mae buddsoddiad mewn cyfleuster chwaraeon cenedlaethol yn cynnig lle i bob person ifanc fod yn actif

Mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi £3.3 miliwn mewn gwella cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru, gyda £2.8 miliwn ar gyfer chwaraeon ar lawr gwlad.

Roedd ceisiadau am y cyllid cyfalaf yn blaenoriaethu prosiectau a fyddai'n gwneud chwaraeon yn fwy cynhwysol i bawb, yn cefnogi datblygiad athletwyr talentog ac yn gwella effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd.

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful £40,000 o Gronfa Cydweithredu ar Gaeau Chwaraeon Cymru, gyda chyllid ychwanegol gan Gyllid Ffyniant a Rennir a Chyngor y DU, i uwchraddio cae astroturf yn Aberfan i fynd i'r afael â phrinder y sir o arwynebau artiffisial.

Bob tymor mae miloedd o gemau pêl droed a rygbi ar lawr gwlad yn cael eu canslo oherwydd tywydd gwael. Mae caeau artiffisial yn hanfodol i sicrhau bod timau o bob grŵp oedran yn parhau i fod yn gorfforol actif drwy gydol y flwyddyn.

Dangosodd data Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 fod pêl fasged yn un o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd ymhlith pobl ifanc. Mae buddsoddi yn y gamp wedi lleihau rhwystrau ac wedi gwella cyfleusterau. Derbyniodd Torfaen ddyfarniad o £20,489 ar gyfer cylchoedd pêl fasged addasadwy o ran uchder a byrddau sgorio electronig yng Nghanolfan Hamdden Cwmbrân a Chanolfan Byw yn Actif Pont-y-pŵl.

Actif Dyddiol: Prosiect Profi a Dysgu

Mae Prosiect Profi a Dysgu Mabwysiadwyr Cynnar Actif Dyddiol yn rhan o'r **cydweithrediad tymor hir** rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru, a Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi dull ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Mae'r cynnig Actif Dyddiol yn helpu ysgolion i ddarparu cyfleoedd i blant fod yn actif cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol. Mae'n seiliedig ar wyth maes allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi gweithgarwch.

Gan fod ysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth siapio arferion plant, mae'r dull hwn o weithredu'n cefnogi gweithgarwch drwy arweinyddiaeth, addysgu, amgylchedd yr ysgol, a phartneriaethau. Mae hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan.

Mae tystiolaeth wedi dangos pwysigrwydd teilwra'r cynnig i leoliadau unigol gan fod dull un maint yn ffitio pawb o weithredu'n cael effaith anghyson yn y **tymor hir**.

Bydd y cyfnod Profi a Dysgu yn edrych ar sut mae'r dull hwn yn gweithio'n ymarferol. Bydd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn cael eu cefnogi gan Swyddog Actif Dyddiol i adolygu eu cynnig presennol a chreu cynlluniau gweithredu. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys hyfforddiant, dysgu a rennir, ac arweiniad parhaus.

Bydd y prosiect yn casglu adborth ar beth sy'n gweithio'n dda, pa heriau mae ysgolion yn eu hwynebu, a sut i wella'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn helpu i **integreiddio** model syml ac ymarferol ar gyfer ysgolion ledled Cymru.





Fframwaith Sylfeini Cymru

Lansiwyd Fframwaith Sylfeini **arloesol** Cymru ym mis Tachwedd 2025 ac mae'n cefnogi plant 3 i 11 oed i gael profiadau cadarnhaol o chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'n ganllaw i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn ysgolion, clybiau a chymunedau ar gyfer y **tymor hir.**

Datblygwyd y fframwaith mewn **cydweithrediad** â phartneriaid yn y sector chwaraeon a thu hwnt, ledled Cymru, gan gynnwys cyrff rheoli, awdurdodau lleol a sefydliadau cenedlaethol. Ei nod yw helpu mwy o blant i fod yn actif a mwynhau cymryd rhan.

Ers ei lansio ym mis Tachwedd 2025, mae partneriaid wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth. Maent wedi rhannu'r fframwaith o fewn eu sefydliadau a'i hyrwyddo i glybiau a chymunedau.

Mae'r adnoddau ategol yn cynnwys fideos, cardiau hyfforddi, dysgu ar-lein ac adnodd adlewyrchu i glybiau.

Mae'r fframwaith yn dangos sut i greu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n meithrin hyder, sgiliau a mwynhad. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd amgylcheddau diogel a chynhwysol a symud yn rheolaidd ar gyfer datblygiad iach.

Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fframwaith drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi hawliau plant.
- Helpu sefydliadau i'w gynnwys yn eu cynlluniau a'u hyfforddiant.
- Cyflwyno cynllun cyfathrebu ar y cyd ar draws y sector.

Pipyn Actif



Mae Pipyn Actif yn rhan o gynllun Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru. Mae'n rhedeg am y drydedd flwyddyn ym Merthyr Tudful, ar Ynys Môn ac yn Arc De Caerdydd. Mae'r prosiect yn gweithio gyda theuluoedd yn eu cymunedau i wella iechyd plant nawr a helpu i greu arferion iach yn y **tymor hir.**

Mae'r prosiect yn creu gweithgareddau corfforol hwyliog, diogel ac addas i deuluoedd sydd â phlant 3 i 7 oed a allai fod mewn perygl o fynd dros bwysau neu brofi gordewdra, gyda'r nod o **atal** problemau iechyd yn y dyfodol.

Mae gan bob ardal arweinydd prosiect sy'n dylunio gweithgareddau sy'n addas i anghenion teuluoedd lleol. Mae hyn yn cysylltu â rhaglen Pipyn ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno gan:

- Môn Actif ar Ynys Môn.
- Chwaraeon Met Caerdydd yng Nghaerdydd.
- StreetGames ym Merthyr Tydfil.

Mae tîm allanol, UKRCS, yn gwerthuso'r prosiect. Maent yn helpu pob ardal i greu Cynlluniau Datblygu Gweithredu fel bod y gwaith yn aros ar y trywydd iawn. Nod y gwerthusiad yw adeiladu model y gellid ei ddefnyddio ledled Cymru gyfan yn y dyfodol.

Yn 2025/26, cynhaliwyd sesiynau dysgu ar gyfer arweinwyr prosiectau, ac am y tro cyntaf, daeth Pipyn a Pipyn Actif at ei gilydd ar gyfer sesiwn ar-lein ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Citbag

Rydym wedi parhau i ddatblygu ac arloesi gyda phlatfform Citbag i gefnogi ymarferyddion sy'n darparu Addysg Gorfforol, Chwaraeon Ysgol a Gweithgarwch Corfforol (PESSPA) ledled Cymru.

Ychwanegwyd adnoddau pellach sy'n gysylltiedig â Chamau Cynnydd y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn sicrhau mwy o **integreiddio** â'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles.

Mae gwella adnoddau gymnasteg wedi bod yn ffocws allweddol. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel, yn addas ac yn ddiddorol i ddysgwyr ar bob cam. Rydym hefyd wedi gwella'r llywio, gan ei gwneud yn haws i ymarferyddion ddod o hyd i'r adnoddau a'u defnyddio.

Mae mwy o ymarferyddion bellach yn defnyddio Citbag, gan ddangos hyder cynyddol yn y platfform. Mae'r cynnydd mewn cyfrifon defnyddwyr a gweithgarwch yn tynnu sylw at ei werth wrth gefnogi darpariaeth o ansawdd uchel ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i wella'r platfform drwy wella profiad y defnyddiwr ac ychwanegu mwy o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Ein nod yw **cynnwys** a chefnogi ymarferyddion i ddarparu profiadau diogel, cynhwysol a diddorol sy'n helpu plant a phobl ifanc i feithrin sgiliau, hyder, a diddordeb gydol oes mewn bod yn actif.

Dadansoddiad

Mae Fframwaith Sylfeini Cymru (FfSC) yn dod yn rhan annatod o sefydliadau partner Chwaraeon Cymru. Ers 2024, mae nifer y partneriaid sy'n **ymwneud** â gweithgareddau FfSC wedi codi o 35 i 78.

Mae'r partneriaid yn cynnwys awdurdodau lleol sy'n cael eu cyllido, Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, ein partneriaid cenedlaethol, ac amrywiaeth o sefydliadau eraill ar lefel leol, genedlaethol a'r DU.

Mae partneriaid yn defnyddio FfSC mewn gwahanol ffyrdd o fewn eu sefydliadau eu hunain a gyda phobl eraill maent yn gweithio gyda hwy. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o adnoddau FfSC, diweddaru byrddau, a rhannu dysgu mewn digwyddiadau rhwydweithio a chynadleddau. Yn ymarferol, mae llawer o bartneriaid yn sicrhau bod eu rhaglenni hyfforddi a datblygu'r gweithlu yn cyd-fynd ag egwyddorion ac adnoddau hyfforddi FfSC.

Gallwn weld effaith ar lefel partneriaid. Mae FfSC wedi'i gynnwys bellach mewn rhai prosesau partneriaid, ac mae adnoddau ymarferol ar gyfer hyfforddwyr a darparwyr ar lawr gwlad ar waith yn genedlaethol. Mae'n rhy gynnar o hyd i weld yr effaith lawn ar brofiadau plant a phobl ifanc, ond dylid tracio hyn yn ystod 2026-27.

Mae Actif Dyddiol (AD) yn **gydweithrediad** gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC). Mae'n fframwaith sy'n helpu ysgolion i greu amgylcheddau dysgu actif i ddysgwyr 3 i 16 oed, drwy ymgorffori gweithgarwch corfforol ar draws y diwrnod ysgol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi **cydweithredu** ag ICC ar ddull 'profi a dysgu' gydag AD. Ym mis Ebrill 2026, bydd hyn yn dechrau gyda dull ysgol gyfan peilot o weithredu.

Rydym wedi cynyddu'r buddsoddiad yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol yn sylweddol er mwyn i ni allu darparu adroddiadau mwy amserol i bartneriaid ac ysgolion.

Mae Citbag (adnodd ar-lein dwyieithog Chwaraeon Cymru ar gyfer athrawon) wedi cael ei ddiwygio a'i wella, gyda mwy o adnoddau wedi'u cysylltu â'r cwricwlwm. Mae cynlluniau ar waith hefyd i gysylltu Citbag â Hwb (y platfform digidol ar gyfer athrawon yng Nghymru).

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach

Mae'r cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf i sefydlu FfSC wedi bod yn gryf, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y partneriaid sy'n **ymwneud** ledled Cymru ac ar draws llawer o chwaraeon a sefydliadau, gan gynnwys rhai nad ydynt yn bartneriaid sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd.

Yr her ar gyfer y flwyddyn nesaf yw symud y tu hwnt i ddylanwadu ar sefydliadau a datblygu'r gweithlu, a chyrraedd chwaraeon ar lawr gwlad fel bod profiadau plant a phobl ifanc yn gwella. Bydd angen i ni werthuso cynnydd wrth gyflawni a'r effaith ar brofiadau plant a phobl ifanc. Wrth i'r gwaith hwn symud ymhellach o'r lefel strategol, bydd angen ymdrech ac amser parhaus.

Beth yw rôl lleisiau plant a phobl ifanc yn y dyfodol yn FfSC a sut gellir cyflawni eu **hymwneud**?

#3 Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

Astudiaeth achos

Partneriaeth awyr agored yn helpu goroeswyr canser y fron i ailddarganfod eu hochr wyllt

Gall gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd meddwl a lles pobl. Mae ein partner cenedlaethol, y Bartneriaeth Awyr Agored, wedi defnyddio cyllid y Loteri Genedlaethol a ddyfarnwyd gan Chwaraeon Cymru i alluogi goroeswyr canser y fron i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Dechreuodd prosiect y Rhuban Pinc gyda grwpiau cerdded lles i helpu merched i feithrin eu hyder ac ailddarganfod eu hoffter o natur.

Mae eu hasbri am fywyd ac antur wedi arwain at gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored mwy anturus, gan gynnwys syrffio, dringo a phadlfyrddio yn sefyll. Yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd, cymerodd y grŵp ran mewn rafftio dŵr gwyn. Dywedodd un cyfranogwr, Melanie:

> "Mae yna awydd i gofleidio'r cyfleoedd a chael hwyl, gwneud y gorau o fywyd."

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn dod â chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ôl i fywydau'r merched hyn ac yn eu galluogi i gael profiadau na fyddent wedi dychmygu eu cael erioed. Dywedodd Leila o'r Bartneriaeth Awyr Agored:

> "Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb Chwaraeon Cymru a'r Loteri Genedlaethol."





Buddsoddiadau

Cyllid Cyfalaf

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru drwy ein rhaglenni cyllid cyfalaf.

Eleni, gwnaed 190 o ddyfarniadau, gyda chyfanswm o £12.8 miliwn wedi'i fuddsoddi i wella cyfleusterau ar gyfer cymunedau yn y **tymor hir.**

Fel rhan o hyn, derbyniodd 118 o glybiau chwaraeon nid-er-elw gefnogaeth drwy'r Grant Arbed Ynni. Mae'r cyllid hwn yn helpu clybiau i leihau costau ynni a dod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Mae hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol yn y **tymor hir.**

Cronfa Loteri Gymunedol: Cymru Actif

Mae Cronfa Cymru Actif yn parhau i gefnogi clybiau cymunedol ledled Cymru ac wedi cefnogi pob camp gydnabyddedig bron drwy gyllid hanfodol y Loteri.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 677 o glybiau wedi derbyn £3,973,199 mewn cyllid i wella offer, addysgu hyfforddwyr, a gwella caeau. Mae'r gefnogaeth hon yn helpu clybiau i dyfu a darparu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae astudiaethau achos ar gyfer y gronfa hon wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn.

Astudiaeth achos

Lle i Chwaraeon: Crowdfunder

Mae cronfa Lle i Chwaraeon yn cael ei darparu mewn **cydweithrediad** â Crowdfunder UK.

Eleni, derbyniodd 27 o brosiectau gyllid. Buddsoddwyd £246,550 gennym, a helpodd i godi £288,865 pellach gan y cyhoedd. Daeth hyn â chyfanswm y buddsoddiad i £535,415.

Am bob £1 o gyllid cyhoeddus, codwyd £2.17 ychwanegol. Mae hyn yn dangos cefnogaeth gymunedol gref i brosiectau lleol.

Mae'r gronfa hon yn cefnogi prosiectau sy'n gwella profiad cyffredinol chwaraeon. Gall hyn gynnwys cyfleusterau, offer neu wasanaethau gwell sy'n helpu clybiau i ddod yn fwy cynaliadwy.

Eleni, cynyddwyd ein buddsoddiad i gefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd. Rydym wedi gweld graddfa gynyddol o fuddsoddiad drwy'r Rhaglen Lle i Chwaraeon wrth i glybiau cymunedol ddod yn fwy cyfarwydd a hyderus yn eu dulliau o godi arian ac ymgysylltu lleol.

Mae hwn yn arwydd cadarnhaol o ffocws cynyddol ar rôl a phwysigrwydd clybiau chwaraeon lleol fel elfen ffyniannus o gydlyniant cymunedol.

Clwb Athletig Penarth

Ym mis Rhagfyr 2025, dinistriodd tân trychinebus y clwb, gan achosi colled enfawr o gofroddion, tlysau, byrddau anrhydeddau a ffotograffau.

Mae'r clwb wedi dod at ei gilydd i sicrhau y bydd y timau a ddefnyddiodd y clwb yn dal i allu chwarae ac maent yn codi arian ar gyfer yr ailadeiladu yn y dyfodol. Darparodd cronfa Lle i Chwaraeon Crowdfunder £15,000 o gyllid cyfatebol ac maent wedi rhagori ar eu targed, gyda mwy na £47,000 yn cael ei godi drwy 622 o gefnogwyr.

Prosiect yr Ardd

Nod Prosiect yr Ardd yng Nghasnewydd yw trawsnewid ardal awyr agored sydd wedi gordyfu ac sydd ddim yn cael ei defnyddio yn ofod cymunedol bywiog sy'n hyrwyddo chwaraeon, iechyd a lles.

Roedd gardd Mosg Jam'e Masjid Canol Casnewydd wedi gordyfu ac nid oedd yn cael ei defnyddio, ond gwelwyd bod llawer o botensial i'w throi'n ofod cymunedol amlbwrpas sy'n cyfuno gweithgareddau chwaraeon, iechyd a lles.

O sesiynau ymarfer corff awyr agored a rhaglenni chwaraeon ieuenctid i weithdai ymwybyddiaeth ofalgar a garddio, roedd y grŵp eisiau ailddatblygu'r gofod lle gallai pobl dyfu - yn gorfforol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol. Roedd gan y prosiect 118 o gefnogwyr unigryw a chodwyd £30,100, gan gynnwys y cyllid gan Chwaraeon Cymru a alluogodd y sefydliad i symud ei sesiynau Bocsio dan do i'r gofod awyr agored newydd ei adnewyddu a chynyddu lefelau cyfranogiad yn sylweddol.

Sylw i

Meddwl blaengar Powys yn creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer chwaraeon



Mae cronfa gyfalaf Chwaraeon Cymru wedi derbyn nifer cynyddol o geisiadau gan awdurdodau lleol i wella neu uwchraddio eu cyfleusterau hamdden, gan gynnwys eu heffeithlonrwydd ynni a'u cynaliadwyedd. Gall cyllid cyfalaf helpu i ostwng biliau ynni a gwella cyfleusterau gydag uwchraddio modern, cynaliadwy. Mae Cyngor Sir Powys wedi cael sylw fel awdurdod lleol rhagweithiol sydd wedi ymchwilio a buddsoddi yng nghynaliadwyedd ei gyfleusterau hamdden.

Mae Cyngor Sir Powys, gan weithio gyda Freedom Leisure, wedi derbyn £539,000 o gyllid cyfalaf dros dair blynedd i wella 13 o ganolfannau hamdden. Mae'r dyfarniadau cyllid wedi galluogi amrywiaeth o brosiectau ledled y Sir. Mae ffaniau dadhaenu ym mhob un o'r 13 o ganolfannau hamdden yn ailddosbarthu gwres gwastraff mewn pyllau a champfeydd i gydbwyso tymereddau, mae paneli solar wedi cael eu gosod mewn pum canolfan hamdden ac mae system adfer ôl-olchi gyntaf Cymru wedi cael ei gosod yng Nghanolfan Hamdden Maldwyn.

Mae'r system hon yn ailgylchu dŵr yn hytrach na'i ddraenio, gan arbed ar ddŵr, gwresogi, clorineiddio a chywiro pH.

Mae'r prosiectau hyn yn sicrhau mwy na dim ond manteision amgylcheddol. Bellach bydd pawb sy'n mynd i'r gampfa'n cael mwynhau amgylchedd oerach a mwy cyfforddus i hyfforddi ynddo; mae 4,500 o blant yn dysgu nofio mewn pyllau sy'n effeithlon o ran ynni ledled Powys bob wythnos ac mae chwaraewyr pêl rwyd yn gallu chwarae drwy gydol y flwyddyn yng Nghanolfan Hamdden Aberhonddu diolch i lifoleuadau LED ar gyrtiau awyr agored.

Mae cyllid cyfalaf Chwaraeon Cymru yn gwella cyfleusterau chwaraeon awdurdodau lleol nid yn unig i fod yn fwy ecogyfeillgar ond hefyd i ddarparu amgylchedd deniadol ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Balch o'r Mislif

Er mwyn helpu i greu Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd, mae angen i ni sicrhau bod pobl yn teimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael eu cefnogi gyda'r mislif. Mae'r mislif yn effeithio ar sut mae merched yn teimlo'n gorfforol ac yn emosiynol drwy gydol y mis. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rôl glir i Chwaraeon Cymru: deall sut mae'r mislif yn effeithio ar gymryd rhan mewn chwaraeon, a dod o hyd i ffyrdd o helpu merched sy'n mislifio ddal ati i fod yn actif.

Rydym yn helpu ein partneriaid i siarad yn fwy agored am y mislif ac yn rhoi canllawiau iddynt ar sut i greu amgylcheddau "balch o'r mislif" yn eu chwaraeon yn y **tymor hir.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi **cydweithredu** gyda Llywodraeth Cymru i gynnal sesiynau ar-lein chwarterol i rannu diweddariadau, casglu barn ein partneriaid, a thrafod heriau a syniadau.

Mae sefydliadau fel Sefydliad Pêl-droed Cymru, Paddle Cymru ac RYA Cymru wedi rhannu esiamplau o'r hyn maen nhw'n ei wneud i gefnogi merched sy'n mislifio.



Fe wnaethom ni siarad hefyd yn uniongyrchol gyda phobl ifanc i ddeall eu profiadau. Fe wnaethom ni gynnal sesiynau grŵp gyda phanel ieuenctid Pêl Rwyd Cymru, athletwyr ifanc o Triathlon Cymru, a'r Panel Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol. Fe wnaethon nhw rannu straeon gonest a defnyddiol am sut mae'r mislif yn effeithio arnynt mewn chwaraeon.

Mewn ymateb, aethom ati i greu canllaw gweledol i ddangos sut beth yw amgylchedd "Balch o'r Mislif". Mae'n cynnwys sicrhau bod cynhyrchion ar gael, gwrando ar bobl ifanc, gwella addysg, a gweithio gyda'n gilydd ar draws chwaraeon.

Dull ymchwil ansoddol newydd

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhoi darlun **tymor hir** cadarn o gyfranogiad a galw am chwaraeon ledled Cymru.

Er mwyn deall canlyniadau ein harolygon cenedlaethol yn well, rydym yn gwybod ei bod yn bwysig deall pam mae pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, nid dim ond pa mor aml maen nhw'n gwneud hynny.

I gefnogi hyn, rydym wedi datblygu dull ymchwil ansoddol, gan **gynnwys** rhai o'r ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i edrych ar brofiadau ac ymddygiadau pobl yn fanylach.

Lansiwyd y prosiect cyntaf yn y dull hwn ym mis Mawrth 2026, gan ganolbwyntio ar sut mae ymddygiad gweithgarwch corfforol yn newid o blentyndod hwyr i oedolaeth gynnar. Mae'r ymchwil yn edrych ar wahaniaethau o ran pa mor aml mae pobl yn cymryd rhan, a'r mathau o chwaraeon a gweithgareddau maen nhw'n eu dewis ar wahanol gyfnodau mewn bywyd.

Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau'r astudiaeth hon ar ein gwefan ac yn eu defnyddio i gefnogi dysgu ynghylch pa rwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth barhau i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr amser hollbwysig hwn yn eu bywydau.

Polisi cydnabod y DU

Cydnabyddiaeth yw'r broses sy'n cael ei defnyddio i benderfynu pa chwaraeon a Chyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) fydd y Cynghorau Chwaraeon yn gweithio gyda hwy ac y gallant eu cefnogi. Yng Nghymru, mae cael cydnabyddiaeth yn galluogi i sefydliadau wneud cais am gyllid, gan gynnwys Cronfa Cymru Actif a chefnogaeth cyllido torfol.

Gan **gydweithredu** gyda Chynghorau Chwaraeon eraill y Gwledydd Cartref ac UK Sport, rydym wedi adolygu Polisi Cydnabod y DU, a gyflwynwyd gyntaf yn 2017.

Edrychodd yr adolygiad ar bob rhan o'r broses. Mae hyn yn cynnwys y polisi, y broses ymgeisio, adolygiadau, apeliadau, canllawiau a ffurflenni.

Bydd y polisi wedi'i ddiweddaru'n gwneud y broses ymgeisio'n symlach ac yn gyflymach. Fodd bynnag, bydd angen o hyd i sefydliadau ddangos llywodraethu cryf a chynlluniau clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ddatblygu eu camp a'u sefydliad.

Os caiff ei gymeradwyo gan holl Gynghorau Chwaraeon y Gwledydd Cartref, bydd y polisi newydd yn ailagor ar gyfer ceisiadau rhwng diwedd y gwanwyn a dechrau'r haf 2026.

Iechyd meddwl

Yn Chwaraeon Cymru, rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ei chwarae wrth gefnogi lles meddyliol. Rydym eisiau helpu i newid sut mae pobl yn meddwl am iechyd meddwl ac yn ymdrin ag ef.

Drwy feithrin ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ar draws chwaraeon, ein nod ni yw creu amgylcheddau diogel, cynhwysol a chefnogol. Mae hyn yn helpu athletwyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu ffynnu.

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws tri maes allweddol: addysg, strategaeth a pherthyn. Mae'r partneriaid yn cynnwys Badminton, Gymnasteg, Undeb Rygbi Cymru, Hoci, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Colegau Cymru, Triathlon a Golff.

Prosiectau pwysig

Cefnogodd **Badminton Cymru** ei hyfforddwyr i fynychu gweithdai hyfforddiant perthynol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddeall meddyliau a theimladau, meithrin perthnasoedd cadarn, a chreu amgylcheddau cefnogol.

Cynhaliodd **Colegau Cymru** weithdai ar iechyd meddwl ac amgylcheddau cadarnhaol i staff sy'n arwain lles actif i bobl ifanc.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu modiwlau dysgu ar gyfer partneriaid. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: diogelwch seicolegol, annibyniaeth, modelau rôl, a rheoli newid.

Symud at gynhwysiant

Mae'r Fframwaith Symud at Gynhwysiant wedi cefnogi 18 o sefydliadau partner i wella eu gwaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Drwy hunanadlewyrchu, cynllunio i weithredu a mentora, mae partneriaid wedi meithrin hyder a gwella sut maent yn creu amgylcheddau cynhwysol yn y **tymor hir.**

Mae mentora wedi cael ei amlygu dro ar ôl tro fel rhywbeth trawsnewidiol. Disgrifiodd un partner ei sesiynau fel rhai "sy'n procio llawer ar y meddwl... gan ddarparu nifer o syniadau y gallaf eu trosi'n gamau ymarferol," ac roedd yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol cael trafodaethau agored gyda rhywun y tu allan i'w sefydliad. Roedd hyn yn ei helpu i droi syniadau'n gamau ymarferol, rhoi ffocws i'w waith a chreu cynlluniau cynhwysiant clir.

Mae'r fframwaith hefyd wedi cefnogi sefydliadau i wella eu systemau a nodi ffyrdd o wneud eu gwaith yn fwy cynhwysol. Mae dysgu ar y cyd wedi helpu partneriaid i ddysgu oddi wrth ei gilydd a dod o hyd i atebion i heriau cyffredin.

Wrth i'r rhaglen ddatblygu, bydd adborth gan bartneriaid a mentoriaid yn parhau i siapio'r fframwaith. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddefnyddiol, yn berthnasol, ac yn cefnogi cynnydd parhaus ar draws y sector.



Partneriaethau chwaraeon rhanbarthol

Mae'r pum Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol ledled Cymru wedi'u sefydlu'n llawn bellach. Er eu bod mewn gwahanol gamau, mae pob un yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud cynnydd da.

Mae'r partneriaethau'n rhannu dysgu ac yn gweithio ar y cyd ar feysydd allweddol, fel monitro a gwerthuso. Mae hyn yn helpu i wella effeithlonrwydd a chryfhau'r system. Gyda'i gilydd, maent yn cefnogi dull mwy lleol ac unedig o weithredu gyda chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gyda ffocws cadarn ar degwch a chynhwysiant.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cefnogi'r datblygiad hwn. Mae'r cynnydd allweddol yn cynnwys y canlynol:

Actif North Wales

Mae Actif North Wales yn parhau i gyflawni ei strategaeth **dymor hir.** Mae wedi symud tuag at ddull sy'n cael ei arwain yn fwy gan y gymuned, gan gydweithio'n agos gyda phartneriaid fel iechyd, addysg, a'r trydydd sector. Mae cynlluniau lleol ar waith ar draws y chwe maes, wedi'u cefnogi gan ffocws cadarn ar ddatblygu'r gweithlu.

Activate Gorllewin Cymru

Mae Activate Gorllewin Cymru wedi datblygu strategaeth ranbarthol, brand, a gwefan. Mae'n meithrin sgiliau ar draws ei rhwydwaith ac yn gwneud mwy o ddefnydd o ddata fel sail i benderfyniadau yn y dyfodol.

Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr wedi cael ei benodi, sy'n nodi cam allweddol ymlaen. Mae'r bartneriaeth wedi creu systemau craidd ac mae'n mabwysiadu dull system gyfan o weithredu, gan ganolbwyntio ar weithgarwch corfforol bob dydd yn ogystal â chwaraeon.

Partneriaeth Chwaraeon Gwent

Mae'r bartneriaeth wedi cael ei sefydlu'n ffurfiol, gyda ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae Cadeirydd annibynnol wedi cael ei benodi, gyda chynlluniau i symud i strwythur bwrdd llawn.

Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru

Mae Cyfarwyddwr Rhanbarthol wedi cael ei benodi ac mae systemau allweddol ar waith bellach. Mae'r ymgysylltu â phartneriaid lleol wedi cryfhau hefyd.

Arolwg Cenedlaethol Cymru: Chwaraeon a ffyrdd o fyw actif (16+)

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhoi darlun cenedlaethol o chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'n cael ei gynnal bob blwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys ystod eang o bynciau. Ers 2016, mae wedi cynnwys adran ar chwaraeon a ffyrdd o fyw actif, dan arweiniad Chwaraeon Cymru.

Mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau craidd bob blwyddyn i dracio cyfranogiad a galw.

Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol am agweddau, cyfleusterau a gwirfoddoli. Defnyddir y canlyniadau ochr yn ochr â'r Arolwg Chwaraeon Ysgol fel sail i ddull a phenderfyniadau buddsoddi Chwaraeon Cymru.

Canlyniadau diweddaraf (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)

Cymerodd tua 6,000 o oedolion 16 oed a hŷn ran. Gan fod hyn yn llai nag a gynlluniwyd, dylid darllen y canlyniadau gyda rhywfaint o ofal. Mae'r data wedi cael eu haddasu i adlewyrchu'r boblogaeth yn well.

Canfyddiadau allweddol:

59% o oedolion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf.

56% wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd.

19% wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu chwarae gemau.

6% wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Gweithgarwch rheolaidd:

35% wedi cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos (i lawr o 39%).

Galw:

35% eisiau gwneud mwy o weithgarwch (i fyny o 27%).

22% eisiau gwneud mwy o weithgareddau ffitrwydd.

12% eisiau gwneud mwy o chwaraeon neu gemau.

6% eisiau gwneud mwy o weithgareddau awyr agored.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan ni ac mae'n cynnwys mwy o fanylion am gyfranogiad, gwahaniaethau ar draws grwpiau, ac agweddau at fod yn actif.

O Wanwyn 2026 ymlaen, bydd yr arolwg yn symud ar-lein. Mae'r cwestiynau wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'n well sut mae pobl yn actif. Cyhoeddir y canlyniadau nesaf (2026–27) yn 2027.

Dadansoddiad

Mae'r ymgysylltu gan Ymgynghorwyr Buddsoddi Cymunedol Chwaraeon Cymru yn dechrau meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda sefydliadau cymunedol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli cymunedau amrywiol o ran hil. Mewn rhai achosion, mae'r perthnasoedd hyn wedi helpu clybiau newydd i gael mynediad at Gronfa Cymru Actif am y tro cyntaf. Mewn achosion eraill, mae'r ymddiriedaeth sy'n cael ei hadeiladu yn cryfhau partneriaethau ac yn ein helpu i ailystyried sut rydym yn dyfarnu grantiau.

Mae ein gwaith i helpu partneriaid i gryfhau cynhwysiant wedi symud ymlaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn dau faes. Yn gyntaf, mae'r fframwaith Symud At Gynhwysiant wedi ennill momentwm, gyda mwy o bartneriaid yn ymuno â'r garfan ddiweddaraf ac yn elwa o hunanadlewyrchu, cynllunio i weithredu a mentora. Mae tri phartner wedi dychwelyd at y rhaglen ragweithiol hon hefyd. Mae ei chynnig mentora wedi cael ei ddisgrifio dro ar ôl tro fel un trawsnewidiol.

Yn ail, rydym wedi gweithredu ar yr adolygiad o'n fframwaith llywodraethu a datblygu pobl ar gyfer partneriaid sy'n cael eu cyllido. Mae hwn wedi cael ei ailenwi'n Arwain Cymru ac mae ei ffocws ar degwch a chynhwysiant wedi'i gadw. Mae'r gofynion craidd yn cynnwys yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd amgylcheddol hefyd bellach.

Teimlai rhai pobl yn yr adolygiad fod yr amcan hwn wedi'i ymgorffori'n dda yn Chwaraeon Cymru, a bod timau ar draws y sefydliad yn ystyried tegwch, cynhwysiant a lles. Fodd bynnag, nid oeddent yn teimlo bod hyn yn wir eto mewn chwaraeon ar lawr gwlad. Mae ein harolygon hefyd yn dangos bod gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Mae'r cyfleusterau newid yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi cael eu hadnewyddu, gan gynnwys darparu mannau newid i bob rhywedd gyda chiwbyclau unigol. Mae ramp wedi cael ei gosod ar y balconi i wella mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn yn ystod Pencampwriaeth Ryngwladol Para Badminton Prydain ac Iwerddon. Ar ôl y digwyddiad, penderfynwyd cadw'r ramp yn barhaol i wella hygyrchedd yn y cyfleuster.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae'r cynlluniau peilot ymyriadau seiliedig ar deuluoedd (Pipyn Actif) wedi dangos cynnydd gwirioneddol. Mae eu hehangu ledled Cymru yn syniad cyffrous.

Mae angen i ni ddysgu mwy oddi wrth weithgarwch a chyflawniad partneriaid. Efallai y bydd y sesiynau Dysgu Carlam dan arweiniad sefydliadau'r sector chwaraeon yn fwy gwerthfawr na'r sesiynau mewnol ar gyfer staff Chwaraeon Cymru. Mae angen i ni gasglu a rhannu mwy o ddysgu o arfer ar draws y sector.

Nid yw pob un o sefydliadau partner Chwaraeon Cymru yn gallu gwneud popeth sydd angen i ni ei hyrwyddo. Byddai dealltwriaeth gliriach, wedi'i chydlynu o bwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud beth yn helpu partneriaid i ganolbwyntio eu hymdrech lle gall gael yr effaith fwyaf.

Mae angen i ni fynd y tu hwnt i wneud testun ein gwefan yn fwy hygyrch. Mae angen i gynnwys ar draws holl wasanaethau Chwaraeon Cymru fod yn gwbl hygyrch a diwallu anghenion pobl.

#4 Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir

Mae sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus, sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.

Astudiaeth achos

Cyllido torfol yn dod â chymunedau lleol at ei gilydd

Mae cynllun Cyllido Torfol Lle i Chwaraeon Chwaraeon Cymru ar agor drwy gydol y flwyddyn ac, ers ei sefydlu yn 2021, mae wedi codi mwy nag £1 miliwn ar gyfer cyfleusterau clybiau chwaraeon cymunedol.

Mae Paddle West yn glwb chwaraeon dŵr ar Lyn Castell Sir Benfro. Nod ei ymgyrch cyllido torfol oedd troi Cwchdy Penfro'n ystafelloedd newid ac yn ystafell ddosbarth i ddarparu hyfforddiant diogelwch dŵr a chwaraeon padlo. Cefnogodd y gymuned leol yr ymgyrch yn llawn, a chododd Paddle West gyfanswm o £30,238.

Roedd Paddle West eisoes yn addysgu 1,000 o bobl ifanc bob blwyddyn ac, yn ôl y Cyfarwyddwr Graham Booth, mae hyn ar fin dyblu gan eu bod bellach yn gallu gweithredu am fwy o fisoedd o'r flwyddyn.



Canfu Mosg Jam'e Masjid Canol Casnewydd fod eu gofod awyr agored wedi gordyfu llawer mwy nag yr oeddent yn sylweddoli a'r penderfyniad ar unwaith oedd trawsnewid yr ardd yn ofod ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch a lles meddyliol.

Mae Nazrul yn weithiwr ieuenctid ac yn hyfforddwr chwaraeon yn NCJM ac eglurodd nad "lle i addoli yn unig ydyn ni. Yma yn NCJM, rydyn ni'n hwb cymunedol gydag adran ieuenctid brysur iawn." Gan godi ychydig dros £30,000, mae NCJM bellach yn cynnig sesiynau bocsio i ddynion a sesiynau ffitrwydd i ferched. Mae'r ardd wedi galluogi NCJM i flodeuo a ffurfio cyswllt unwaith eto gyda phobl o bob cwr o Gasnewydd a Chaerdydd.

Platfform dysgu digidol Brightspace

Rydym yn parhau i fuddsoddi ym Mhlatfform Dysgu Digidol Brightspace a'i ddatblygu. Mae'r system ar-lein a rennir hon yn ein helpu ni, a'n partneriaid, i greu a rhannu dysgu digidol, cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a phobl sy'n gweithio yn y byd chwaraeon ledled Cymru.

Nofio Cymru oedd partner cyntaf Chwaraeon Cymru i gael ei ofod a'i gefnogaeth ei hun yn Brightspace. Drwy gyfuno ein seilwaith digidol â'u gwybodaeth benodol i chwaraeon, galluogodd y **cydweithrediad** ddatblygu a chyflwyno tystysgrif hyfforddi annibynnol gyntaf Cymru mewn nofio yn llwyddiannus.

Mae'r bartneriaeth hon yn esiampl wych o sut gall dulliau **integredig** sbarduno arloesedd ar draws y sector. Drwy rannu adnoddau ac arbenigedd, gall partneriaid gynyddu gallu, lleihau dyblygu, arbed amser a chost, a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer cynhyrchu incwm.

Rydym hefyd wedi creu llawer o gynnwys dysgu digidol newydd i gefnogi meysydd gwaith pwysig, gan gynnwys Fframwaith Sylfeini Cymru.

Mae Brightspace wedi'i ategu gan **gydweithrediad** ehangach â sportscotland a Sport Northern Ireland. Drwy gydweithio, gallwn rannu adnoddau, osgoi ailadrodd yr un gwaith, a chynnig cynnwys digidol i'n gilydd heb unrhyw gost.

Rhaglen arweinwyr hyfforddi'r gwledydd cartref 2025–27

Ar ôl llwyddiant rhaglen 2023–26, mae grŵp newydd o arweinwyr hyfforddi o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi dechrau ar eu siwrnai hyfforddi a datblygu dwy flynedd.

Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg mewn **cydweithrediad** gan Chwaraeon Cymru, Sport Northern Ireland a sportscotland. Ei nod yw helpu arweinwyr hyfforddi i ddysgu sgiliau newydd fel eu bod yn gallu creu systemau hyfforddi teg, modern a chynhwysol yn eu chwaraeon.

Mae pump o arweinwyr o Gymru — arweinwyr Criced, Badminton, Athletau, Tennis a Phêl Fasged — wedi ymuno â hyfforddwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer sawl gwersyll hyfforddi tridiau a gynhaliwyd ym mhob gwlad.

Dyfyniadau gan gyfranogwyr o raglen Arweinwyr Hyfforddi 2025–27:

> "Mae pob cyfnod preswyl yn dridiau heriol ac addysgiadol iawn… pethau a ddysgwyd i fynd yn ôl gyda ni bob amser i'n helpu i wella ein systemau datblygu hyfforddwyr."
>
> "Yr hyn y mae'r rhaglen yma'n ei roi i ni yw'r gofod a'r adnoddau i gamu'n ôl a deall yn iawn sut beth yw system hyfforddi sy'n gweithio…"
>
> "Mae'r rhaglen wedi atgyfnerthu pwysigrwydd (a phŵer) dod â phobl at ei gilydd… gan wneud iddyn nhw deimlo'n werthfawr, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn arweinydd dylanwadol…"

Dylunio digidol a gwasanaethau – gwella sut rydym yn darparu gwasanaethau


Mae gwella gwasanaethau Chwaraeon Cymru, a'u gwneud yn haws eu defnyddio, yn hygyrch ac yn gyson, wedi bod yn flaenoriaeth i groestoriad o sefydliadau o wahanol dimau. Mae'r tîm **integredig** hwn wedi canolbwyntio ar ddau brosiect proffil uchel eleni - porthol buddsoddi newydd, a system archebu ar-lein y Ganolfan Genedlaethol.

Y porthol buddsoddi fydd yr un lle caiff holl gyllid Chwaraeon Cymru ei reoli: buddsoddiadau cymunedol, cyfalaf, elitaidd a phartneriaid, a chafodd ei brofi gyda staff a phartneriaid drwy weithdai **cydweithredol.**

Fe wnaeth yr adborth o'r rhain helpu i gynllunio'r system o amgylch anghenion defnyddwyr real. Bydd y system yn helpu'r sefydliad i reoli buddsoddiadau'n gliriach ac yn fwy cyson a bydd yn cael ei chyflwyno fesul cam.

Mae system archebu ar-lein y Ganolfan Genedlaethol yn gallu derbyn archebion am gyfleusterau bellach gan alluogi i aelodau ddiweddaru eu cyfrifon ar system ddwyieithog sy'n gyfeillgar i ffonau symudol. Mae'r uwchraddio hwn wedi cryfhau ein diogelwch digidol ac wedi ein helpu i gyflawni'r achrediad Cyber Essentials Plus.

Mae'r gwelliannau hyn yn rhan o gynllun mwy i fapio, **integreiddio** a moderneiddio ein holl wasanaethau ar gyfer y **tymor hir.**





Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MC) Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru

Eleni, fe wnaethom weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i ffurfioli ein **cydweithrediad** drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MC) newydd sy'n atgyfnerthu ein huchelgais gyffredin: helpu i greu poblogaeth fwy egnïol ac iachach ledled Cymru.

Mae'r MC yn dod â chryfderau'r ddau sefydliad at ei gilydd i **atal** anweithgarwch a hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Mae'n amlinellu cydweithio ar draws ystod eang o feysydd gan gynnwys: helpu i greu poblogaeth fwy actif ac iachach ledled Cymru:

- Eiriolaeth polisi.
- Rhannu arbenigedd a sgiliau.
- Addysg a hyfforddiant.
- Ceisiadau cyllido ar y cyd.
- Ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol.
- Ymchwil a datblygu'r gweithlu.
- Datblygu rhaglenni ar y cyd.
- Cefnogi systemau lleol a gweithluoedd gwirfoddol.
- **Cydweithredu** rhyngwladol.

Mae ein partneriaeth ag ICC wedi'i hen sefydlu eisoes, gyda meysydd gweithgarwch allweddol ar y gweill gan gynnwys comisiynu prosiectau ymchwil ar y cyd, datblygu cyfleoedd y cynnig Actif Dyddiol, sy'n cael ei gefnogi gan swydd newydd ar y cyd, a hyrwyddo manteision iechyd **ataliol** chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae'r MC hwn wedi helpu i sefydlu negeseuon clir a chyson rhwng Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwaith yn sefydlu **integreiddio** ar fentrau newydd sy'n cryfhau rôl chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn iechyd y boblogaeth, ac yn creu mwy o allu i ddenu cyllid, gan helpu i gynyddu effaith ar draws cymunedau.

Strategaeth llwybr a perfformiad

Cynhaliwyd ail Gynhadledd strategaeth llwybr a pherfformiad Cymru ym mis Tachwedd, gan ddod â phobl at ei gilydd o bob rhan o'r sector chwaraeon i rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Y ffocws yn y gynhadledd hon oedd sut rydym yn defnyddio data a sut gallwn wella hyn ar draws y system. Dangosodd y gynhadledd eto pa mor bwysig yw **cydweithredu** a dysgu o brofiadau a rennir gyda'n gilydd, ar gyfer y **tymor hir.**

Cefnogwyd hyn gan astudiaethau achos yn ystod y gynhadledd gan Griced Cymru, Golff Cymru a Badminton Cymru, a ddangosodd sut mae gwahanol sefydliadau'n datblygu eu gwaith.

Roedd yr adborth o'r digwyddiad yn gadarnhaol iawn; dywedodd y rhai y buom yn gweithio â hwy ei bod yn well na'r llynedd ac felly rydym yn awyddus i barhau â'r fformat o ddysgu a chymunedau cefnogol.

Melinau Meddwl

Gwelwyd dwy Felin Meddwl a ddatblygwyd yn y gynhadledd y llynedd yn gwneud cynnydd cadarn eleni: 'dull a rennir o weithio gyda phartneriaid' a 'gwella lefel yr hyfforddi'. Mae'r prosiectau hyn wedi dangos sut gall cydweithio gefnogi **integreiddio** a gwelliannau ar draws y system.

Mae'r ddwy Felin Meddwl wedi symud bellach i dimau cyflawni o fewn Chwaraeon Cymru i barhau â'u datblygiad.



Llywodraethu a datblygu pobl

Gyda'r nod o wella arweinyddiaeth, diwylliant a chydnerthedd ar draws y sector chwaraeon yn y **tymor hir,** fe wnaethom ddarparu cefnogaeth llywodraethu arloesol ac wedi'i theilwra i 27 o bartneriaid Chwaraeon Cymru.

Roedd hyn yn cynnwys cynllunio strategol, delio â chwynion, chwythu'r chwiban, adolygiadau cyfansoddiad, arsylwadau bwrdd a chanllawiau ariannol. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau gwell a gweithio'n fwy effeithiol.

Cyrhaeddodd cefnogaeth 'Datblygu Pobl' ychwanegol 34 o bartneriaid. Drwy raglen hyfforddi Leaderline, derbyniodd 20 o bobl o 17 o sefydliadau gefnogaeth un i un i feithrin hyder a sgiliau arweinyddiaeth.

Cymerodd 14 o bobl eraill o 10 sefydliad ran yn y rhaglen Arwain gydag Effaith, gan ddatblygu sgiliau ar gyfer arweinyddiaeth fodern, gynhwysol sy'n cael ei harwain gan werthoedd.

Cymerodd tri Chorff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) ran mewn peilot diwylliant, gan archwilio sut i feithrin diwylliannau cadarnhaol a chynhwysol ar draws eu sefydliadau.

Daeth Rhwydwaith y Cadeiryddion â Chadeiryddion o bob cwr o'r sector at ei gilydd i rannu dysgu a chefnogi ei gilydd. Gan fod nifer o Bartneriaethau Chwaraeon rhanbarthol mewn cyfnod hynod ddatblygiadol, roedd y gefnogaeth hon hefyd yn galluogi i gyfarwyddwyr gysylltu, dysgu a chynllunio'n **gydweithredol**.

Yn gyffredinol, mae'r gwaith hwn yn meithrin hyder partneriaid ac yn eu helpu i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Datblygu partneriaethau

Mae gwaith wedi parhau i gryfhau sut rydym yn penderfynu pa sefydliadau rydym yn buddsoddi ynddynt ac yn ffurfio partneriaeth â hwy.

Eleni, fe wnaethom adolygu ein partneriaid cenedlaethol a datblygu egwyddorion mynediad clir. Bydd y rhain yn ein helpu i nodi a chreu partneriaethau newydd sy'n ychwanegu gwerth at y sector ac yn creu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon yn y **tymor hir.**

Rydym yn canolbwyntio ar y rôl unigryw y gall pob partner ei chwarae a sut maent yn cefnogi'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Cyflwynwyd proses datblygu partneriaethau glir ac **integredig** hefyd. Mae hyn yn nodi sut gall partneriaid newydd **ymwneud** a sut mae cyllid yn gweithio. Mae'n egluro sut gall partneriaid dderbyn cefnogaeth gychwynnol a symud i gyllid tymor hwy lle mae hynny'n briodol.

Rydym hefyd wedi creu egwyddorion gadael i arwain sut gall partneriaethau ddod i ben os bydd blaenoriaethau'n newid.

Gyda'i gilydd, mae'r adnoddau hyn yn darparu disgwyliadau clir i bartneriaid. Maent hefyd yn helpu sefydliadau i ddangos sut gallant gyfrannu at chwaraeon yng Nghymru.

Astudiaeth achos

Datblygu partneriaethau – Sported

Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom fuddsoddi mewn partner cenedlaethol newydd, Sported, fel rhan o'n dull datblygu partneriaethau. Roedd Sported wedi derbyn cyllid yn flaenorol ar gyfer gwaith prosiect yng Nghymru, gan ddangos effaith gadarnhaol.

Yn dilyn ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, a chryfhau chwaraeon yng Nghymru, fe wnaethom weithio gyda Sported i ddeall sut gallai'r bartneriaeth hon gefnogi cymunedau lleol.

Mae Sported yn elusen yn y DU sy'n cefnogi clybiau a grwpiau cymunedol ar lawr gwlad. Mae'n eu helpu i gael mynediad at gyllid ac yn darparu cyngor arbenigol mewn meysydd fel llywodraethu, codi arian, a marchnata.

Mae hefyd yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth drwy ymgynghorwyr gwirfoddol.

Gyda buddsoddiad Chwaraeon Cymru, mae Sported wedi cyflogi tri swyddog rhanbarthol. Maent yn gweithio mewn cymunedau i helpu clybiau lleol i ymuno â rhwydwaith Sported a chael mynediad at gefnogaeth.

Ers mis Ebrill, mae'r rhwydwaith wedi tyfu, ac mae mwy o grwpiau'n derbyn cefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gyllid ac arweiniad arbenigol i helpu clybiau i ddod yn fwy cynaliadwy a chynnig mwy o gyfleoedd i bobl fod yn actif.

Dadansoddiad

Cynhaliwyd 10 digwyddiad sioe deithiol ranbarthol (dau yn ardal pob Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol), gan gynnwys yr holl awdurdodau lleol a Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol. Helpodd y digwyddiadau hyn ni i brofi a gwella'r arolwg a chefnogi meddwl ffres ynghylch sut bydd yn cael ei gyflwyno. Cynhyrchwyd syniadau ganddynt hefyd, gan gynnwys sut mae Partneriaethau Chwaraeon yn gweithio'n rhagweithiol gyda phrifysgolion i gefnogi gwirfoddoli sy'n fuddiol i chwaraeon ysgol a chymunedol.

Un enghraifft arall yw mabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MC) yn ffurfiol, a lofnodwyd gan Gadeiryddion Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r MC yn dod â chryfderau'r ddau sefydliad at ei gilydd i fynd i'r afael ag anweithgarwch a hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Mae'n nodi sut byddwn yn cydweithio ar draws ystod eang o feysydd, o eiriolaeth polisi i gefnogi systemau lleol a gweithluoedd gwirfoddol.

Daeth Chwaraeon Cymru â'r sector at ei gilydd hefyd i gytuno ar bedair blaenoriaeth polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r **cydweithrediad** hwn ar draws partneriaid cenedlaethol, Cyrff Rheoli Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru wedi helpu'r sector i hyrwyddo negeseuon allweddol ar y cyd, gan ganolbwyntio ar y meysydd sydd fwyaf tebygol o gyflymu effaith chwaraeon ar gymdeithas yng Nghymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd digwyddiad yn y Senedd ym mis Ionawr. Siaradodd deuddeg sefydliad, yn cynrychioli trawsdoriad o chwaraeon yng Nghymru, â gwleidyddion o bob plaid am flaenoriaethau'r sector ar gyfer 2026 a thu hwnt.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rhaglen Gwydnwch y Sector wedi symud o ymchwil cynnar i gynllun clir, sy'n canolbwyntio ar weithredu. Aethom ati i sefydlu grŵp cynghori o arweinwyr o bob rhan o'r byd chwaraeon yng Nghymru i helpu i gytuno ar flaenoriaethau. Cytunwyd ar bum ffrwd waith, gyda saith prosiect naill ai ar y gweill neu wedi'u cynllunio i ddechrau yn 2026. Mae deg sefydliad partner wedi dod at ei gilydd hefyd i edrych ar ddull noddi ar y cyd sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CACh).

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae **cydweithredu** didwyll yn cymryd amser i adeiladu rhwydweithiau, ymddiriedaeth a chyfleoedd a rennir. Mae angen i ni gydnabod a gweld gwerth yn hyn gymaint â chyflawni yn y camau priodol.

Mae ein cyllid cyfalaf yn cynnwys elfennau cydweithredol, er enghraifft drwy'r grwpiau caeau tyweirch artiffisial (CTA) a **chydweithredu** ar gyrtiau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd ar gyfer partneriaethau mwy unedig ar draws ein cynlluniau a'n ceisiadau.

Mae arnom ni angen y systemau, y diwylliant a'r adnoddau priodol i ddod â data at ei gilydd a'u defnyddio ar gyfer nodau cyffredin. Mae'r prosiect Data a Dirnadaeth yn archwilio hyn. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd angen rhaglen waith sylweddol, gyda ffocws cadarn ar hanfodion a diwylliant. Bydd angen safonau data gwell hefyd (gan gynnwys sut i wneud y defnydd gorau o AI), a buddsoddiad mewn sgiliau, hyfforddiant a chapasiti.

Mae gwydnwch ariannol yn parhau i fod yn her sylweddol i'r rhan fwyaf o bartneriaid. Mae costau cynyddol, gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch a chostau byw ehangach, yn rhoi pwysau ar sefydliadau partner.

Mae'r rhaglen Gwydnwch y Sector yn dibynnu ar bartneriaid yn cydweithio'n agosach ac yn fodlon profi a herio ffyrdd arferol o weithio.

#5 Arddangos manteision chwaraeon

Mae tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

Astudiaeth achos

Clwb Jiwdo Neyland yn trosglwyddo hoffter o chwaraeon drwy'r cenedlaethau.

Mae jiwdo wedi bod yn rhan o fywyd Damon McGarvie ers i'w rieni sefydlu Clwb Jiwdo Neyland yn Sir Benfro 60 mlynedd yn ôl, ac mae wedi parhau i fynd â'r clwb o nerth i nerth. Er ei fod yn sefydliad cymunedol bach, mae Clwb Jiwdo Neyland wrth galon chwaraeon ar lawr gwlad ac yn dangos ei bwysigrwydd i'n bywydau bob dydd.

Yn anffodus, fel llawer o glybiau chwaraeon yng Nghymru, achosodd pandemig Covid rwystrau enfawr i Neyland, a bu'n rhaid i Damon ailadeiladu ei dîm.

Y peth mwyaf brys oedd yr angen am fwy o hyfforddwyr i ehangu'r clwb a diwallu anghenion y gymuned leol.

Cefnogodd Chwaraeon Cymru y clwb am y tro cyntaf yn 2023, wrth i ddau wirfoddolwr, Ceri Sullivan a'i phartner Barry Watson, gwblhau cymwysterau hyfforddi wedi'u cyllido gan y Loteri Genedlaethol drwy Gronfa Cymru Actif.

Mae mwy o wirfoddolwyr wedi parhau i ymuno â'r tîm ac, ym mis Tachwedd 2025, cafodd mwy o hyfforddwyr eu hyfforddi drwy ddyfarniad o £1,265 o Gronfa Cymru Actif.

Dywedodd yr hyfforddwr gwirfoddol, Ceri:

> "Clwb cymunedol bach ydyn ni ac mae cyllid wir, wir yn bwysig. Mae wedi bod yn frwydr ers Covid ond mae cefnogaeth gan Chwaraeon Cymru a'r Loteri Genedlaethol wedi golygu ein bod ni wedi gallu cynnal dosbarthiadau ychwanegol, a rhoi hyfforddwyr ar gyrsiau hyfforddi. Rydyn ni i gyd wedi bod mor ddiolchgar."

Mae Clwb Jiwdo Neyland yn helpu i feithrin hyder, hunan-barch a disgyblaeth, gwersi pwysig y tu hwnt i chwaraeon. Mae Damon a'i dîm yn parhau i hyfforddi disgyblion rhwng 4 a 60 oed, ac mae rhai hyd yn oed yn cystadlu mewn Pencampwriaethau Ewropeaidd.

Paratoi ar gyfer y Seithfed Senedd



Gan adeiladu ar ein gwaith i dynnu sylw at sut gall chwaraeon fod yn adnodd iechyd **ataliol** mwyaf effeithiol i'r genedl, fe wnaethom barhau i **gydweithredu** â'n partneriaid a'r sector chwaraeon ehangach i nodi pedair blaenoriaeth ar gyfer tymor nesaf Llywodraeth Cymru sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Y blaenoriaethau: sicrhau bod y gwariant y pen ar chwaraeon yn agosach at wariant gwledydd o faint tebyg; ymrwymiad i wariant iechyd **ataliol**; dull ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol drwy Actif Dyddiol; a Chanolfan Genedlaethol newydd ar gyfer chwaraeon yn cefnogi dyfodol cadarn a chynaliadwy i chwaraeon yng Nghymru.

Cryfhau perthnasoedd ar draws y Senedd a San Steffan

Fe wnaethom barhau i feithrin perthnasoedd gydag Aelodau'r Senedd a Senedd y DU. Yn dilyn digwyddiad arall yn San Steffan gyda dosbarthwyr eraill y Loteri, fe wnaethom gysylltu â'r ASau gydag astudiaethau achos o sut mae Cronfa Cymru Actif yn helpu clybiau yn eu hardaloedd a threfnu ymweliadau ar gyfer cynrychiolwyr etholedig a oedd yn awyddus i weld yr effaith drostynt eu hunain.

O ffyrdd **arloesol** o arbed arian ac ynni i'r cysylltiadau cymunedol cadarn y mae'r clybiau wedi'u datblygu, mae'r ymweliadau'n ffordd wych i aelodau'r ddwy Senedd weld manteision **tymor hir** chwaraeon yn eu cymunedau.

Arddangos manteision chwaraeon

Ym mis Ionawr 2026, cynhaliwyd digwyddiad Marchnad y Senedd gennym. Daeth â llawer o sefydliadau chwaraeon at ei gilydd er mwyn iddynt arddangos eu gwaith yn uniongyrchol i gynrychiolwyr etholedig a gallai'r sector chwaraeon ddangos dull **integredig** o weithio.

Helpodd y digwyddiad arweinwyr o bob plaid wleidyddol i siarad â phobl sy'n gweithio yn y byd chwaraeon. Dangosodd pam mae chwaraeon yn bwysig i Gymru a sut mae'n fuddiol i gymunedau mewn bywyd go iawn. Dangosodd yr adborth cadarnhaol a'r sgyrsiau parhaus ar ôl y digwyddiad ei fod yn llwyddiant. Helpodd bobl i ddeall yn well sut mae chwaraeon yn cefnogi nodau cenedlaethol nawr ac yn y dyfodol.

Ymgysylltu â phwyllgorau ac ymgynghoriadau

Eleni, fe wnaethom barhau i weithio gyda gwahanol Bwyllgorau'r Senedd. Fe wnaethom rannu tystiolaeth ar gyfer ymholiadau am ordewdra, yr iaith Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fe wnaethom weithio'n agos gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol a phartneriaid i sicrhau bod ein hymatebion yn cynrychioli'r sector cyfan. Rydym hefyd yn adolygu adroddiadau Pwyllgorau i weld ble mae ein tystiolaeth wedi gwneud gwahaniaeth. Mae hyn yn helpu i ddangos sut rydym yn helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau pwysig am chwaraeon yng Nghymru.

Sylw i

Partneriaeth Sefydliad Gweithgaredd Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru



Parhaodd WIPAHS i gryfhau ei rôl fel partner dibynadwy mewn gweithgarwch corfforol, iechyd a chwaraeon ledled Cymru yn ystod 2025. Ehangodd y sefydliad ei bartneriaethau, cynyddodd ei ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyflawnodd waith ymchwil a gwerthuso i gefnogi polisi ac ymarfer.

Un prosiect allweddol oedd gwerthuso'r Cynllun Hamdden Actif 60+, gan archwilio sut gall cyfleoedd gweithgarwch corfforol i oedolion hŷn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Cefnogodd y rhaglen 8,000 o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau gan gynnwys dawns a dringo. Dangosodd y canfyddiadau effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol, lles meddyliol, a chysylltiad cymdeithasol, gan hefyd nodi rhwystrau fel trafnidiaeth ac ymgysylltu â chymunedau difreintiedig.

Gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cwblhaodd WIPAHS werthusiadau o'r rhaglen Parth Actif i Deuluoedd a gwaith sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion.

Tynnodd y canfyddiadau sylw at lefelau uchel o foddhad ac effeithiau cadarnhaol ar hyder, sgiliau symud a rhyngweithio cymdeithasol plant.

Cynyddodd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y flwyddyn drwy gyfraniadau at gynadleddau, hyfforddiant, trafodaethau polisi, a gweithdai'n canolbwyntio ar werthuso, cydgynhyrchu, a datblygu ymarferyddion. Hefyd, cefnogodd partneriaethau cymunedol brosiectau lleol a chyfleoedd rhannu gwybodaeth.

Cryfhaodd WIPAHS ei allu ymchwil hefyd, lansiodd lwybr cyswllt prosiect newydd, a sefydlodd y Rhwydwaith Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Merched. Aeth sawl prosiect ymchwil ôl-raddedig ymlaen, gan ganolbwyntio ar weithgarwch corfforol ac iechyd pobl ifanc.

Yn gyffredinol, roedd 2025 yn flwyddyn o dwf, **cydweithredu**, ac effaith gynyddol ledled Cymru.

Dadansoddiad

Eleni, fe wnaethom barhau i esbonio a hyrwyddo manteision chwaraeon yn ein hymgysylltu ag Aelodau'r Senedd, gan gynnwys wrth i wahanol bleidiau bennu blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Fe wnaethom ganolbwyntio ein heiriolaeth polisi ar bedair blaenoriaeth: cyllid ar gyfer chwaraeon, gwariant ar iechyd ataliol, y cynnig Actif Dyddiol, a buddsoddiad cyfalaf mewn Canolfan Chwaraeon Genedlaethol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae cynnwys y blaenoriaethau hyn mewn sawl maniffesto plaid ar gyfer etholiad 2026 yn awgrymu bod ein negeseuon wedi bod yn effeithiol, a bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweld fel rhai sy'n cefnogi Cymru iachach drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae rôl chwaraeon wrth gefnogi iechyd meddwl yn cael ei hadlewyrchu yng nghyfranogiad Chwaraeon Cymru ym mhartneriaeth Hapus. Dyma bartneriaeth iechyd meddwl strategol Cymru, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ac mae ganddi dair ffrwd waith bellach. Mae Chwaraeon Cymru yn cyfrannu drwy'r ffrwd waith polisi, gan gynnwys ein gwaith ymarferol ar iechyd meddwl perthynol.

Fel rhan o hyn, fe wnaethom gynnal cyfarfod Rhwydwaith Partneriaeth Strategol a defnyddio profiad ymarferol Bocsio Cymru.

Mae ein gwaith partneriaeth wedi cael ei gydnabod hefyd gan bartneriaid allweddol eraill. Er enghraifft, mae cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2025-2027 yn tynnu sylw at werth Partneriaethau Chwaraeon am y tro cyntaf, gan ddatgan:

> 'Bydd partneriaethau chwaraeon yn newid y gêm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.'

Fe wnaethon hefyd gasglu a dathlu esiamplau o arfer da ar draws y sector drwy brosiect i nodi astudiaethau achos yn dangos effaith cyllid y Loteri Genedlaethol. Fe wnaethom nodi beth sy'n gwneud astudiaeth achos gref, annog syniadau, a meithrin hyder i rannu gwaith da. Arweiniodd hyn at fwy na 50 o astudiaethau achos y mae posib eu defnyddio ar draws cyfathrebu mewnol ac allanol, gan gynnwys gan y Loteri Genedlaethol. Cafodd un astudiaeth achos sglefrio iâ ei dewis gan y Loteri Genedlaethol a rhoddwyd sylw iddi ledled Cymru a'r DU yn ystod cyfnod Gemau Olympaidd y Gaeaf.

Ar ôl adolygu ein datganiadau o fwriad strategol a'n nodau llesiant, fe wnaethom gynhyrchu fideo newydd i adnewyddu'r negeseuon allweddol o Weledigaeth a Strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r ffilm yn tynnu sylw at fanteision chwaraeon, yn cynnwys amrywiaeth o astudiaethau achos, ac yn adlewyrchu'r newidiadau ers lansio'r Weledigaeth.

Mae pob rhan o Lywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio ein negeseuon. Er enghraifft, mae Cynllun Gweithredu Balch o'r Mislif yn cydnabod pwysigrwydd rôl Chwaraeon Cymru wrth gefnogi merched ar eu mislif i aros yn rhan o chwaraeon.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach

Mae angen i ni gryfhau eiriolaeth a rennir ar draws y sector, fel bod negeseuon cytûn yn cael eu cyfathrebu'n gyson gan lawer o bartneriaid.

#6 Sefydliad o werth mawr

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch, sy'n ymdrechu i orgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf drwy ein staff gwerthfawr.

Astudiaeth achos

Hoci Cymru: Defnyddio'r Arolwg Chwaraeon Ysgol

Mae eleni'n nodi dechrau cylch Arolwg Chwaraeon Ysgol newydd, adolygiad ystadegol arwyddocaol o gyfraddau a diddordebau chwaraeon a gweithgarwch corfforol plant ysgol.

Roedd gwybodaeth Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 yn tynnu sylw at y ffaith y byddai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon pe bai cyfleoedd a fyddai'n fwy addas iddynt. Defnyddiodd Hoci Cymru y wybodaeth hon i gymryd camau gweithredu wedi'u targedu ledled Gorllewin Cymru.

Gan ddechrau drwy fynychu digwyddiadau Chwaraeon Anabledd Cymru, mae Hoci Cymru wedi meithrin cysylltiadau cryf â saith ysgol ADY yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro ers hynny ac wedi cyflwyno fersiynau wedi'u haddasu o hoci i'r ysgolion hyn. Maent hefyd wedi cynnal amrywiaeth o sesiynau ar draws yr ardaloedd ac wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r cyfleoedd hyn.

Mae gwaith Hoci Cymru wedi gweld tri chlwb hoci cynhwysol yn cael eu sefydlu yng Nghwmtawe, Tre-gŵyr ac Abergwaun. Yn bwysig, bu ymgyrch am hoci hygyrch ledled Cymru. Dywedodd y Swyddog Datblygu Hoci, Chelsea Jenkins, "Rydw i'n falch bod y teulu hoci wedi dod at ei gilydd i gefnogi cyfleoedd cynhwysol i blant ysgol. Mae posib gwneud hoci'n gynhwysol gyda'r gêm yn dal i edrych ac yn teimlo'r un fath. Mae'n dangos beth gall defnyddio data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol a gweithio gyda phartneriaid ei wneud."

Mae Clwb Hoci Castellnewydd Emlyn wedi cael grant o £3,731 o Gronfa Cymru Actif ar gyfer offer a chymwysterau hyfforddi. Mae gan y clwb dimau hoci ar gyfer pob grŵp oedran, gan gynnwys tîm Hoci Mini ar gyfer plant dan 8 oed i blant dan 10 oed. Mae Hoci Mini yn ffordd gynhwysol o gyflwyno plant i hoci drwy sesiynau hwyliog, strwythuredig. Maent yn croesawu chwaraewyr gydag anghenion dysgu ychwanegol ac yn darparu profiad cadarnhaol cynnar sy'n annog cyfranogiad **tymor hir** a mwynhad o chwaraeon.

Mae gan Hoci Cymru gynlluniau i ehangu'r gwaith hwn i Ogledd a Dwyrain Cymru eleni, ac maent yn edrych ar gyfleoedd i glybiau hoci cynhwysol mewn ysgolion gystadlu yn erbyn ei gilydd.

Rhaglen gwydnwch sector

Fframwaith y rhaglen gwydnwch sector

Gweledigaeth lawn: "Creu system chwaraeon wydn a chynaliadwy yng Nghymru; wedi'i huno o ran pwrpas, wedi'i phweru gan bobl fedrus, a gydag adnoddau i gyflawni effaith barhaol drwy **gydweithredu**, arloesi a defnyddio adnoddau'n effeithiol."

Gweledigaeth rhaglen ganolraddol: "Sefydlu rhaglen strwythuredig sy'n galluogi sector chwaraeon Cymru i archwilio, profi a dysgu o ddulliau newydd - gan adeiladu'r wybodaeth a'r sylfeini sydd eu hangen ar gyfer gwydnwch yn y **tymor hir**."

Canlyniadau

Hyder a Gallu'r Gweithlu	Cynaliadwyedd Ariannol	**Cydweithredu Strategol**	Effeithlonrwydd Gweithredol

Ffrydiau Gwaith

Diwylliant ac Ymgysylltu	Craffter Masnachol	Rôl Chwaraeon Cymru	Adnoddau a Gwybodaeth a Rennir	Uchelgeisiau Digidol

Cynlluniau Peilot / Prototeipiau Posibl

Cydweithredu Mapio Aeddfedrwydd	Swyddi a Rennir	Prosiect Noddi Orchard	Cofrestr Asedau'r Sector / Gwerthusiad Hawliau	Asesiad Parodrwydd Masnachol	Cynllun Ymgysylltu â'r Sector
Digwyddiadau Cyfun	Prosiect Effeithlonrwydd CMC	Adrodd ar Ddirnadaeth Ddigidol	Peilot Crynhoi Data	Map Seilwaith Digidol	

— Cynlluniau peilot a flaenoriaethwyd gan SRAG i ddechrau yn 2026

— Cynlluniau peilot a lansiwyd yn 2025

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhaglen Gwydnwch Sector wedi tyfu o ymchwil cynnar i gynllun clir sy'n canolbwyntio ar weithredu. Drwy gynnwys partneriaid o fewn y sector chwaraeon, tynnwyd sylw at yr heriau cymhleth y mae chwaraeon yng Nghymru yn eu hwynebu ac felly fe wnaethom ddechrau **cydweithredu** ar ddull ymarferol o weithredu yn hytrach nag un ateb cyffredinol.

Creu cyfres o brosiectau peilot tymor byr, a oedd yn galluogi i ni brofi syniadau a chasglu tystiolaeth real am yr hyn sy'n gweithio. Helpodd grŵp o arweinwyr o bob rhan o'r byd chwaraeon yng Nghymru i benderfynu ar y blaenoriaethau.

Bydd y chwe phrosiect peilot canlynol yn dechrau yn ystod y cyfnod nesaf:

- Gwirio pa mor dda mae sefydliadau'n cydweithio
- Deall pa systemau digidol sydd gan y sector eisoes
- Gweld pa mor barod yw sefydliadau i ddod ag incwm i mewn
- Archwilio sut gellir dod â data o wahanol leoedd at ei gilydd
- Profi ffyrdd o redeg digwyddiadau a rennir neu ar y cyd
- Edrych ar ba adnoddau, hawliau a chyfleoedd y mae'r sector yn berchen arnynt

Bydd pob cynllun peilot yn rhoi tystiolaeth ddefnyddiol i ni ac yn helpu sefydliadau i feithrin sgiliau. Byddant hefyd yn dangos lle gall gweithio gyda'n gilydd arbed amser ac arian. Bydd y canlyniadau'n sail i fuddsoddiad yn y dyfodol ac yn helpu i wneud chwaraeon yng Nghymru yn gryfach yn y **tymor hir** ac yn fwy diogel yn ariannol.

Sylw i

Adolygiad recriwtio cynhwysol

Yn 2025–26, fe wnaethom gymryd cam arall ymlaen wrth ddatblygu recriwtio tecach a mwy cynhwysol. Buom yn gweithio gyda Page Consulting a adolygodd bob cam o'r broses gyflogi — o sut mae disgrifiadau swyddi'n cael eu hysgrifennu i gyfweliadau a chroesawu. Bu Page Consulting yn edrych ar ddogfennau, yn siarad â staff ac yn gwylio prosesau ar waith, a chasglu adborth gan ymgeiswyr i ddeall beth oedd yn gweithio'n dda a beth oedd angen ei wella.

Ar sail yr adborth hwn, gwnaethon hysbysebion swyddi yn symlach, ychwanegu gwybodaeth gliriach am ddatblygiad, a gwella hygyrchedd ar ein gwefan gyrfaoedd. Mae'r rheolwyr cyflogi'n cael eu henwi bellach fel y prif gyswllt ar gyfer pob swydd. Fe wnaethant wella'r system recriwtio hefyd i gael gwared ar rwystrau a gwneud data cydraddoldeb yn haws eu casglu.

Mae'r cyfweliadau'n fwy cynhwysol bellach. Mae system sgorio gliriach, canllawiau gwell ar sut i roi adborth, ac mae rhai ymgeiswyr yn derbyn cwestiynau cyn eu cyfweliad. Hefyd mae staff sy'n dechrau o'r newydd yn cael gwell cefnogaeth, gan gynnwys system gyfaill a chamau croesawu cliriach.

Lansiwyd system recriwtio newydd ym mis Ionawr 2026 i wneud popeth yn symlach ac yn fwy cyfredol.

Dangosodd yr adolygiad hefyd feysydd i barhau i'w gwella, fel llwybrau gyrfa cliriach a helpu rheolwyr i feithrin sgiliau arweinyddiaeth cynhwysol. Yn gyffredinol, mae gan Chwaraeon Cymru system recriwtio decach a chryfach bellach ac mae wedi ymrwymo i'w gwella fwy fyth.

Hyfforddiant gwrth hiliaeth

Cynhaliwyd Hyfforddiant Gwrth Hiliaeth i staff a oedd yn **cynnwys** pob tîm yn Chwaraeon Cymru fel rhan o'n hymrwymiad i ddiwylliant cynhwysol a chefnogi amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth Hiliol Llywodraeth Cymru. Cymerodd y rhan fwyaf o'r cyflogeion ran, ac arweiniwyd yr hyfforddiant gan dîm cymwys Chwaraeon Cymru ei hun.

Helpodd yr hyfforddiant staff i ddeall mwy am wrth hiliaeth a theimlo'n fwy hyderus yn siarad am hil, sylwi ar ragfarn, a chymryd camau cadarnhaol. Dywedodd y staff eu bod yn gwerthfawrogi cael lle diogel i siarad yn agored ac ymarfer sefyllfaoedd bywyd go iawn ac fe wnaethant ganmol yr hyfforddwyr am fod yn gefnogol ac yn ddidwyll.

Roedd yr adborth yn cynnwys newid hyd y sesiwn, ychwanegu mwy o weithgareddau rhyngweithiol a gwella cyfathrebu fel bod mwy fyth o bobl yn cymryd rhan. Dywedodd yr hyfforddwyr hefyd y byddai'n help rhoi negeseuon allweddol cliriach i fynd gyda nhw i bobl, i ddal ati i feithrin sgiliau mewnol.

Y ffocws nesaf yw cynnal y cynnydd ac adeiladu ar gyfer y **tymor hir.** Mae hyn yn cynnwys gwneud gwrth hiliaeth yn rhan o waith bob dydd, cynnig dysgu personol i staff, gwneud adnoddau'n haws eu canfod a defnyddio adnoddau a rennir ar draws y sector. Bydd y syniadau hyn yn arwain cynlluniau'r dyfodol drwy'r grŵp Diwylliant Sefydliad Cynhwysol mewnol.

Datblygu ein ffenest siop ar-lein

Dechreuodd y gwaith tuag at lansio gwefan newydd Chwaraeon Cymru ym mis Ebrill 2026 drwy adolygu'r wefan a'r ymchwil presennol, gan ein helpu ni i ddeall yn well beth mae ymwelwyr yn chwilio amdano. Roedd y wefan wedi'i chynllunio i fod:

- Yn hawdd ei darllen a hawdd ei llywio, gyda chynnwys clir a syml.
- Mae gan bob tudalen bwrpas clir.
- Yn fwy hygyrch, gan fodloni dyletswyddau cyhoeddus a safonau'r Gymraeg.
- Bydd y cynnwys yn defnyddio iaith glir, brawddegau byr a dim jargon.
- Yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i'w chadw'n fanwl gywir ac yn gyfredol.

Adolygwyd cynnwys o'r hen wefan mewn **cydweithrediad** gan gydweithwyr ar draws y sefydliad, gan benderfynu gyda'i gilydd beth i'w gadw, ei wella, neu ei ddileu.

Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno Egwyddorion Llywodraethu'r We i helpu i gadw'r wefan o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn sicrhau bod gan bob tudalen berchennog a'i bod yn cael ei chadw'n gyfredol ar gyfer y **tymor hir.**

Yn **arloesol** i Chwaraeon Cymru, gweithiodd y dylunwyr cynnwys Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd i wella'r cynnwys. Mae'r cynnwys Cymraeg wedi'i greu'n ofalus, nid dim ond ei gyfieithu.

Mae'r wefan newydd yn ffynhonnell agored, gan roi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i'r tîm. Mae aelodau'r tîm wedi meithrin sgiliau digidol newydd hefyd, gan gynnwys codio a dylunio profiad defnyddiwr.

Arwain Cymru: Fframwaith llywodraethu a datblygu pobl

Mae Arwain Cymru yn fframwaith newydd i gefnogi llywodraethu ar draws y sector gan adeiladu ar y fframwaith blaenorol ond gweithredu'n fwy ymarferol. Mae'n arloesi oddi wrth ddull bocsys ticio ac yn annog partneriaid i'w ddefnyddio fel adnodd ar gyfer datblygiad parhaus. Mae'n rhoi ffocws cadarn ar ymddygiad, diwylliant a phobl.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bum maes allweddol:

- Cydymffurfiaeth gyfreithiol a sefydliadol.
- Pobl a diwylliant.
- Dirnadaeth, ymgysylltu a strategaeth.
- Rhedeg sefydliad effeithiol.
- Cyllid.

Mae pob maes yn cynnwys canllawiau clir ac enghreifftiau o arfer da. Mae hyn yn helpu partneriaid i ddeall beth sy'n ddisgwyliedig a sut gallant wella, beth bynnag yw eu maint neu lefel o gyllid.

Mae'r adborth cynnar gan bartneriaid wedi bod yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ran pa mor glir a defnyddiol yw'r fframwaith.

Byddwn yn parhau i gefnogi partneriaid wrth iddynt ddefnyddio Arwain Cymru. Bydd hyn yn cynnwys darparu adnoddau, canllawiau, templedi a chymorth wedi'i deilwra.



Haf hyfryd o chwaraeon merched

Roedd haf 2025 yn foment bwysig i chwaraeon merched, gyda sawl digwyddiad mawr yn arddangos athletwyr benywaidd gorau Cymru, o Bencampwriaeth Agored y Merched a gynhaliwyd ym Mhorthcawl i'r twrnamaint mawr cyntaf i dîm Pêl Droed Merched Cymru ym mhencampwriaethau Ewro 2025.

I gefnogi hyn, fe wnaethom ganolbwyntio ein cyfathrebu ar ferched a genethod. Drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan, fe wnaethom rannu straeon, fideos ac enghreifftiau o fodelau rôl ysbrydoledig ar draws y chwaraeon yng Nghymru.

Roedd y cynnwys hefyd yn tynnu sylw at sut mae partneriaid yn gweithio i leihau anghydraddoldebau a chreu mwy o gyfleoedd i ferched a genethod.

Rhannodd arfer da, gan gynnwys enghreifftiau o arloesedd, **cydweithredu** a gwaith a fydd yn cael effaith **dymor hir.** Dangosodd y straeon hyn sut mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gwella bywydau merched a genethod ledled Cymru.

Anogwyd partneriaid, clybiau a grwpiau cymunedol i rannu eu gwaith eu hunain. Defnyddiwyd yr hashnod #HiActifCymru i ddod â'r cynnwys hwn at ei gilydd a chynyddu ei gyrhaeddiad.

Dadansoddiad

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru oedd un o'r cyfleusterau cyntaf yng Nghymru i gyflawni'r Safon Actif ym mis Ionawr 2026, dim ond ychydig fisoedd ar ôl i ukactive lansio'r nod ansawdd newydd hwn.

Mae'r Safon Actif yn gosod meincnodau ar gyfer ansawdd gweithredol, cydymffurfiaeth a rheoli risg ar draws sector gweithgarwch corfforol y DU.

Rhoddodd gwasanaeth siopwr dirgel Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru sgôr gyfartalog o 92% ar draws chwe ymweliad yn ystod 2025-26 (yn amrywio o 88% i 95%). Mae hwn yn gynnydd ar y sgôr gyfartalog, o ddau bwynt canran, o gymharu â 2024-25 (90%), ac ar ôl hynny gwelwyd cynllun gwella'n cefnogi'r gwaith o adnewyddu ystafelloedd y llety.

Lansiodd y Ganolfan Genedlaethol system archebu ar-lein ddwyieithog newydd hefyd. Chwaraeon Cymru yw'r gweithredwr cyntaf i gynnig system archebu ac aelodaeth Gladstone (system meddalwedd cwsmeriaid flaenllaw ar gyfer y sector hamdden) yn y Gymraeg.

Mae cwsmeriaid bellach yn ffafrio'r cyfleustra o archebu ar-lein yn hytrach nag ar y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae mwy na 75% o aelodau newydd yn ymuno ar-lein bellach, ac mae 90% o archebion yr aelodau ar gyfer dosbarthiadau a chwaraeon raced yn cael eu gwneud ar-lein. Mae hyn wedi lleihau'r ciwiau yn y dderbynfa ac wedi rhyddhau amser staff.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau â'i ymrwymiad i wella caffael, gan adeiladu ar y Strategaeth Gaffael newydd a ddatblygwyd yn 2024-25.

Gyda chefnogaeth secondiad tymor byr arbenigwr, fe wnaethom gynhyrchu polisi caffael cymdeithasol gyfrifol newydd, gweithdrefnau a thempledi cynhwysfawr a chyflwyno hyfforddiant staff ym mis Ionawr 2026.

Roedd presenoldeb da yn yr hyfforddiant ac mae wedi'i gofnodi i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r adborth ar y dogfennau newydd wedi bod yn gadarnhaol ac maent yn cael eu defnyddio'n ymarferol.

Ystyriwyd y secondiad hefyd fel model ar gyfer rhannu arbenigedd ar draws cyrff cyhoeddus.

Mae Tîm Arlwyo Chwaraeon Cymru wedi rhoi'r prosesau caffael newydd ar waith drwy benodi cyflenwyr sydd ag effaith gymdeithasol gref. Er enghraifft, mae Change Please, menter gymdeithasol sy'n helpu pobl sy'n profi digartrefedd drwy eu hyfforddi fel baristas a thalu Cyflog Byw iddynt, yn darparu peiriant coffi ar gyfer Hwb. Rydym hefyd wedi penodi cyflenwr coffi newydd sydd wedi'i leoli yng Nghymru, a ddylai leihau'r milltiroedd bwyd.

Mae gan y cyflenwr egwyddorion cynaliadwyedd cadarn, mae wedi'i ardystio gan B-Corp, mae'n talu cynhyrchwyr coffi yn deg, ac yn talu'r Cyflog Byw Real i staff.

Cafodd dau aelod o dîm Athrofa Chwaraeon Cymru eu cydnabod gan eu cyfoedion am eu cyflawniadau. Dyfarnwyd y wobr 'Arloeswr Gorau' i Carys Jones, Dadansoddydd Perfformiad, gan Teamworks (y cwmni datblygu meddalwedd) yn eu Huwchgynhadledd Partneriaid yn 2025.



Fe wnaeth Esther Goldsmith, Ffisiolegydd, gyflwyniad yn y Gynhadledd Merched mewn Chwaraeon yn Brisbane, Awstralia, ar werthuso effaith addysg am gylch y mislif mewn chwaraeon tîm merched.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi barn flynyddol gadarnhaol, gan gynnal y duedd hon ers 2015-16.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae angen i ni ddeall sut mae Chwaraeon Cymru yn cael ei werthfawrogi fel sefydliad, sut rydym yn asesu hyn, a pha sefydliadau sy'n darparu'r cymariaethau mwyaf ystyrlon.

Dylem hefyd ddeall a yw canfyddiadau'r staff yn cyd-fynd â chanfyddiadau allanol i'n perfformiad.

Amcanion cydraddoldeb



Datblygodd a chyhoeddodd Chwaraeon Cymru ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028 ym mis Mawrth 2024, gan ddatgan sut byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn dileu gwahaniaethu ac yn meithrin cysylltiadau da drwy ein rôl fel y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Adnewyddodd y cynllun ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu y byddwn yn eu rhoi ar waith dros y cyfnod 2024–2028 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer y cynnydd a adroddir yn yr adran hon.

2.1 Ymgorffori gwerthoedd cydraddoldeb yn niwylliant sefydliadol Chwaraeon Cymru

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da mewn meysydd fel ein cyfleusterau, cyfleoedd hyfforddi, iechyd y mislif a recriwtio cynhwysol.

Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud i ymgorffori gwrth-hiliaeth ar draws Chwaraeon Cymru ac i weithredu Asesiad Effaith **Integredig** newydd sy'n gliriach ac yn haws ei ddefnyddio.

Mae ein Harolwg Diwylliant (Hydref 2024) yn dangos cryfderau ym mhrofiad pobl o weithio yn Chwaraeon Cymru. Yn gyffredinol, adroddodd cyflogeion am gyfeiriad clir, ymdeimlad cadarn o berthyn, diogelwch seicolegol a lles da. Mae gennym gynllun gweithredu ar waith i'n helpu i wella ymhellach, gan gynnwys **cydweithredu** a chysylltiad cadarnach ar draws y sefydliad. Trafodir y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu bob chwarter gan Dîm Arweinyddiaeth Chwaraeon Cymru.

Mae adborth o'r adolygiad eleni'n awgrymu, ochr yn ochr â'r gwelliannau recriwtio ehangach (fel sut rydym yn hyrwyddo swyddi gwag ac yn cynnal prosesau dewis), bod y porthol recriwtio bellach yn gliriach ac yn haws ei ddefnyddio.

Dangosyddion cadarnhaol o gynnydd:

Nid oes unrhyw achosion o wahaniaethu gan staff wedi cael eu hadrodd yn 2024–25 a 2025–26.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cael adborth cadarnhaol iawn ar y dull perthynol o ymdrin ag iechyd meddwl, sy'n uchel ei barch ymhlith partneriaid.

Rydym wedi diwygio ein rhaglen hyfforddiant cynhwysiant ar gyfer staff i'w gwneud yn haws ei mynychu. Rydym wedi symud oddi wrth sesiynau amser cinio (a all fod yn anodd i gydweithwyr ar batrymau shifft) a bellach rydym yn cynnig pob pwnc ar ddau amser gwahanol.

Mae adborth y staff yn awgrymu bod y ddarpariaeth o hyfforddiant wedi'i ddiweddaru wedi helpu i gynnal ffocws clir ar ddiwylliant.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae angen i ni ystyried sut dylai'r dull perthynol o ymdrin ag iechyd meddwl esblygu ar ôl i ymwybyddiaeth gael ei sefydlu.

Mae angen i ni nodi unrhyw fylchau mewn hyfforddiant a chefnogaeth ar ôl canolbwyntio ar nifer llai o bynciau yn fanwl.

Dywedodd rhai staff wrthym y gall sesiynau amser cinio fod yn anodd, yn enwedig i bobl sy'n defnyddio'r amser hwnnw i gefnogi eu lles.

Dewis arall a awgrymwyd oedd trefnu sesiynau yn y bore (10:00–12:00) neu'r prynhawn (14:00–16:00).

2.2 Dileu bylchau cyflog

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni camau gweithredu i fonitro bylchau cyflog (gan gynnwys bylchau cyflog rhwng rhywedd) ac o ran parhau i dalu'r Cyflog Byw Real. Oherwydd bod trosiant isel mewn uwch swyddi, bu cyfleoedd cyfyngedig i gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr a'r penodiadau ar y lefel honno. Mae'r sefydliad hefyd yn fach, sy'n golygu bod y data sydd ar gael yn gallu bod yn gyfyngedig a gall tueddiadau fod yn anodd eu dehongli.

Er mwyn gwneud cynnydd pellach, mae angen i ni gryfhau'r gwaith o gynllunio olyniaeth a rheoli talent, gan gynnwys sut rydym yn cefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau yn y gweithle i wneud cynnydd.

Dangosyddion cadarnhaol o gynnydd:

Cyflwynodd Chwaraeon Cymru y cynnydd blynyddol yn y Cyflog Byw Real yn gynharach (1 Chwefror 2026), yn hytrach na defnyddio'r dyddiad gweithredu ffurfiol o Fai 2026 a bennwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw Real.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gynnig opsiynau gweithio hyblyg, a ddefnyddir gan nifer sylweddol o staff.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi defnyddio cynlluniau graddedigion i geisio cyfrannu at fwy o amrywiaeth yn y gweithlu.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

I fynd ymhellach, mae angen i ni esbonio'r wybodaeth am y bwlch cyflog yn gliriach a'i gymharu â sefydliadau tebyg. Mae hyn yn cynnwys deall gwahaniaethau yng Nghymru a ledled y DU a nodi ble mae'r bylchau mwyaf (er enghraifft, yn ôl graddfa cyflog, ac yn ôl nodweddion fel ethnigrwydd, anabledd a rhywedd). Hefyd mae angen i ni fod yn glir ynghylch beth sy'n sbarduno unrhyw newidiadau dros amser a pha gamau y gallwn eu cymryd.

Rydym hefyd eisiau ystyried a allai mesurau nad ydynt yn **ymwneud** â chyflog gefnogi lles ymhellach, er enghraifft mentrau sy'n seiliedig ar amser fel awr lles wythnosol, a sut gallai'r rhain weithio'n ymarferol.

2.3 Ymgorffori caffael cymdeithasol gyfrifol yn Chwaraeon Cymru

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'r nod hwn. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i ymgorffori'r dull newydd, cynnal momentwm a mesur effaith dros amser.

Adolygwyd a diweddarwyd canllawiau a phrosesau caffael Chwaraeon Cymru, cawsant eu profi ac wedyn eu cyflwyno i staff. Nod y dull wedi'i ddiweddaru yw symleiddio'r caffael, cefnogi busnesau bach a chanolig (BBaCh) i weithio gyda Chwaraeon Cymru, a chymhwyso caffael cymdeithasol gyfrifol yn fwy cyson. Mae'r hyfforddiant wedi cael croeso da, ond mae angen i ni wneud mwy i helpu staff i gymhwyso meini prawf cymdeithasol gyfrifol yn hyderus yn ymarferol.

Dangosyddion cadarnhaol o gynnydd:

Defnyddiwyd secondiad tymor byr i ddod ag arbenigedd ar gaffael i mewn i helpu i gwblhau'r strategaeth a'r polisi caffael ac i hyfforddi ein staff.

Cynhyrchwyd canllaw cyflym i'r ddogfen bolisi ar gyfer staff er mwyn iddynt allu cyfeirio ato'n hawdd.

Cyflwynwyd templedi newydd ar gyfer prosesau caffael, gan gynnwys templedi ymateb. Cynhaliwyd profion defnyddwyr i wella'r templedi hyn.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae angen i ni sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys gweithwyr newydd, yn deall y dull caffael wedi'i ddiweddaru a ble i ddod o hyd i gefnogaeth pan fydd arnynt ei hangen.

2.4 Meithrin diwylliant o welliant parhaus yn Chwaraeon Cymru a gyda sefydliadau partner

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r camau gweithredu allweddol o dan yr amcan hwn. Mewn rhai meysydd, mae mesur effaith yn anodd oherwydd bod newid yn digwydd dros amserlenni hirach ac ar draws llawer o sefydliadau, felly efallai y bydd arnom angen cylchoedd tymor hwy i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau.

Dangosyddion cadarnhaol o gynnydd:

Mae hyfforddiant Meddwl am Systemau yn ffocws cyfredol yng nghynllun hyfforddi a chyllideb y sefydliad. Dylai hyn helpu timau i ddeall cymhlethdod a sut gall penderfyniadau gael gwahanol effeithiau.

Mae'r fframwaith Symud at Gynhwysiant (M2i) wedi dechrau ei drydydd grŵp o bartneriaid, gan ddod â'r cyfanswm sy'n cymryd rhan i 27. Mae'r ymgysylltu gan bartneriaid wedi cynyddu'n gyson, ac mae tri phartner wedi dewis dychwelyd ar gyfer grŵp 3. Mae'r elfen fentora'n dod i'r amlwg fel gwahaniaeth allweddol, gyda'r adborth yn tynnu sylw at sut mae'n cefnogi dysgu a defnydd ymarferol mewn sefydliadau. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen yn dangos dyhead mawr ymhlith partneriaid i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CACh) ar sail wirfoddol.

Mae cyfres ddysgu M2i wedi denu sefydliadau chwaraeon i weminarau misol. Mae'r gyfres yn canolbwyntio ar feysydd i'w gwella a nodwyd drwy'r ddiagnosteg M2i ar draws ei phum piler. Mae'r sesiynau'n cael eu recordio a'u cefnogi gan ganllawiau ymarferol fel bod sefydliadau'n gallu edrych ar y dysgu eto a'i ddefnyddio. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Fframwaith llywodraethu a datblygu pobl Chwaraeon Cymru ar gyfer partneriaid sy'n cael eu cyllido yw Arwain Cymru. Cafodd ei ddiweddaru yn 2025–26 yn dilyn adolygiad helaeth gyda phartneriaid. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CACh) yn parhau i fod yn ffocws cadarn, ac ychwanegwyd yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd fel themâu craidd o fewn y fframwaith.

Mae Dysgu Carlam ar gyfer y sector yn adeiladu ar sesiynau sydd wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus i staff Chwaraeon Cymru ers sawl blwyddyn. Mae'r sesiynau'n cynnwys cyflwyniadau dysgu byr, hygyrch gyda'r cyfle i ofyn cwestiynau. Mae dysgu o adlewyrchu partneriaid a gasglwyd drwy'r broses gyllido ac atebolrwydd yn darparu deunydd posibl. Mae'r sesiynau wedi cael croeso da ac mae'r partneriaid wedi mynychu'r sesiynau'n dda.

Pethau y mae angen i ni eu hystyried a ble mae angen i ni fynd ymhellach:

Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r gofynion ar bartneriaid, oherwydd gall gwahanol rannau o Chwaraeon Cymru fod yn ymgysylltu â phartneriaid ar wahanol brosiectau ar yr un pryd.

Mae angen i ni ddeall a yw staff yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i ddysgu a datblygu, a sut mae gweithgarwch dysgu'n effeithio ar bwysau gwaith. Os yw staff yn rhy brysur i ddysgu mewn ffordd sy'n addas iddynt hwy, mae angen i ni ystyried beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi diwylliant sy'n cael ei arwain gan ddysgu.

Mae sesiynau Dysgu Carlam y sector yn darparu dysgu gwerthfawr i staff Chwaraeon Cymru hefyd.

Adrodd ar safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau Cymraeg cyfreithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Daeth y safonau hyn i gymryd lle trefniadau Deddf y Gymraeg 1993. Mae Chwaraeon Cymru wedi gorfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ers 25 Ionawr 2017.

Mae'r adroddiad hwn yn egluro beth wnaethom yn 2025–26 i gyflawni ein dyletswyddau Cymraeg ac i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy chwaraeon. Mae'n crynhoi gwaith allweddol gyda phartneriaid ac yn darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth, cwynion, a'n cynlluniau i ddal ati i wella.


Uchafbwyntiau allweddol (2025–26)

- Cafodd y ddarpariaeth Gymraeg ar draws ein sianeli digidol ei gwella, gan gynnwys cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân ar rai platfformau.
- Dyluniwyd cynnwys Cymraeg a Saesneg ar gyfer ein gwefan newydd ochr yn ochr, gan ddefnyddio egwyddorion Cymraeg Clir ar gyfer Cymraeg hygyrch.
- Lansiwyd system archebu ac aelodaeth ar-lein gwbl ddwyieithog yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru (Gorffennaf 2025) a fersiwn ap (Mawrth 2026).
- Parhawyd i fuddsoddi gyda'r Urdd mewn ehangu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y Gymraeg i blant, pobl ifanc a chymunedau.
- Cwblhawyd holiadur cydymffurfiaeth Comisiynydd y Gymraeg, gan hunanasesu'r 156 o safonau sy'n berthnasol i Chwaraeon Cymru.

Yr Urdd:

Un elfen allweddol o'n hymrwymiad i'r iaith Gymraeg yw ein partneriaeth gyda'r Urdd, a'n buddsoddiad ynddo. Drwy ei raglenni, mae'r Urdd yn darparu cyfleoedd yn y Gymraeg mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Isod mae crynodeb byr o'r gweithgarwch a gefnogwyd yn 2025–26.

- Gŵyl Rygbi AAA Chwe Gwlad yr Urdd (Parc Eirias, Bae Colwyn): cymerodd mwy na 100 o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu neu gorfforol ran; cwblhaodd 20 o fyfyrwyr Coleg Llandrillo gymhwyster rygbi i wirfoddoli.
- Cynhadledd FelMerch: digwyddiad cenedlaethol i tua 250 o ferched (18+) i rannu syniadau a thrafod rhwystrau i gyfranogiad, chwaraeon annhraddodiadol, anafiadau a bwyta'n iach.
- Hwb Cymunedol FelMerch (Gogledd Cymru): sesiynau cerdded a thripiau wedi'u cynllunio gyda merched oedd ddim eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon traddodiadol; mae tua 200 o ferched wedi cymryd rhan hyd yma.



- Partneriaeth Tennis Bwrdd Cymru: cyfleoedd cymunedol newydd mewn ardaloedd gwledig, gan ddechrau yng Ngheredigion a chynllunio i ehangu i Sir Benfro a Gogledd Orllewin Cymru.
- Rygbi 7 bob ochr Cenedlaethol yr Urdd: gŵyl rygbi 7 bob ochr ar Gaeau Pontcanna, Caerdydd, gyda mwy na 600 o dimau a thua 8,000 o chwaraewyr.
- Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol (Caerdydd): partneriaeth â Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin yn cynnig wyth o sesiynau cymunedol wythnosol i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu a chorfforol.
- Gymnasteg gymunedol anghystadleuol (Y Rhondda): sesiynau wythnosol i fwy na 230 o blant.
- Nofio ysgol a chymunedol (De Ddwyrain Cymru): darpariaeth nofio i fwy nag 800 o blant.
- Colegau Addysg Bellach: partneriaeth gyda 10 o'r 13 coleg AB yng Nghymru, gan gynnwys cytundebau i ddarparu hyfforddiant arweinyddiaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.

Cyfathrebu a digidol

Cyfryngau cymdeithasol

Rydym yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ar ein cyfryngau cymdeithasol. Yn 2025–26 fe wnaethom greu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân ar Instagram, LinkedIn a YouTube (roedd y sianeli hyn yn ddwyieithog o'r blaen). Mae hyn wedi gwella'r profiad i gynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg drwy gynnig negeseuon a chynnwys Cymraeg yn unig.

Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at glybiau a phobl sy'n mwynhau chwaraeon yn y Gymraeg. Er enghraifft, ar Ddiwrnod Shwmae Sumae (Hydref 2025) fe wnaethom rannu ffilm fer am glwb Pêl Fasged Tegid, clwb pêl fasged Cymraeg yn y Bala sy'n cael ei gefnogi gan Chwaraeon Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Rydym yn parhau i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i adrodd straeon am unigolion a chlybiau sy'n gwerthfawrogi'r cyfle i fwynhau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Hydref 2025, fe wnaethom nodi Diwrnod Shwmae Sumae gyda ffilm cyfryngau cymdeithasol am glwb Pêl Fasged Tegid, clwb pêl fasged Cymraeg yn y Bala a sefydlwyd gyda chefnogaeth gan Chwaraeon Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Roedd y ffilm yn dilyn Kirill, bachgen o Wcráin sydd wedi ailsefydlu yng Ngogledd Cymru ac sy'n dysgu Cymraeg drwy'r clwb. Dangosodd sut gall chwaraeon helpu pobl i gysylltu ar draws ieithoedd a diwylliannau.

Tyfodd y sianeli Cymraeg ar draws pob platfform bron yn 2025–26 (gyda gostyngiad ar X yn unol â thueddiadau ehangach y platfform). Yn ystod chwe mis olaf y flwyddyn, cynyddodd y dilynwyr Cymraeg ar Facebook 9%, a chynyddodd y dilynwyr Cymraeg ar Instagram a LinkedIn 76% a 400% yn y drefn honno.

Mae'r twf hwn yn adlewyrchu dull newydd o weithredu sy'n blaenoriaethu ansawdd, profiad y gynulleidfa, a chynllunio ar gyfer cynnwys yn y Gymraeg o'r dechrau un.

Gwefan newydd

Wrth ddylunio ein gwefan gorfforaethol newydd, fe wnaethom gynnwys siaradwyr Cymraeg drwy gydol yr ymchwil a'r profion ar ddefnyddwyr. Fe wnaethom gynnal cyfweliadau yn y Gymraeg a defnyddio arolygon dwyieithog fel bod anghenion Cymraeg yn siapio'r dyluniad a'r cynnwys.

Fe wnaethom ddatblygu cynnwys Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr, gan ddefnyddio dylunwyr cynnwys arbenigol ar gyfer pob iaith, yn hytrach nag ysgrifennu yn Saesneg i ddechrau a chyfieithu wedyn. Roedd hyn yn dilyn cyngor gan y Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ar arfer gorau ar gyfer gwasanaethau digidol dwyieithog.

Rydym hefyd yn dilyn cyfarwyddyd Cymraeg Clir i wneud cynnwys Cymraeg mor glir a hygyrch â phosibl.



Cyllid grant

Rydym yn defnyddio ein rhaglenni buddsoddi i gefnogi cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cronfa Cymru Actif

Yn 2025–26, gwnaethom 677 o ddyfarniadau drwy Gronfa Cymru Actif. O blith y rhain, cefnogodd 40 o ddyfarniadau sefydliadau sy'n gweithio ar ein blaenoriaeth buddsoddi yn y Gymraeg. Roedd cyfanswm y 40 dyfarniad yma'n £222,299 allan o £3.97m a ddyfarnwyd yn gyffredinol.

Yn 2023–24, newidiwyd sut rydym yn cofnodi pa feysydd blaenoriaeth y mae dyfarniad yn eu cefnogi. Er mwyn symleiddio ceisiadau, mae ein tîm buddsoddi bellach yn cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth perthnasol drwy adolygu'r cais a (lle bo angen) cysylltu â'r ymgeisydd.

Ein dyletswyddau Cymraeg

Rydym yn ystyried yr effeithiau posibl ar siaradwyr Cymraeg yn ein hasesiadau effaith a thempledi papurau'r Bwrdd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dyletswyddau'r Gymraeg yn cael eu hystyried pan fyddwn yn datblygu, yn adolygu neu'n newid polisïau.

Mae ein llywodraethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd yn ystyried y Gymraeg, ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cael mynediad at ein gwasanaethau. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn adolygu cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

Cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

Yn yr adrannau isod, rydym yn crynhoi gwaith o dan y prif fathau (neu "ddosbarthiadau") o safonau: darparu gwasanaethau, llunio polisïau a safonau gweithredol. Adroddiad cryno yw hwn, nid cofnod llawn o bob safon sy'n berthnasol i Chwaraeon Cymru.

Darparu gwasanaethau

Lansiwyd system archebu ac aelodaeth ar-lein newydd ar gyfer Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ym mis Gorffennaf 2025, gyda fersiwn ap symudol ym mis Mawrth 2026. Mae'r system yn gwbl ddwyieithog, a nodwyd hynny yn y broses dendro o'r dechrau un. Chwaraeon Cymru yw'r gweithredwr cyntaf i gynnig system archebu ac aelodaeth Gladstone yn y Gymraeg.

Mae cwsmeriaid yn archebu fwyfwy ar-lein: mae mwy na 75% o aelodau newydd yn ymuno ar-lein bellach, ac mae tua 90% o archebion aelodau ar gyfer dosbarthiadau a chwaraeon raced yn cael eu gwneud ar-lein. Mae hyn wedi lleihau ciwiau yn y dderbynfa ac wedi rhyddhau amser staff i gefnogi cwsmeriaid.

Rydym yn parhau i ddynodi swyddi gwag yn y dderbynfa fel rhai sy'n gofyn am y Gymraeg fel gofyniad hanfodol. Rydym hefyd wedi gwneud swyddi gwasanaethau cwsmeriaid eraill yn rhai y mae siarad Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Mae canllawiau staff ar ddelio ag ymholiadau yn y Gymraeg ar gael ar ein mewnrwyd corfforaethol.

Llunio polisïau

Rydym yn cyflwyno ein hymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Fe wnaethom barhau ag adolygiad sylfaenol o'n proses Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn ystod 2025–26, gan gynnwys ymchwil defnyddwyr a datblygu datrysiad technoleg ategol.

Rydym yn disgwyl i'r gwaith datblygu gael ei gwblhau'n gynnar yn 2026–27, ac wedyn canllawiau a hyfforddiant i staff i gryfhau sut mae effeithiau'r Gymraeg yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau.



Gweithredol:

Yn 2025–26 fe wnaethom hysbysebu 27 o swyddi gwag. Rhestrwyd sgiliau dwyieithog neu amlieithog fel rhai dymunol ar gyfer 24 o'r swyddi hyn.

Penodwyd 17 o staff yn dechrau o'r newydd (parhaol neu dymor penodol); disgrifiodd wyth eu sgiliau yn y Gymraeg fel rhai rhugl, rhannol neu ddechreuwyr. Gofynnwyd hefyd i bob aelod o staff a hoffent ohebiaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'u cyflogaeth yn y Gymraeg.

Mae ein llawlyfr staff (sy'n cynnwys polisïau fel iechyd a diogelwch, perfformiad, rheoli absenoldeb a buddion staff) yn gwbl ddwyieithog ac mae ar gael ar ein gwefannau.

Gall staff fynegi a derbyn ymatebion i gwynion yn y Gymraeg, a bydd y broses gwyno lawn yn cael ei chyflwyno yn yr iaith o ddewis y person.

Gall staff gael hyfforddiant Cymraeg yn ystod oriau gwaith. Yn 2025–26, mynychodd pedwar o bobl gyrsiau Cymraeg.

Rheolir llofnodion e-bost yn ganolog ac maent yn ddwyieithog. Mae hysbysebion swyddi a deunyddiau recriwtio ategol yn ddwyieithog, a gall pob ymgeisydd ddewis cael cyfweliad yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Cadw cofnodion:

Rydym yn cadw cofnod o sgiliau Cymraeg yn Chwaraeon Cymru. Yn 2025–26, adroddodd staff y lefelau canlynol:

Lefel y Gymraeg	%
Rhugl	**11%** (18)
Rhannol	**6%** (11)
Dechreuwyr	**20%** (33)
Ddim yn siarad Cymraeg	**47%** (80)
Heb ddatgan	**16%** (27)

Mae'r tabl yn dangos bod cyfran y staff wnaeth ddatgan eu lefel yn y Gymraeg wedi cynyddu o 81% yn 2024–25 i 84% yn 2025–26. Cynyddodd cyfran y staff a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg (rhugl, rhannol neu ddechreuwr) o 36% i 37%.

Cwynion:

Yn 2025–26, cawsom ddwy gŵyn newydd yn ymwneud â'n gwasanaethau yn y Gymraeg.

Ym mis Ionawr 2026 cawsom gŵyn, drwy Gomisiynydd y Gymraeg, ynglŷn â gofyn am wersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhlas Menai. Mae'r achos yn parhau ac rydym wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Comisiynydd.

Ym mis Mawrth 2026, cawsom gŵyn, drwy Gomisiynydd y Gymraeg eto, ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r iaith Gymraeg yn y gweithle a'n dull o gyfathrebu'n ddwyieithog. Fe wnaethom ymateb o fewn yr amserlen a ddarparwyd.

Safonau ategol: darparu gwasanaethau / llunio polisïau / gweithredol / cadw cofnodion

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi'r safonau sy'n berthnasol i Chwaraeon Cymru a sut rydym yn eu bodloni. Rydym yn diweddaru'r ddogfen hon, yn seiliedig ar drafodaethau gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, staff sy'n siarad Cymraeg, a'n cyfieithydd mewnol. Rydym hefyd wedi cwblhau ymgynghoriad allanol gyda sampl o bartneriaid. Byddwn yn adolygu'r adborth ac yn cyhoeddi cynllun wedi'i ddiweddaru yn 2026, wedi'i gefnogi gan ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff.

Mae cwblhau'r holiadur cydymffurfio wedi cryfhau ein dealltwriaeth o berfformiad ar draws yr holl safonau.

Mae wedi bod yn sail i'r cynllun wedi'i ddiweddaru a bydd yn dylanwadu ar ganllawiau staff gwell, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Mae manylion ynghylch sut byddem yn rheoli cwyn sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg a grybwyllir uchod.

Rydym wedi gwneud cynnydd, ond rydym eisiau gwneud mwy. Byddwn yn parhau i wella ein gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.

Asesiad cydymffurfiaeth

Yn 2025–26, parhaodd Comisiynydd y Gymraeg â'i dull cydreoleiddio o weithredu gyda chyrff cyhoeddus ac ymgysylltodd â Chwaraeon Cymru ynghylch sut mae'r dull hwn yn datblygu.

O ran gwaith CyG ar gydymffurfiaeth, roedd yn ofynnol i Chwaraeon Cymru gwblhau Holiadur Cydymffurfiaeth yn ail hanner 2025-26.

Cwblhawyd holiadur cydymffurfiaeth gennym yn ail hanner 2025–26. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni hunanasesu, gyda thystiolaeth, pob un o'r 156 o safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Chwaraeon Cymru a phennu camau gweithredu lle nad oedd y cydymffurfio wedi'i asesu fel uchel.

Ar gyfer holiadur 2025–26, grwpiodd y Comisiynydd ein 156 o safonau yn 55 o grwpiau o safonau cysylltiedig. Mae ein cydymffurfiaeth hunanasesu ar draws y 55 o grwpiau hynny'n cael ei chrynhoi isod:

Lefel y Gydymffurfiaeth	Grwpiau o Safonau
Uchel	24
Canolig	23
Isel	6
Dim sicrwydd	2

Fe wnaethom ddiweddaru ein cynllun gweithredu yn dilyn yr holiadur. Byddwn yn adolygu ac yn cyflawni'r cynllun hwn yn ystod 2026–27 i gefnogi gwelliant parhaus.

Plas Menai: Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru 2025–26, parhaodd Plas Menai i gryfhau ei darpariaeth ddwyieithog o wasanaethau.

Gan adeiladu ar y bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru a Parkwood Leisure (o 2023), mae'r ganolfan wedi canolbwyntio ar sgiliau'r gweithlu, adnoddau ymarferol a chyfathrebu dwyieithog cyson.

- **Arweinyddiaeth:** mae Pennaeth y Ganolfan yn cael gwersi Cymraeg i gefnogi diwylliant o weithio dwyieithog.
- **Gweithlu:** fe wnaethom recriwtio aelod ychwanegol o staff sy'n siarad Cymraeg i rôl sy'n delio â chwsmeriaid ac rydym yn datblygu hyfforddiant mewnol ar gyfer cynaliadwyedd.
- **Hyfforddiant:** mae siaradwyr canolraddol wedi cael cynnig cyrsiau Cymraeg dwys preswyl i feithrin hyder ar gyfer cyflwyno dwyieithog.
- **Adnoddau ymarferol:** mae cardiau fflach dwyieithog a chymhorthion gweledol yn cefnogi cyfarwyddyd technegol ac yn helpu cwsmeriaid i ymgysylltu â therminoleg Gymraeg sylfaenol.
- **Cymraeg Bob Dydd:** mae'r staff yn cael eu hannog i ddefnyddio Cymraeg achlysurol fel rhan o arfer dyddiol, gyda chefnogaeth cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.
- **Digidol a marchnata:** mae cynnwys dwyieithog yn cael ei gynllunio i ddarparu profiad Cymraeg a Saesneg cyfatebol.

- **Cyfleusterau:** cyflwynwyd ystafelloedd iechyd a ffitrwydd newydd gydag arwyddion, negeseuon diogelwch a deunyddiau marchnata dwyieithog o'r dechrau un.
- **Recriwtio:** mae hysbysebion swyddi yn cynnwys siarad Cymraeg fel gofyniad hanfodol yn gyson ar gyfer swyddi perthnasol, ochr yn ochr â chefnogi staff i ennill y cymwysterau technegol gofynnol.
- **Partneriaethau:** gwaith parhaus gydag Urdd Gobaith Cymru i ddatblygu talent sy'n siarad Cymraeg ar gyfer datblygu hyfforddwyr a recriwtio yn y dyfodol.

Astudiaeth achos

Y Gymraeg mewn chwaraeon

Yr iaith Gymraeg mewn chwaraeon – gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg i gynyddu cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2025–26, fe wnaethom ymestyn ein partneriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg i annog sefydliadau yn y sector chwaraeon i gryfhau eu darpariaeth yn y Gymraeg. Mae hyn yn cefnogi ein dyletswydd i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan ei gwneud yn haws ei defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cefnogi mwy o gyfleoedd yn y Gymraeg i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel cyfranogwyr, hyfforddwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr a staff.

Rydym wedi gweithio gyda thîm Hybu'r Comisiynydd ers sawl blwyddyn i annog cyrff rheoli cenedlaethol partner a sefydliadau cenedlaethol i ddefnyddio adnoddau hunanasesu'r Comisiynydd.

Lle mae sefydliadau eisiau symud ymlaen ymhellach, rydym yn cefnogi cynllunio i weithredu tuag at gydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg. Yn 2025–26, cynhaliodd pedwar sefydliad partner y Cynnig Cymraeg: Undeb Rygbi Cymru, Triathlon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru a'r Bartneriaeth Awyr Agored.

Yn haf 2025, cryfhawyd y gwaith hwn gan ddau ddatblygiad cysylltiedig. Yn gyntaf, fe wnaethom gynnwys y Gymraeg fel elfen graidd yn ein fframwaith datblygu pobl a llywodraethu newydd ar gyfer partneriaid a gyllidir, Arwain Cymru. Mae partneriaid sy'n derbyn cyllid blynyddol yn cwblhau hwn bob blwyddyn, ac mae'n pennu disgwyliadau clir ar gyfer ymrwymiad a gwelliant parhaus.

Gall partneriaid gael mynediad at gefnogaeth drwy dîm Hybu'r Comisiynydd a thîm Llywodraethu Chwaraeon Cymru, gan gynnwys cyfeirio at adnoddau fel Helo Blod.

Yn ail, cyhoeddodd y Comisiynydd ymchwil ar ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc (yn seiliedig ar 1,600 o ymatebion gan ieuenctid 11 i 21 oed).

Tynnodd yr ymchwil sylw at y ffaith bod chwaraeon yn un o'r gweithgareddau mwyaf cyffredin y tu allan i'r ysgol, a bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn aml yn ystod gweithgareddau chwaraeon gan hyfforddwyr / arweinwyr a chyfoedion. Yn dilyn hyn, cytunodd y Comisiynydd a Chwaraeon Cymru i ddatblygu gwaith pellach i gynyddu cyfleoedd chwaraeon yn y Gymraeg i bobl ifanc.

Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn ym mis Rhagfyr 2025 gyda phartneriaid ar draws datblygu'r Gymraeg, chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ac ymchwil. Edrychodd y drafodaeth ar beth sy'n gweithio'n dda, a pha rwystrau sy'n parhau i gyfyngu ar gyfleoedd yn y Gymraeg mewn chwaraeon i bobl ifanc.

Fe wnaethom rannu beth a ddysgwyd o'r ymchwil a'r bwrdd crwn gyda phartneriaid Chwaraeon Cymru ym mis Mawrth 2026. Mae gwaith dilynol pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2026 27.

Rydym hefyd yn trafod cefnogaeth gyda hyfforddiant Cymraeg gyda sefydliadau arbenigol i helpu i ddiwallu anghenion staff Chwaraeon Cymru a phobl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector chwaraeon.

Bydd Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn adolygu'r cynnydd ac yn cytuno ar y camau nesaf, gan gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Amcanion tlodi plant

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i'w ddyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i sefydlu a chyhoeddi amcanion tlodi plant. Ers mis Rhagfyr 2024, mae Chwaraeon Cymru (mewn trafodaeth â Street Games, ein prif bartner wrth fynd i'r afael â thlodi plant) wedi bod yn edrych fedr ein nodau llesiant presennol (a'n datganiadau o fwriad strategol) gyflawni'r nodau hyn, yn hytrach na chreu nodau ychwanegol, annibynnol.

Rydym wedi adolygu ein hamcanion Tlodi Plant blaenorol ac wedi casglu astudiaethau achos perthnasol sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi plant drwy ein proses atebolrwydd partneriaid.

Mae dadansoddiad o astudiaethau achos partneriaid, sy'n cael eu cefnogi gan Street Games, yn dangos bod ein hamcanion llesiant presennol, sefydledig, yn darparu digon o ysgogiad i gefnogi mynd i'r afael â thlodi plant a bod gweithgarwch presennol y sector yn cyflawni effaith ystyrlon. Felly, rydym wedi penderfynu y bydd y Nodau Llesiant presennol, sydd hefyd yn ddatganiadau o Fwriad Strategol, yn gwasanaethu fel ein Hamcanion Tlodi Plant.

Y rhain yw:

1. Bod yn berson-ganolog

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

2. Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc

Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

3. Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

4. Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir

Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

5. Arddangos manteision chwaraeon

Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

6. Bod yn sefydliad o werth mawr


Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.

Rydym yn gwerthfawrogi bod rhagor o waith i'w wneud ac rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r dull hwn, gan weithio gyda Street Games a phartneriaid eraill i sicrhau bod cyd-destun tlodi plant y nodau llesiant yn cael ei ddeall yn eang.

Mae Chwaraeon Cymru wedi darparu rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i dlodi plant ar ein gwefannau.


Ystadegau cydraddoldeb cyfredol – gweithlu Chwaraeon Cymru

Ar 31 Mawrth 2026, roedd Chwaraeon Cymru yn cyflogi 169 o bobl mewn swyddi parhaol a thymor penodol. Mae'r ystadegau cydraddoldeb ar gyfer y staff hynny wedi'u dadansoddi yn ôl nodwedd warchodedig yn Ffigur 1.



* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.


Mae Ffigur 2 yn dangos nifer y dynion a'r merched a gyflogwyd wedi'u dadansoddi yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract yn ystod 2025-26



Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2026 oedd 9.3% (Cymedr) neu 9.5% (Canolrif). Mae hyn yn gynnydd o 8.3% (Cymedr) ac yn gynnydd o 8.7% (Canolrif) o gymharu â 31 Mawrth 2025.


Ystadegau cydraddoldeb - Bwrdd

Mae Ffigur 3 yn dangos yr ystadegau cydraddoldeb ar gyfer aelodau bwrdd Chwaraeon Cymru yn ystod 2025-26 fel a ganlyn:



Recriwtio

Yn 2025-2026 derbyniodd Chwaraeon Cymru 882 o geisiadau gan unigolion yn gwneud cais am swyddi gyda Chwaraeon Cymru. Roedd y wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer yr ymgeiswyr fel a ganlyn:




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

Mae'r data uchod yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1af Ebrill a 31ain Rhagfyr 2025 yn unig. Ym mis Ionawr 2026, aeth system recriwtio newydd yn fyw ac roedd rhai heriau cychwynnol o ran adrodd data cydraddoldeb. Roedd 273 o geisiadau rhwng 1af Ionawr a 31ain Mawrth nad oedd data cydraddoldeb wedi'i gasglu ar eu cyfer, nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod y tueddiadau data'n wahanol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Staff yn dechrau o'r newydd


Fe wnaeth 18 aelod o staff ddechrau o'r newydd (ar gontract tymor penodol neu barhaol) rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'r wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y staff newydd hynny fel a ganlyn:



* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

Staff yn gadael

Fe wnaeth 13 aelod o staff (ar gontract tymor penodol neu barhaol) adael rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'r wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y staff hynny fel a ganlyn:



* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae pump neu lai o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

Cwynion, anfodlonrwydd, disgyblu

Mae gan Chwaraeon Cymru bolisi Gwrth-fwlio, Aflonyddu, Gwahaniaethu ac Erlid sy'n datgan safonau ymddygiad yn glir, gan fanylu ar y rhai y mae'r sefydliad yn eu hystyried yn annerbyniol a'r canlyniadau tebygol os bydd sail i unrhyw achos o fynd yn groes i'r ymddygiadau hyn. Mae prosesau ar gael hefyd ar gyfer cwynion a wneir gan y cyhoedd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, nid oedd unrhyw anfodlonrwydd a bu'n rhaid disgyblu un waith.

Hyfforddiant cydraddoldeb penodol

Mae pob aelod o staff sy'n dechrau o'r newydd yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar-lein, yn ogystal â mynychu sesiwn sefydlu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi parhau â'n rhaglen eang o hyfforddiant CACh, sydd wedi cynnwys Gwrth-Hiliaeth, Ymddygiad Cynhwysol a Gwrth-Fwlio, Gwahaniaethu, Erlid ac Aflonyddu. Mae'r polisïau Cydraddoldeb a Gwrth-fwlio, Gwahaniaethu, Erlid ac Aflonyddu wedi cael eu hadolygu eleni.

Iechyd meddwl a lles

Mae Chwaraeon Cymru yn darparu adnoddau a gwasanaethau amrywiol i gefnogi iechyd meddwl a lles cyffredinol ei gyflogeion.

Mae hyn yn cynnwys mynediad at gwnsela 24/7, sesiynau ymwybyddiaeth, cymorth iechyd galwedigaethol ac asesiadau gweithle. Dangosodd ein harolwg cyflogeion diwethaf fod 84% o'r cyflogeion yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â lles yn Chwaraeon Cymru, a'u bod yn teimlo bod eu rheolwr yn cymryd diddordeb ynddynt ac yn cefnogi eu lles.

Mae ein rhaglen Dysgu Cynhwysol ar gael i'n holl gydweithwyr ac mae'n cynnwys sesiynau Profiadau a Rennir sy'n galluogi i gydweithwyr siarad am eu profiadau byw a gwrando ar eraill a gofyn cwestiynau. Gwelwyd bod y sesiynau hyn yn cefnogi lles ac yn cyfrannu at empathi a dealltwriaeth ehangach o'n nodweddion a'n profiadau.

Adroddiad cyfranogiad chwaraeon

Nodwedd	Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru 2022	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024/25	Gwybodaeth ychwanegol
	Cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos		Dim ond lleoliadau Allgyrsiol neu Glybiau Cymunedol mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn eu cynnwys yn y diffiniad hwn o gyfranogiad.
Cyffredinol (pawb)	39%	35%	
Genethod; Merched	36%	32% (Benyw)	
Bechgyn; Dynion	43%	40% (Gwryw)	

Nodwedd	Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru 2022	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024/25	Gwybodaeth ychwanegol
Rhywedd arall	28%	–	Rydym yn cadw data am blant nad ydynt yn uniaethu â rhywedd 'bachgen' neu 'ferch'.
Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig:	**36%**	**36%**	Mae'r gallu i archwilio ethnigrwydd yn dibynnu ar faint y sampl. Gallwn ddarparu llawer mwy o fanylion am blant oherwydd maint y sampl (tua 115,000 o bobl). Mae dadansoddiad pellach ar gyfer oedolion yn gyfyngedig oherwydd maint y sampl mwyaf y gellir ei sicrhau (6,000 o bobl). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn adrodd ar ethnigrwydd ar lefel ehangach oherwydd cyfyngiadau maint y sampl. Fel rheol, caiff gwahanol gategorïau eu grwpio gyda'i gilydd at ddibenion dadansoddi (edrychwch isod). **Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig:** Pob ethnigrwydd arall (gan gynnwys du Affricanaidd, du Caribïaidd, du Prydeinig, du Cymreig, Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Grwpiau ethnig cymysg).
Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig	30%	-	
Grwpiau Ethnig Cymysg / Niferus	43%	-	
Du / Du Cymreig / Du Prydeinig	38%	-	
Grŵp Ethnig Arall	33%	-	
Gwyn (Cymro, Sais, Albanwr, Gwyddel o Ogledd Iwerddon, Prydeinig)	**41%**	**35%**	**Gwyn (Cymro, Sais, Albanwr neu Wyddel o Ogledd Iwerddon):** Pobl yn hunanddatgan fel gwyn Cymreig, gwyn Seisnig, gwyn Albanaidd, gwyn Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, gwyn Prydeinig.

Nodwedd	Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru 2022	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024/25	Gwybodaeth ychwanegol
Gwyn Arall (yn cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Gwyddelig, Roma, ac unrhyw gefndir Gwyn arall)	**36%**	**41%**	**Gwyn (Sipsi, Gwyddel, Teithiwr Gwyddelig, Roma neu gefndir gwyn arall):** Gwyn Gwyddelig, Gwyn Sipsi, Gwyn Teithiwr, cefndir gwyn arall. Felly nid oes dadansoddiadau manwl o is-grwpiau ethnig ar gael ar gyfer oedolion yn yr arolwg hwn gan nad yw fel rheol yn bosibl darparu canlyniadau digon manwl gywir ar gyfer dadgyfuno manylach.
Amddifadedd economaidd-gymdeithasol	32%	-	Ystyrir bod plant sy'n mynychu ysgolion sydd â'r lefelau cymhwysedd uchaf am brydau ysgol am ddim yn 'ddifreintiedig'; defnyddir mesur gwahanol ar gyfer oedolion, sef amddifadedd materol.
Amddifadedd materol	-	33%	Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio amddifadedd materol fel mesur o anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer oedolion. Gellir dadansoddi canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn erbyn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Mae MALlC wedi'i gynllunio i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd fwyaf amddifad.
Anabledd neu nam	35%	-	

Nodwedd	Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru 2022	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024/25	Gwybodaeth ychwanegol
Salwch hirsefydlog sy'n cyfyngu	-	21%	Gofynnir i'r rhai sydd â salwch hirsefydlog a yw'n lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gallant ateb 'ydi, llawer', 'ydi, ychydig', neu 'ddim o gwbl'.
Siaradwyr Cymraeg	46%	40%	Yn seiliedig ar oedolion a nododd eu bod yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, fel y cofnodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.
Mae data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY) wedi cael ei dalgrynnu er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr adrodd.			

Adroddiad buddsoddi

Yn 2025-26 gwnaeth Chwaraeon Cymru 677 o ddyfarniadau o Gronfa Cymru Actif am gyfanswm buddsoddiad o £3,973,199.00.

Mae dadansoddiad y dyfarniadau a'r buddsoddiad i feysydd blaenoriaeth yn 2025-26 wedi'i nodi isod:

Maes blaenoriaeth	Nifer y dyfarniadau	Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd £
Merched a genethod	255	1,434,110
Pobl o Leiafrifoedd Ethnig	38	180,943
Pobl ag anabledd	73	588,502
Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol	10	33,993
Trawsryweddol	5	13,746
Amddifadedd Economaidd Cymdeithasol	139	627,462
Yr Iaith Gymraeg	40	222,299
Creu Cynaliadwyedd **Tymor Hir**	671	3,956,927

Sail ar gyfer y ffigurau uchod:

Mae aelodau tîm buddsoddi Chwaraeon Cymru yn pennu'r meysydd blaenoriaeth y mae'r dyfarniadau'n rhoi sylw iddynt ar sail craffu ar y cais a chyswllt â'r ymgeisydd. Gall y prosiectau fynd i'r afael â mwy nag un maes blaenoriaeth, felly ni fydd cyfanswm y dyfarniadau a'r buddsoddiad ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn cyfateb i gyfanswm y dyfarniadau a chyfanswm y buddsoddiad.

Dadansoddi data

Gweithlu

Newidiodd ffigurau amrywiaeth gweithlu Chwaraeon Cymru ychydig yn 2025–26. Rhannodd mwy o staff wybodaeth am eu cyfeiriadedd rhywiol, a chynyddodd y gyfran sy'n nodi eu hunain fel deurywiol i 4%.

I roi cyd-destun, mae Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod tua 3% o bobl yng Nghymru yn nodi eu hunain fel LGB+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu gyfeiriadedd rhywiol arall). Cyfran y staff sy'n nodi eu bod yn heterorywiol yw 79%, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 89%.

Cynyddodd cyfran y staff sy'n ferched o 56% i 58% dros y flwyddyn ddiwethaf. Arhosodd canran y gweithwyr sy'n adrodd am anabledd ar 4%, sydd islaw cyfartaledd poblogaeth Cymru.

Dros y flwyddyn, cynyddodd Chwaraeon Cymru ei ffocws ar gynhwysiant anabledd drwy sawl menter sy'n gysylltiedig â'i gais am statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, a gyflawnodd ym mis Mawrth 2026.

Mae Chwaraeon Cymru yn annog staff i gwblhau datganiad amrywiaeth er mwyn i ni allu deall yn well pwy sy'n ffurfio ein gweithlu. Yn 2025–26, gostyngodd cyfran y staff na ddarparodd yr wybodaeth hon ("heb ei ddatgan") 1 i 2 bwynt canran ar draws y rhan fwyaf o nodweddion.

Cynyddodd ffigurau bwlch cyflog rhywedd Chwaraeon Cymru ychydig yn 2025–26. Cododd y bwlch cyflog cymedrig o 8.3% i 9.3%, a chododd y bwlch cyflog canolrifol o 8.7% i 9.5%. I roi'r cyd-destun, roedd bwlch cyflog canolrifol y DU ar gyfer rhywedd, ac ar ar gyfer yr holl gyflogeion ym mis Ebrill 2025, yn 12.8% (Swyddfa Ystadegau Gwladol, "Bwlch cyflog rhywedd yn y DU: 2025").

Bydd Chwaraeon Cymru yn gweithio ar y data hwn yn 2026-27 i esbonio gwybodaeth am y bwlch cyflog a'i gymharu â sefydliadau tebyg.

Mae hyn yn cynnwys deall gwahaniaethau yng Nghymru a'r DU a nodi ble ma'r bylchau mwyaf.

Cyfranogiad mewn chwaraeon

Mae canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 (a gyhoeddwyd yn Haf 2025). Dilynodd adroddiad manylach - "Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif - Cyflwr y Genedl" ym mis Tachwedd 2025. Mae'r ffigurau isod yn defnyddio'r data yma o 2024–25 ac yn cymryd lle ffigurau 2022–23 a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol.

Canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) 2024–25

Mae canlyniadau ACC 2024–25 yn dangos gwahaniaethau clir o ran pwy sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Yn gyffredinol, cymerodd 59% o oedolion (tua 1,449,000 o bobl) rywfaint o ran mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn ystod y pedair wythnos flaenorol. Pan edrychwn ar weithgarwch mwy rheolaidd, cymerodd 35% o oedolion (tua 868,000 o bobl) ran dair gwaith neu fwy yr wythnos. Mae hyn 4 pwynt canran yn is nag yn 2022–23 (39%). Cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos yw'r meincnod a ddefnyddir ar gyfer Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 38.

Un o'r prif resymau dros y gostyngiad mewn cyfranogiad rheolaidd yw llai o oedolion yn nodi cerdded pellteroedd hirach.

Yn 2024–25, dywedodd 38% o oedolion eu bod wedi cerdded mwy na dwy filltir yn ystod y pedair wythnos flaenorol, o gymharu â 41% yn 2022–23. Roedd pobl oedd yn cerdded yn tueddu i wneud hynny'n llai aml hefyd o fewn y cyfnod o bedair wythnos.

Er bod llai o oedolion yn cymryd rhan yn rheolaidd, mae mwy o bobl yn dweud eu bod nhw eisiau bod yn fwy actif.

Yn 2024–25, dywedodd 35% o oedolion (tua 840,000 o bobl) yr hoffent wneud mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol. Mae hyn 7 pwynt canran yn uwch nag yn 2022–23. Cynyddodd y "galw heb ei fodloni" hefyd: roedd 11% o oedolion (tua 273,000 o bobl) eisiau cymryd rhan ond nid oeddent wedi gwneud unrhyw chwaraeon na gweithgarwch corfforol yn ystod y pedair wythnos flaenorol (i fyny o 7% yn 2022–23).

Mae canlyniadau ACC 2024–25 hefyd yn dangos ble mae'r bylchau mwyaf mewn cyfranogiad:

- **Salwch neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu yn yr hirdymor:** cymerodd 39% o oedolion gyda salwch yn cyfyngu yn yr hirdymor ran yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, o gymharu â 70% o oedolion heb salwch neu gyflwr o'r fath (bwlch o 31 pwynt canran). Roedd y bwlch hwn yn 23 pwynt canran yn 2022–23.
- **Ardaloedd difreintiedig (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, MALIC):** Cymerodd 54% o oedolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (Cwintil 1 MALIC) ran yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, o gymharu â 66% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Cwintil 5).
- **Rhywedd:** Cymerodd 56% o ferched ran yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, o gymharu â 62% o ddynion.

O ran yr iaith Gymraeg, mae'r duedd hanesyddol gadarnhaol wedi parhau gan fod yr oedolion hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd ychydig yn fwy tebygol o gymryd rhan (62%) na'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny (59%).

Roedd y cyfranogiad yn amrywio hefyd ar draws ardaloedd y Partneriaethau Chwaraeon yn 2024–25. Canolbarth y De oedd â'r gyfradd gyfranogiad uchaf, sef 66%. Roedd gan Ganolbarth Cymru, y Gorllewin a Gwent gyfraddau is, sef 59%, 53% a 54% yn y drefn honno. Gwelwyd y newid mwyaf ers 2022–23 yng Ngorllewin Cymru, lle gostyngodd y cyfranogiad 7 pwynt canran (o 60% i 53%). Dyma oedd yr unig newid arwyddocaol gyda'r 4 rhanbarth arall naill ai heb newid neu'n unol â'u data yn 22-23 yn fras.

Canfyddiadau Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY) 2022

Dangosodd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 ostyngiad amlwg yn nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos. Gostyngodd y ffigur cyffredinol 8 pwynt canran i 39%.

Mae'n debygol bod y newid hwn mewn ymddygiad wedi'i effeithio'n gryf gan bandemig Covid-19. Cynhaliwyd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol blaenorol yn 2018.

Y grwpiau gyda'r bylchau cyfranogiad mwyaf oedd:

Ethnigrwydd

- Disgyblion Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig: 9 pwynt canran islaw'r cyfartaledd cyffredinol, a 9 pwynt yn is nag yn 2018.

- Disgyblion Du / Du Cymreig / Du Prydeinig: gostyngiad o 12 pwynt canran ers 2018. Symudodd hyn y grŵp o 3 pwynt uwchlaw'r cyfartaledd cyffredinol yn 2018 i 1 pwynt yn is yn 2022.
- Pob grŵp ethnig (fel y'u diffinnir yng Nghyfrifiad 2021): 6 phwynt canran islaw'r cyfartaledd cyffredinol, a 13 pwynt yn is nag yn 2018.

Anabledd

- Disgyblion ag anabledd neu nam: 5 pwynt canran islaw'r cyfartaledd cyffredinol, a 12 pwynt yn is nag yn 2018.

Amddifadedd economaidd-gymdeithasol

- Disgyblion sy'n mynychu ysgolion gyda'r cymhwysedd uchaf ar gyfer prydau ysgol am ddim: 7 pwynt canran islaw'r cyfartaledd cyffredinol, a 10 pwynt yn is nag yn 2018.

Rhywedd

- Cyfranogiad merched: 3 phwynt canran islaw'r cyfartaledd cyffredinol, a 9 pwynt yn is nag yn 2018.

Cwblhaodd tua thraean o ddisgyblion yng Nghymru'r arolwg. Mae hyn yn golygu y gallai gwahaniaethau bach o gymharu â 2018 fod oherwydd amrywiad arolwg arferol (oherwydd nad oedd pob disgybl wedi cymryd rhan). Mae newidiadau mwy yn fwy tebygol o adlewyrchu newidiadau gwirioneddol mewn ymddygiad.

Sut rydym yn nodi ac yn casglu'r wybodaeth briodol

Mae gwybodaeth dda yn ein helpu ni i ddeall pwy sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru, lle mae cyfranogiad yn is, a beth all helpu i gael gwared ar rwystrau.

Rydym yn defnyddio ymchwil i lunio ein strategaeth ac i rannu gwybodaeth gyda'r sector chwaraeon, Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a phartneriaid eraill.

Y prif arolygon rydym yn eu defnyddio:

Rydym yn dibynnu ar arolygon cenedlaethol i ddarparu darlun cyson dros amser, ac i gymharu cyfranogiad ar draws gwahanol grwpiau a llefydd.

Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC)

Arolwg o oedolion sy'n byw yng Nghymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fe'i cynlluniwyd fel bod y canlyniadau'n adlewyrchu'r boblogaeth gyfan.

Yn 2024–25, cymerodd tua 6,000 o oedolion 16 oed a hŷn ran. Roedd hyn yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi newid darparwyr yr arolwg a chyflwyno dull "ffôn yn gyntaf", gyda'r opsiwn i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Mae'n cynnwys adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif, sy'n ein helpu i ddeall y canlynol:

- Cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden gorfforol.
- Gwirfoddoli mewn chwaraeon.
- Defnydd o gyfleusterau chwaraeon.
- Agweddau at weithgarwch corfforol a bwriadau ar gyfer cyfranogiad yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y cwestiynau craidd a gall gynnwys modiwlau pwnc ychwanegol mewn rhai blynyddoedd. Mae'r cwestiynau craidd yn cynnwys gwybodaeth gefndir (er enghraifft: oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor). Mae hyn yn golygu y gallwn edrych ar gyfranogiad ar gyfer gwahanol grwpiau a lleoedd, gan gynnwys:

- Pob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Lefelau amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) – mesur o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach.
- Ardaloedd trefol a gwledig.

Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY)

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn ein helpu ni i ddeall sut mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Y data diweddaraf sydd ar gael yw o 2022, a chynhelir yr arolwg nesaf yn 2026 yn dilyn ymgynghori sylweddol a phrofi cwestiynau gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod yr arolwg yn adlewyrchu profiadau ac yn defnyddio iaith glir, gynhwysol a dealladwy.

Mae ACC a'r AChY yn cefnogi adroddiadau lles cenedlaethol Cymru hefyd, drwy Ddangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 38: canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Rydym hefyd yn defnyddio canfyddiadau arolygon cenedlaethol a gwybodaeth perfformiad arall i wneud penderfyniadau buddsoddi. Er enghraifft, rydym yn defnyddio'r dystiolaeth hon wrth ddyrannu cyllid i Gyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) a Phartneriaethau Chwaraeon. Mae defnyddio ffynonellau data a rennir yn ein helpu i fabwysiadu dull cyson o weithredu ac yn lleihau'r angen am ofyn i bartneriaid gasglu data.

Yn 2024–25, roedd y modiwlau sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn ymdrin â gwirfoddoli, gwylio, cyfleusterau ac agweddau tuag at weithgarwch corfforol.

Traciwr Gweithgarwch Cymru (TGC)

Mae Traciwr Gweithgarwch Cymru, a oedd yn darparu data rheolaidd ar agweddau ac ymddygiadau oedolion tuag at weithgarwch corfforol ers 2020, wedi dod i ben bellach ac nid yw ar waith mwyach. Fe'i cyflwynwyd yn gynnar yng nghyfnod COVID-19 i helpu i dracio effaith y pandemig. Nodwyd ei rôl wrth dracio tueddiadau cenedlaethol rhwng cylchoedd arolygon mawr, a bydd ei ddiddymu'n cael ei ystyried fel rhan o gynllunio data a gwybodaeth ehangach Chwaraeon Cymru yn y dyfodol.

Beth yw'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol?

Yn 2024–25, cymerodd tua 6,000 o oedolion ran yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (o gymharu â thua 12,000 mewn llawer o flynyddoedd blaenorol). Gyda sampl lai, mae'n anoddach adrodd yn ddibynadwy ar grwpiau llai (gan gynnwys rhai nodweddion gwarchodedig), ardaloedd daearyddol llai, neu gyfuniadau o nodweddion.

Efallai y bydd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chasglu, ond gall maint y sampl gyfyngu o hyd ar beth gallwn ei adrodd yn hyderus. Nid yw rhai cwestiynau'n addas i'w gofyn i bawb chwaith, ac mae angen dylunio pynciau sensitif yn ofalus fel bod cwestiynau'n hygyrch ac yn gynhwysol.

Mae Llywodraeth Cymru yn symud tuag at ddull arolwg ar-lein o weithredu ac mae disgwyl iddo gynyddu nifer yr ymatebion (i 12,000 neu fwy) yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, ni ellir cyfrif am bob nodwedd yn llawn pan fydd y canlyniadau'n cael eu haddasu i adlewyrchu'r boblogaeth ehangach. Mae rhai chwaraeon a gweithgareddau'n dymhorol hefyd, felly mae angen casglu data ar draws y flwyddyn i roi darlun cyflawn.

Fel pob arolwg, gall canfyddiadau hefyd gael eu heffeithio gan ba mor dda mae pobl yn cofio ac yn adrodd ar eu hymddygiad eu hunain.

Mae rhai agweddau ar gasglu data y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Chwaraeon Cymru. Er enghraifft, mewn arolygon a ddefnyddir gan sefydliadau lluosog, gall fod yn anodd newid cwestiynau'n gyflym. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gadw cwestiynau arolygon yn gyson ag arfer da cydnabyddedig, ac yn cefnogi cydlynu ar ddata a materion ystadegol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Pa mor effeithiol yw gwaith Chwaraeon Cymru i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol?

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth ddemograffig i ddeall sut mae gwahanol grwpiau'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar oedran, rhywedd, anabledd, ethnigrwydd ac amddifadedd. Daw'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon o'n harolygon cenedlaethol, yn enwedig Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys pobl 16 oed a hŷn, a'r Arolwg Chwaraeon Ysgol ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 ac 16 oed.

Lle mae meintiau samplau arolygon yn rhy fach, efallai y byddwn yn cynnal ymchwil ansoddol (fel cyfweliadau neu grwpiau ffocws) i edrych ar bynciau penodol yn fanylach.

Ar hyn o bryd rydym yn casglu gwybodaeth gyfyngedig am y canlynol:

- Priodas a phartneriaeth sifil.
- Beichiogrwydd a mamolaeth.
- Crefydd neu gred.
- Cyfeiriadedd rhywiol.

Ar hyn o bryd nid ydym yn casglu gwybodaeth sensitif drwy arolygon "tracio" llai, oherwydd efallai na fydd yr arolygon hyn yn derbyn digon o ymatebion i adrodd canlyniadau'n ddiogel ac yn ddibynadwy. Yn fwy cyffredinol, oherwydd bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gallu amrywio yn ôl tymor, mae angen casglu data drwy gydol y flwyddyn i gynrychioli patrymau gweithgarwch yn fanwl gywir.

Rydym yn parhau i adolygu ein dull ac yn gwneud gwelliannau lle gallwn. Rydym hefyd yn datblygu ffordd fwy cyflawn o reoli ein data - o sut rydym yn ei dderbyn, i sut rydym yn ei storio, i sut rydym yn cyhoeddi allbynnau clir a hygyrch.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Tîm Dirnadaeth yn datblygu dangosfyrddau (gan ddefnyddio Power BI) i helpu staff i weld trosolwg cyfredol o wybodaeth allweddol.

Cyn cylch nesaf yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru, byddwn yn adolygu cwestiynau'r arolwg ac yn diweddaru ein dadansoddiad. Bydd hyn yn ein helpu i edrych ar sut gall ffactorau orgyffwrdd (er enghraifft, ethnigrwydd ac anabledd), lle mae'r data'n caniatáu.

Rhestr o bartneriaid sy'n cael eu cyllido gan Chwaraeon Cymru

Cyrff Rheoli Cenedlaethol

- Athletau Cymru
- Badminton Cymru
- Pêl Fasged Cymru
- Bowls Cymru
- Paddle Cymru
- Criced Cymru
- Beicio Cymru
- Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Golff Cymru
- Gymnasteg Cymru
- Hoci Cymru
- Pêl Rwyd Cymru
- Rhwyfo Cymro
- Undeb Rygbi Cymru
- RYA Cymru Wales
- Sboncen Cymru
- Nofio Cymru
- Tennis Bwrdd Cymru
- Tennis Cymru
- Triathlon Cymru
- Cymdeithas Jiwdo Cymru
- Rygbi'r Gynghrair Cymru
- Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru
- Codi Pwysau Cymru
- Pysgota Cymru
- Saethyddiaeth Cymru
- Cymdeithas Cyrlio Cymru
- Ffensio Cymru
- Lacrosse Cymru
- Cymdeithas Gyfeiriannu Cymru
- Snwcer Cymru
- Snowsport Cymru Wales
- (SLSA) Cymdeithas Achub Bywyd Syrff Cymru
- Reslo Cymru

Partneriaid Cenedlaethol

- Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru
- SportsAid
- WIPS SU (Rhagfyr 2024)
- Cymdeithas Nofio Pobl Dduon
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Girl Guides
- Leadership Skills Foundation
- U Do It
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Youth Sport Trust
- Colegau Cymru
- StreetGames
- Y Bartneriaeth Awyr Agored
- Yr Urdd
- Sefydliad Sported

Partneriaethau Chwaraeon

- Actif North Wales
- Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru
- Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru
- Partneriaeth Actif Canolbarth y De

Perfformiad Ariannol

Mae datganiadau ariannol Chwaraeon Cymru yn dangos bod cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 yn £38.522 miliwn, o gymharu â £33.697 miliwn yn 2024/25. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau uwch o fuddsoddiad a gweithgarwch cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwariant grantiau a chostau gweithredu cysylltiedig, gan fod adnoddau wedi'u cyfeirio at flaenoriaethau strategol a sefydliadau partner Chwaraeon Cymru.

Cyllid Llywodraeth Cymru oedd prif ffynhonnell cefnogaeth ariannol Chwaraeon Cymru o hyd, a chafodd ei dderbyn yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni, heb unrhyw refeniw ychwanegol wedi'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn. Ar ôl ystyried cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, y symudiad net ar y gronfa gyffredinol oedd £1.674 miliwn (2024/25: £1.403 miliwn), ar ôl codi dibrisiant o £0.651 miliwn (2024/25: £0.611 miliwn).

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn dangos ecwiti trethdalwyr cyfunol o £25.369 miliwn ar 31 Mawrth 2026. Roedd hyn yn cynnwys balans cronfa gyffredinol o £6.178 miliwn yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru ei hun a £19.191 miliwn y gellir ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro ac, yn y gwerthusiad actwaraidd diweddaraf, roedd ei elfen o'r gronfa yn parhau i fod mewn gwarged.

O ganlyniad, arhosodd cyfraddau'r cyfraniad cyflogwr ar 0% yn ystod y flwyddyn a disgwylir iddynt wneud hynny tan y gwerthusiad tair blynedd nesaf yn 2028.

Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn adlewyrchu rheolaeth Chwaraeon Cymru ar wariant yn ystod y flwyddyn gyda'r adnoddau oedd ar gael a gwerth parhaus yr asedau tymor hwy a gedwir drwy'r Ymddiriedolaeth. Arhosodd y balansau arian parod yn isel, yn gyson â model cyllido'r sefydliad a therfynau arian parod Llywodraeth Cymru, lle mae gwariant yn cael ei gefnogi'n bennaf gan gymorth grant a dynnir i lawr ar gyfer gweithgarwch yn ystod y flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau ariannol yn dangos bod Chwaraeon Cymru wedi parhau yn sefydlog yn ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Maent hefyd yn tynnu sylw at ddibyniaeth barhaus y sefydliad ar gyllid cyhoeddus a phwysigrwydd cynnal rheolaeth fanwl ar wariant wrth i ofynion cyflawni a phwysau cost barhau i esblygu. Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

Cynaliadwyedd (gan gynnwys yr adroddiad bioamrywiaeth)

Grantiau Arbed Ynni (GAY)

Mae Chwaraeon Cymru wedi dyfarnu £2.1 miliwn mewn Grantiau Arbed Ynni i 118 o glybiau chwaraeon cymunedol ledled Cymru yn ystod 2025-26.

Mae'r Grant Arbed Ynni, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, yn helpu clybiau i dorri costau ynni, lleihau allyriadau carbon, ac ailfuddsoddi arbedion yn ôl mewn chwaraeon lleol.

Mae hyn yn mynd â chyfanswm y gefnogaeth dros dair blynedd gan y cynllun cyllido GAY i £5.5m, gyda 304 o glybiau a safleoedd yn cael eu cefnogi. Mae'r rhaglen yn cael effaith wirioneddol ar ddadgarboneiddio'r sector chwaraeon yng Nghymru ac mae wedi derbyn mwy na'i chapasiti o geisiadau ym mhob un o'r tair blynedd o weithredu.

Amlinellir isod fanylion y prosiectau cynaliadwyedd o fewn y 118 o ddyfarniadau yn ystod 2025-26 (mae rhai prosiectau'n cynnwys mwy nag 1 elfen):

Nifer y prosiectau	Disgrifiad
76	gosod paneli solar yn eu lle
22	prynu batris storio ar gyfer ynni gormodol
19	uwchraddio i oleuadau LED i leihau'r defnydd o ynni
12	ffenestri a drysau newydd sy'n effeithlon o ran ynni
15	gosod neu ailosod inswleiddiad i leihau colli gwres
14	datrysiadau dŵr cynaliadwy fel tyllau turio a systemau cynaeafu glaw
23	uwchraddio eu systemau gwresogi neu ddŵr poeth

Bydd y prosiectau'n amrywio yn dibynnu ar ba uwchraddio fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r clwb neu'r cyfleuster.

Yn ogystal â nifer o gyfleusterau aml-chwaraeon yn derbyn Grantiau Arbed Ynni, cafodd clybiau o'r chwaraeon canlynol ddyfarniadau hefyd:

- Bowls
- Bocsio
- Criced
- Beicio
- Pêl Droed
- Golff
- Gymnasteg
- Rygbi
- Hwylio
- Sglefrfyrddio
- Sboncen
- Achub Bywyd Syrff
- Tennis

Cefnogwyd prosiectau ym mhob un o'r 22 Ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae profiad Clwb Criced Gorseinon yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyllid y GAY. Lleihau costau: Roedd angen i'r clwb leihau cost cyfleustodau, yn eu hachos hwy roedd yn lleihau biliau dŵr drwy osod system Casglu Dŵr Glaw yn ei lle. Llai o effaith amgylcheddol: Mae dŵr glaw yn well ac yn fwy cynaliadwy na dŵr tap ar gyfer y gwaith hwn, nid yw'n gwastraffu dŵr tap ac, oherwydd nad oes gan ddŵr glaw ychwanegion fel fflworid, mae hefyd yn well i'r caeau a'r amgylchedd.

Roedd gan y datrysiad newydd drydydd budd hefyd - gwnaeth y gwaith yn well oherwydd pwysedd dŵr gwell, felly mae'r dasg yn cymryd llawer llai o amser. Sicrhaodd hyn arbedion pellach hefyd o ran amser staff y maes. Y budd olaf yw ei fod wedi newid meddylfryd y clwb i fynd ymhellach ar ei siwrnai cynaliadwyedd ac mae bellach yn edrych ar leihau ei anghenion ynni.

Mae llawer o glybiau sydd wedi derbyn cyllid y GAY wedi gweld yr arbedion o ran cost fel ffordd o ddatblygu a chynnal eu camp ymhellach. Er enghraifft, dywedodd Terry Wells, Ysgrifennydd Clwb Bowls Llanandras '...Mae hyn yn lleihau ein biliau cyfleustodau, sy'n ein galluogi ni i ddefnyddio mwy o'n harian cyfyngedig er budd uniongyrchol ein haelodau - ac rydyn ni'n helpu'r amgylchedd ar yr un pryd. ...'

Cyllid Cyfalaf

Mae'r cynllun cyllido hwn yn parhau i hybu cynaliadwyedd chwaraeon yng Nghymru hefyd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o awdurdodau lleol wedi bod yn gwneud cais am gyfran o gyllid cyfalaf Chwaraeon Cymru.

Maent wedi bod yn gwneud eu canolfannau hamdden yn 'wyrddach' ac yn fwy effeithlon o ran ynni – gan ostwng eu biliau ynni a gwella eu cyfleusterau gydag uwchraddio modern, cynaliadwy.

Mae Cyngor Sir Powys ynghyd â'u partner hamdden, Freedom Leisure, wedi llwyddo i sicrhau grantiau cyfalaf ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf i uwchraddio 13 o ganolfannau hamdden. Mae hyn wedi eu galluogi i osod ffaniau dadhaenu mewn canolfannau hamdden i ailgylchu gwres gwastraff mewn pyllau a champfeydd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng tymereddau a chyfforddusrwydd. Hefyd gosod paneli solar yn eu lle a goleuadau LED mewnol ac allanol, sy'n llawer mwy effeithlon o ran ynni na goleuadau traddodiadol. Cyllidodd y cynllun hefyd y gwaith o osod un o systemau adfer adlif cyntaf Cymru yn ei lle. Mae'r system hon yn ailgylchu dŵr pyllau nofio yn hytrach na'i ddraenio, gan arbed ar ddŵr, gwresogi, clorineiddio a chywiro pH.

Buddsoddi mewn Partneriaethau – Arwain Cymru

Mae buddsoddiad Chwaraeon Cymru yn ein partneriaid yn seiliedig ar Arwain Cymru (y Fframwaith Gallu gynt).

Nod y fframwaith llywodraethu hwn yw sicrhau bod gennym hyder mewn sefydliadau wrth fuddsoddi arian cyhoeddus. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus yn llywodraethu'r partneriaid, fel eu bod yn gynaliadwy ac mewn sefyllfa dda i gyflawni eu potensial.

Ar ôl ymgysylltu â mwy na 25 o sefydliadau partner, ychwanegwyd cynaliadwyedd at y fframwaith am y tro cyntaf yn 2025-26.

Mae Cynaliadwyedd Amgylcheddol bellach yn rhan greiddiol o Arwain Cymru. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i bob partner sy'n cael ei gyllido yn flynyddol ddangos ymrwymiad clir a pharhaus i gynaliadwyedd amgylcheddol a dadgarboneiddio.

Mae hyn yn digwydd drwy wneud penderfyniadau gwybodus a chyfrifol sy'n lleihau ôl troed amgylcheddol ac yn hyrwyddo ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gydweithredu â'r Sport Environment and Climate Coalition (SECC) i ddatblygu adnoddau ar gynaliadwyedd i gefnogi ein partneriaid ar y siwrnai gwelliant parhaus sy'n nodwedd allweddol o Arwain Cymru.

Caffael

Yn ystod 2025-26, mae'r adolygiad o'n strategaeth, ein polisi a'n gweithdrefnau caffael wedi bod yn ddarn pwysig a llwyddiannus o waith, wedi'i ysgogi gan ein hamcanion cynaliadwyedd a chydraddoldeb a deddfwriaeth ddiweddar. Fe'i cefnogwyd gan secondiad tymor byr arloesol i sicrhau arbenigedd o gorff cyhoeddus arall. Cyflwynwyd hyfforddiant staff cynhwysfawr ar y polisi a'r broses gaffael gymdeithasol gyfrifol wedi'u diweddaru ym mis Ionawr 2026. Mae'r enghreifftiau o arfer da gan ein tîm Arlwyo yn yr adran ganlynol yn dangos sut mae ein dull o weithredu'n arwain at newid.

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru yn adeiladu'r achos dros gyfleuster cenedlaethol newydd. Ein gweledigaeth yw creu 'patrwm o ganolfan amgylcheddol gynaliadwy ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, gan gysylltu unigolion a sefydliadau â'i gilydd mewn canolfan chwaraeon sydd wedi'i chynllunio i feithrin diwylliant o ragoriaeth, arloesi, dysgu, datblygu a lles'.

Mae ein huchelgeisiau ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol yr un mor uchel â'n huchelgeisiau chwaraeon. Rydym eisiau datblygu canolfan genedlaethol a fydd yn gosod y safon yn y DU a thu hwnt, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd a bioamrywiaeth am flynyddoedd i ddod. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer y cyfleuster hwn yn 2026-27.

Mae tîm Arlwyo Chwaraeon Cymru wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'n cyflenwyr bwyd a diod i gynyddu cynaliadwyedd a deall gweithredoedd cyfrifoldeb cymdeithasol y sefydliadau hyn. Rydym yn defnyddio ein dylanwad prynu i annog gwaith teg ac arferion cyfrifol ar draws ein cadwyn gyflenwi, sydd hefyd yn ein helpu i leihau ein hôl troed carbon drwy ddefnyddio deunyddiau ailgylchadwy a phrynu gan fusnesau lleol.

Yn ystod 2025-26 rydym wedi newid rhai cyflenwyr, gydag un o'r cyflenwyr newydd wedi'i gofrestru â B Corp ac yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae cyflenwr arall yn gweithio gydag ysgolion i annog plant i fwyta mwy o lysiau sy'n cael eu tyfu yng Nghymru. O safbwynt Chwaraeon Cymru, rydym yn awyddus i weithio gyda chyflenwyr sy'n hyrwyddo bwyta'n iach.

Mae hyn yn cefnogi ein hamcanion cynaliadwyedd drwy greu cymunedau iachach, cefnogi cynnyrch sy'n cael ei dyfu yng Nghymru a byrhau cadwyni cyflenwi.

Cyfathrebu

Mae tîm cyfathrebu Chwaraeon Cymru wedi chwarae rhan bwysig wrth rannu'r straeon newyddion da am sut mae'r sector chwaraeon yn cynyddu ei gynaliadwyedd. Yn ystod 2025-26, cyfathrebwyd sawl erthygl ac eitem cyfryngau cymdeithasol a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar bynciau amgylcheddol yn allanol, gyda llawer o eitemau eraill yn cynnwys rhywfaint o gynnwys ar gynaliadwyedd. Cafodd y cynnwys ei deilwra i anghenion gwahanol gynulleidfaoedd drwy erthyglau ar y wefan; postiadau a fideos ar y cyfryngau cymdeithasol; a gohebiaeth mewn cylchlythyrau ar gyfer partneriaid Chwaraeon Cymru a staff mewnol.

Plas Menai

Mae prif adeiladau Plas Menai, y dŵr poeth a'r pwll nofio'n cael eu cynhesu drwy system pwmp gwres ffynhonnell daear, wedi'i hategu gan bwmp gwres ffynhonnell aer yn ystod cyfnodau o oerfel eithafol.

Mae'r system yn gwbl weithredol; cadarnhaodd profion gyfernod perfformiad (COP) o 3.3. Mae hyn yn dynodi bod y pwmp gwres, am bob uned o drydan a ddefnyddir, yn cynhyrchu 3.3 uned o wres, gan ddangos effeithlonrwydd uchel. Mae defnydd ynni'r Pympiau Gwres newydd yn hanner allbwn yr hen foeleri olew ac yn ganran sylweddol o 75% yn llai o allyriadau KgCO2e/a.

Adnewyddwyd pum tŷ llety ar y safle a'u dadgarboneiddio'n llwyr ar gyfer gwresogi a dŵr poeth drwy osod pympiau gwres ffynhonnell aer yn eu lle.

Mae rhaglen fesul cam wedi'i chynnig i drosi'r eiddo sy'n weddill dros y blynyddoedd nesaf ynghyd â gosod 'trydydd cam' o PVs a storfa batri i gasglu rhagor o drydan gwyrdd a lleihau'r ôl troed carbon. Mae'r ganolfan hefyd wedi gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV) yn eu lle ac maent wedi cael croeso cadarnhaol gan yr ymwelwyr.

Cynllun busnes

Mae Chwaraeon Cymru wedi cadw Cynaliadwyedd Amgylcheddol fel maes blaenoriaeth yn ei Gynllun Busnes gyda'r camau gweithredu allweddol fel a ganlyn:

- Ymgorffori caffael cymdeithasol gyfrifol ym mhrosesau a dogfennaeth Chwaraeon Cymru.
- Gweithio gyda rhai o'n prif gyflenwyr yn ôl gwerth i nodi cyfleoedd arbed carbon.
- Rhannu cynnydd a straeon gan arloeswyr yn y maes hwn i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni a lledaenu arfer da yn y sector.
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithredu ag eraill, yn enwedig drwy'r Sport Environment and Climate Coalition (SECC).
- Hyrwyddo ac annog teithio llesol.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.

Gwastraff	Disgrifiad	2025/26	2024/25	2023/24
Heb fod yn ariannol	Cyfanswm KG	8,057	3,776	13,418

Tŷ Gwydr	Disgrifiad	2025/26	2024/25	2023/24
CO_2	Cyfanswm allyriadau gros (CO_2)	383,314	392,863	411,413
	Cyfanswm allyriadau net (CO_2)	383,314	392,863	411,413
	Allyriadau gros, cwmpas 1 (uniongyrchol)	198,940	184,840	189,988
	Allyriadau gros, cwmpas 2	184,374	208,023	221,425
Ynni kWh	Trydan (heb fod yn adnewyddadwy)	1,054,229	1,015,093	1,080,333
	Trydan (adnewyddadwy)	0	0	0
	Nwy	1,077,857	1,003,908	1,032,823
	Olew Nwy	0	0	0
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant – ynni	304,636	268,813	251,458

Adnoddau y mae pen draw iddynt	Dŵr	2025/26	2024/25	2023/24
Heb fod yn ariannol (M^3)	Cyflenwyd	14,983	18,856	15,046
	Tynnwyd	1,007	1,295	1,318
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau cyflenwi dŵr	66,112	51,283	52,259

Teithio	Disgrifiad	2025/26	2024/25	2023/24
CO_2	Rheilffordd	2,969	3,342	3,185
	Awyr	8,437	5,550	2,306
	Cwch	0	0	0
	Car (Tacsi / Bws ac ati)	534	170	238
	Defnydd o Gar Personol	15,500	12,584	10,640
	Cyfanswm	**27,440**	**21,646**	**16,369**
Cost	Rheilffordd	24,661	24,790	22,050
	Awyr	3,523	3,205	1,447
	Cwch	0	0	0
	Car (Tacsi / Bws ac ati)	2,433	1,321	1,020
	Defnydd o Gar Personol	27,569	22,468	18,829
	Cyfanswm	**58,186**	**51,784**	**43,346**
Milltiroedd	Rheilffordd	52,866	59,503	56,821
	Awyr	31,273	13,523	5,457
	Cwch	0	0	0
	Car (Tacsi / Bws ac ati)	2,262	722	1,007
	Defnydd o Gar Personol	60,916	49,619	41,525
	Cyfanswm	**147,317**	**123,367**	**104,710**

Allyriadau $C0_2$

Blwyddyn	Cwmpas 1 Nwy / Olew
2025/26	**198,940**
2024/25	**184,840**
2023/24	**189,988**

Blwyddyn	Cwmpas 2 Trydan
2025/26	**184,374**
2024/25	**208,023**
2023/24	**221,425**

Blwyddyn	Cwmpas 3 Teithio
2025/26	**27,440**
2024/25	**21,646**
2023/24	**16,369**

Blwyddyn	Cyfanswm
2025/26	**410,754**
2024/25	**414,509**
2023/24	**427,782**

Dangosyddion Ariannol

Blwyddyn	Cwmpas 1 Nwy / Olew
2025/26	**40,572**
2024/25	**41,087**
2023/24	**40,480**

Blwyddyn	Cwmpas 2 Trydan
2025/26	**264,064**
2024/25	**227,726**
2023/24	**210,978**

Blwyddyn	Cwmpas 3 Teithio
2025/26	**58,186**
2024/25	**51,784**
2023/24	**43,346**

Blwyddyn	Cyfanswm
2025/26	**362,822**
2024/25	**320,597**
2023/24	**294,804**

Adroddiad Bioamrywiaeth

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Mae'r gwaith da yn 2025-26 i gynyddu amrywiaeth o gynefinoedd bywyd gwyllt drwy ddarparu cartrefi newydd yn dangos arwyddion clir o'i effaith galonogol. Mae cnocell y coed wedi bod yn ymweld ag un o'r bocsys adar yn rheolaidd ac mae draenogod wedi bod yn defnyddio'r pentyrrau boncyffion sydd wedi'u gosod o amgylch y safle.

Mae'r ardal blodau gwyllt newydd wedi gwneud yn dda iawn, gan ddenu amrywiaeth eang o bryfed, gyda rhai yn defnyddio'r gwestai pryfed. Mae'r waliau Jasmin wedi darparu bwyd i amrywiaeth o beillwyr ac amrywiad lliw i'r safle. Mae gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer cwblhau'r ardal ymwybyddiaeth ac addysg bioamrywiaeth newydd yn gynnar yn 2026-27.

Plas Menai

Mae Plas Menai bellach yn aelod o Fforwm Partneriaeth Afon Menai, corff cydweithredol hanfodol sydd wedi ymrwymo i reoli a gwarchod Afon Menai yn gynaliadwy. Dyma ddyfrffordd lanwol unigryw sy'n enwog ledled y byd. Mae gwaith y Fforwm yn canolbwyntio ar sicrhau cydwysedd rhwng buddiannau amrywiol yr ardal, yn amrywio o gynaeafu pysgod cregyn masnachol a thwristiaeth i gadwraeth natur ac ymchwil gwyddonol.

Drwy ddod â rhanddeiliaid o faes llywodraeth leol, asiantaethau amgylcheddol a grwpiau cymunedol at ei gilydd, mae'r Fforwm yn sicrhau bod bioamrywiaeth gyfoethog Afon Menai yn cael ei gwarchod wrth gefnogi ei harwyddocâd diwylliannol ac economaidd.

Un o flaenoriaethau allweddol y Fforwm yw monitro amgylcheddol, yn enwedig o ran ansawdd dŵr a chyflwr yr ecosystem forol.

Mae Plas Menai a'r tîm yn chwarae rhan ymarferol yn y genhadaeth hon fel safle profi dŵr sefydledig. Mae'r monitro hwn yn hanfodol ar gyfer cynnal y safonau uchel sy'n ofynnol ar gyfer chwaraeon dŵr hamdden a'r diwydiant pysgod cregyn lleol ffyniannus, sy'n dibynnu ar ddyfroedd glân, llawn maetholion.

I bontio'r bwlch rhwng monitro gwyddonol ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, mae Plas Menai yn gwasanaethu fel canolfan addysgol.

Mae'n arddangos mewn lle amlwg fwrdd gwybodaeth a phosteri sy'n manylu ar fentrau'r Fforwm a statws cyfredol yr amgylchedd lleol. Mae'r arddangosfeydd hyn yn rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am ecoleg fregus y Fenai, pwysigrwydd profi'r dŵr, a'r ymdrechion ar y cyd sy'n cael eu gwneud i warchod yr Ardal Gadwraeth Arbennig ddynodedig hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Swyddog Cyfrifo:

B Davies
18 Medi 2026

Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Y Bwrdd

Yn ystod 2025-26, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau Bwrdd canlynol:

	Tymor	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Pwyllgor Tâl
Cadeirydd Y Farwnes Tanni Grey Thompson DBE DL	1 Gorffennaf 2025 – 30 Mehefin 2028	-	-	Ydi
Is Gadeirydd Ian Bancroft	1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026	-	-	Ydi
Rajma Begum *	1 Medi 2022 – 30 Medi 2026	-	Ydi	-
Hannah Bruce (Murphy gynt) *	1 Medi 2022 – 30 Medi 2026	-	-	-
Róisín Connolly	1 Hydref 2025 – 30 Medi 2028	Ydi	-	-
Dafydd Trystan Davies	1 Medi 2022 – 31 Awst 2025	-	-	-
Delyth Evans	1 Medi 2022 – 31 Awst 2025	Ydi	-	-
Rhian Gibson	1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026	-	Ydi	-
Martin Hurst	1 Hydref 2025 – 30 Medi 2028	Ydi	-	Ydi
Christopher Jenkins **	1 Hydref 2023 – Ebrill 2025	Ydi	-	-
Nicola Mead-Batten *	1 Medi 2022 – 30 Medi 2026	Ydi	-	-
Dr Alison Parken OBE	1 Hydref 2025 – 30 Medi 2028	-	Ydi	-
Judi Rhys MBE	1 Medi 2021 – 30 Medi 2025	-	Ydi	-

	Tymor	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Pwyllgor Tâl
Owain Schiavone	1 Hydref 2025 – 30 Medi 2028	-	-	-
Phil Tilley	1 Medi 2021 – 30 Medi 2025	-	-	-
Martin Veale YH	1 Medi 2021 – 30 Medi 2025	Ydi	Ydi	Ydi
Sanjiv Vedi OBE	1 Hydref 2025 – 30 Medi 2028	-	Ydi	-
Nuria Zolle	1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026	Ydi	Ydi	-

* Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Gweinidog ar gyfer Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaethau Cymdeithasol y byddai tri aelod o'r Bwrdd (Rajma Begum, Hannah Bruce a Nicola Mead-Batten) yn cael eu hailbenodi ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2025 i 30 Medi 2026.

** Ymddiswyddodd 28ain Ebrill 2025 Prif Weithredwr Brian Davies OBE

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am dymor cychwynnol o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

Datgan buddiannau

Mae holl Aelodau Bwrdd ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi cwblhau datganiad buddiannau cynhwysfawr, gan gynnwys manylion am unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2025-26 yn ogystal ag unrhyw un a allai dderbyn grant. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24 ('Datgeliadau Partïon Cysylltiedig'), yn cael ei datgelu yn Nodyn 20 y datganiadau ariannol hyn.

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae'r systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Hefyd mae gan Chwaraeon Cymru drefniadau seibrddiogelwch priodol yn eu lle i atal mynediad heb awdurdod o bell at y data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

Canfod a rheoli risg

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 105.

Polisi talu cyflenwyr a'r perfformiad a gyflawnwyd

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn https://www. payontime.co.uk/) mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2024-25: 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn anelu at dalu i gyflenwyr, pan fo modd, o fewn 10 diwrnod yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Yn ystod 2025-26, talwyd 93% (2024-25: 95%) o'r trafodion gan Chwaraeon Cymru o fewn yr amserlen hon.

Offerynnau ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.11 y datganiadau ariannol.

Tâl archwilwyr

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio natur a maint y gwaith heb fod yn archwilio a wneir gan Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2025-26, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan y Siarter Frenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1974 (a ddiwygiwyd ar 14 Mehefin 2017), mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys.

Paratoir y datganiadau ariannol ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o faterion Chwaraeon Cymru ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, newidiadau mewn ecwiti a llif arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Datgan a yw safonau cyfrifo cymwys fel y nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad perthnasol yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

- Cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn gwbl deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac ysgwyddo cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r farn sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae'r cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Chwaraeon Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Swyddog Cyfrifo:

B Davies
18 Medi 2026

Datganiad llywodraethu blynyddol 2025-26

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu, risg a rheolaeth sefydliad. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu'r Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio ym mhob cyswllt sylfaenol ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri Genedlaethol.

Llywodraethu corfforaethol

Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y Weithrediaeth a gwaith y sefydliad yn cyflawni Strategaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o amrywiaeth o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd, yn ogystal â'r gyfres ehangach o sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rôl o'r natur hon. Cedwir matrics sgiliau'r Bwrdd i sicrhau bod gan y Bwrdd y cyfuniad priodol o sgiliau a phrofiad.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y byddai tri aelod o'r Bwrdd (Rajma Begum, Hannah Bruce a Nicola Mead-Batten) yn cael eu hailbenodi ar gyfer y cyfnod o 1 Medi 2025 i 30 Medi 2026.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae tri phwyllgor parhaol wedi cael eu sefydlu; y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a phob un yn cael eu cadeirio gan aelod o'r Bwrdd. Adolygwyd cylch gorchwyl pob pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Dangosir y presenoldeb ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau parhaol yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Aelod Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 6)	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 4)	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 3)	Pwyllgor Tâl (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd o hyd at 2)
Cadeirydd Y Farwnes Tanni Grey Thompson DBE DL	4 / 5	Amherthnasol	Amherthnasol	1 / 1
Is Gadeirydd Ian Bancroft	5 / 5	Amherthnasol	Amherthnasol	1 / 1
Rajma Begum *	5 / 5	Amherthnasol	2 / 3	Amherthnasol
Hannah Bruce (Murphy gynt) *	5 / 5	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Róisín Connolly	2 / 2	2 / 2	Amherthnasol	Amherthnasol
Dafydd Trystan Davies	2 / 2	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Delyth Evans	2 / 2	1 / 1	Amherthnasol	Amherthnasol
Rhian Gibson	5 / 5	Amherthnasol	3 / 3	Amherthnasol
Martin Hurst	2 / 2	2 / 2	Amherthnasol	Amherthnasol
Nicola Mead-Batten*	5 / 5	3 / 4	Amherthnasol	Amherthnasol
Dr Alison Parken OBE	2 / 2	Amherthnasol	0 / 1	Amherthnasol
Judi Rhys MBE	2 / 3	Amherthnasol	2 / 2	Amherthnasol
Owain Schiavone	2 / 2	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Phil Tilley	3 / 3	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Martin Veale YH	3 / 3	2 / 2	1 / 2	1 / 1
Sanjiv Vedi OBE	2 / 2	Amherthnasol	1 / 1	Amherthnasol
Nuria Zolle	5 / 5	3 / 4	3 / 3	Amherthnasol
Aelodau annibynnol				
Hywel Tudor (ARAC)	Amherthnasol	3 / 4	Amherthnasol	Amherthnasol
Andy Butler (ARAC)	Amherthnasol	4 / 4	Amherthnasol	Amherthnasol
Ethylle Baring (EDIC)	Amherthnasol	Amherthnasol	2 / 3	Amherthnasol
Polly Lord (EDIC)	Amherthnasol	Amherthnasol	2 / 3	Amherthnasol
Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb	**97%**	**87%**	**76%**	**100%**

Cyfrifir y canrannau presenoldeb yn seiliedig ar nifer y cyfarfodydd yr oedd pob aelod yn gymwys i'w mynychu yn ystod eu tymor o wasanaeth. Mae hyn yn ystyried dyddiadau penodi a gorffen, yn ogystal ag unrhyw newidiadau yn aelodaeth y pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor EDI a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys cyfleoedd i benodi aelodau annibynnol. Penodwyd dau aelod annibynnol i'r ddau Bwyllgor, gan gyfrannu safbwyntiau ac arbenigedd gwahanol i'r trefniadau craffu sydd ar waith.

Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban sydd wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnir sylw at y Polisi hwn wrth groesawu staff ac aelodau i'r sefydliad ac mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Er mwyn gwella'r trefniadau sydd ar waith ymhellach, mae Chwaraeon Cymru wedi comisiynu porthol chwythu'r chwiban dienw, y gall staff ei ddefnyddio i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r platfform yn amlieithog ac yn galluogi mynegi a thracio pryderon.

Yn ystod 2025-26 ni chafodd unrhyw bryderon ynghylch chwythu'r chwiban eu hadrodd. Rydym yn credu bod y Polisi yn effeithiol, a bod gan staff fynediad llawn iddo. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach drwy arolwg dienw a gydlynwyd gan yr adran archwilio mewnol.

Roedd 72% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn hyderus y byddai rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu gwarchod pe byddent yn lleisio barn am bryderon. Adolygir y Polisi yn achlysurol yn unol â'r Llawlyfr Staff.

Ymdrinnir â chwythu'r chwiban allanol drwy ein Polisi Cwynion, sydd ar gael ar ein gwefan. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi yn benodol gyda chyflawni ei gyfrifoldebau ym maes risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo.
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd.
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Adroddiadau Ariannol).

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol.

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd dau aelod newydd â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), sef Róisín Connolly a Martin Hurst. Penodwyd Martin yn Gadeirydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ymddiswyddodd dau aelod hefyd o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, ar ddiwedd eu cyfnod ar y Bwrdd, sef Delyth Evans a Martin Veale.

Hoffai'r Bwrdd gofnodi ei ddiolch diffuant i Delyth a Martin am eu hymrwymiad a'u cyfraniad, ac am y wybodaeth a'r her adeiladol y maent wedi'u darparu i gefnogi trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol Chwaraeon Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a chafwyd cyfradd bresenoldeb gyffredinol o 87% gan yr aelodau.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Gweithredu ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ystyriaeth reolaidd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Adolygu'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer GDPR a seibrddiogelwch.
- Ystyried y trefniadau gwrth-dwyll sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru.
- Cytuno ar y Strategaeth, y Cynllun a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Adroddiadau archwilio mewnol yn cwmpasu meysydd busnes penodol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Y Cynlluniau Archwilio Allanol a'u cyflawni, gan gynnwys ystyried adroddiad ISA 260.
- Monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol.
- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'u fformat.
- Materion cydymffurfio rheoleiddiol, gan gynnwys ystyried dyletswyddau cyhoeddus Chwaraeon Cymru.
- Adolygu treuliau aelodau'r Bwrdd.
- Adolygiad o'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.
- Adolygu unrhyw wyro oddi wrth weithdrefnau caffael safonol ac adolygiad o'r holl gontractau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn oedd yn werth mwy na £25,000.
- Adolygu unrhyw gwynion rheoleiddio.

Mae'r systemau TG yn sicrhau bod diogelwch ffisegol data yn cael ei reoli. Yn 2025-26 ni nodwyd unrhyw faterion risg gwybodaeth, na gwendidau rheoli sylweddol, ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn dull priodol.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Atal Twyll a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adolygiad yn amlinellu cynnydd y camau gweithredu allweddol sydd ar droed yn dilyn adolygiad o Safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar gyfer Twyll (13). Roedd y diweddariad yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys y Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, gofynion ar gyfer datgan buddiannau, gwahanu dyletswyddau, defnyddio technoleg a meddalwedd i ganfod twyll (gan gynnwys trefniadau seibrddiogelwch), y gofrestr lletygarwch, hyfforddiant a chyfranogiad yn y Fenter Gwrth Dwyll. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariad gan Archwilio Cymru ynghylch cyfranogiad Chwaraeon Cymru yn y Fenter Dwyll Genedlaethol, gan gadarnhau bod pob cyfatebiad (sy'n dynodi twyll posibl) wedi'u hadolygu a'u prosesu. Ni chanfuwyd unrhyw achosion o dwyll drwy'r broses hon.

Mae'r Bwrdd yn derbyn crynodeb o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor a manylion materion i'w dwyn i sylw'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd.

Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 110. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd amseriad a chymhwyso'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn Chwaraeon Cymru, gan gymeradwyo opsiwn i'w gymhwyso ym mis Chwefror 2026 cyn y dyddiad gofynnol. Cyfarfu'r pwyllgor unwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd y gyfradd presenoldeb yn 100%.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i herio, cefnogi a goruchwylio gwaith Chwaraeon Cymru wrth gyflawni yn erbyn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn fewnol ac o ran ei gefnogaeth i'r sector. Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd y gyfradd presenoldeb yn 76%.

Yn ystod y flwyddyn, croesawodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ddau aelod newydd, sef Sanjiv Vedi ac Alison Parken, gan gryfhau ymhellach yr ystod eang o brofiad sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor. Cwblhaodd dau aelod eu cyfnod ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hefyd, sef Martin Veale a Judi Rhys. Hoffai'r Bwrdd gofnodi ei werthfawrogiad am gyfraniad gwerthfawr Martin a Judi, ac am yr her adeiladol a'r gefnogaeth y maent wedi'u darparu wrth helpu i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws gwaith llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau Chwaraeon Cymru.

Ffocws craidd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd craffu ar gynnydd ar weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Chwaraeon Cymru. Ym mis Chwefror 2026, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ymchwilio manwl ryngweithiol i edrych ar y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a amlinellwyd ar gyfer y cyfnod cychwynnol o ddeunaw mis, yn ogystal ag ystyried meysydd ffocws yn y dyfodol. Y casgliad cyffredinol oedd bod cynnydd da'n cael ei wneud ar draws pob un o amcanion y Cynllun.

Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt. Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes, y Cyfarwyddwr Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Systemau Chwaraeon.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried materion o natur weithredol ac yn fisol i ystyried materion o bwysigrwydd strategol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei adrodd a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gael eu cynnal mewn dull hybrid. Gofynnwyd yn rheolaidd i aelodau'r Bwrdd am eu barn am sut gellid gwella strwythur y cyfarfodydd hyn ac ymgorfforwyd newidiadau ymarferol i alluogi cynnal y cyfarfodydd yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd fel rhan o Atodlen Busnes y Bwrdd.

Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd y Bwrdd ar draws y meysydd canlynol:

- Sefydlu Bwrdd
- Datblygu Bwrdd
- Swyddogaethau a Chyfrifoldebau
- Gweithredu Bwrdd
- Gwerthuso Bwrdd

Cafodd yr adolygiad ei seilio ar Effeithiolrwydd y Bwrdd – Canllaw Arfer Da a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon yn 2022 ac adnoddau a chyhoeddiadau perthnasol eraill. Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol gyda rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi. Cafodd y gwelliannau hyn eu hymgorffori mewn Cynllun Gweithredu, ac adroddwyd ar y cynnydd gyda'i weithredu i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025.

Cwblhawyd pob cam gweithredu heblaw am gomisiynu adolygiad effeithiolrwydd allanol yn ffurfiol. Yng ngoleuni'r newidiadau sylweddol i aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, teimlwyd ei bod yn briodol gohirio'r cam gweithredu hwn nes bod yr aelodau newydd wedi setlo yn eu rôl.

Ymhlith y meysydd allweddol o gynnydd gyda'r cynllun gweithredu roedd defnyddio matrics sgiliau'r Bwrdd i lunio'r gofynion ar gyfer recriwtio i'r Bwrdd ac aelodaeth o Bwyllgorau, yn ogystal ag adolygu ac adnewyddu papurau'r Bwrdd i roi mwy o eglurder.

Mewn ymateb i adborth y Bwrdd, cyflwynwyd rhaglen o sesiynau Ymchwil Dwfn a hyfforddi yn ystod 2025-26 ac roeddent yn rhoi sylw i ystod o bynciau gan gynnwys theori newid, cynllunio ariannol tymor canolig, meddwl am systemau a hyfforddiant Gwrth Hiliaeth. Bydd y rhaglen hon yn parhau i 2026-27.

Yn ogystal, mae'r Cadeirydd wedi ystyried effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn drwy ymgymryd â'r canlynol:

- Comisiynu adolygiad o brosesau yn erbyn y rhai a amlinellir yn yr adroddiad Adnabod ac Ymateb i Arwyddion Rhybudd Cynnar mewn cyrff Sector Cyhoeddus gan dîm archwilio mewnol Chwaraeon Cymru (RSM).
- Cwblhau matrics sgiliau cynhwysfawr ar gyfer y Bwrdd i gynorthwyo gyda datblygiad personol a chynllunio olyniaeth.
- Proses fanwl ar gyfer gwerthuso aelodau'r Bwrdd sy'n rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiad personol ac effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ymddygiadau disgwyliedig aelodau'r Bwrdd.
- Diwygio ac adnewyddu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer holl bwyllgorau'r Bwrdd.

Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethu / rheoli arwyddocaol.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi rhoi cefnogaeth i'r Tîm Gweithredol drwy hyrwyddo meysydd gwaith allweddol fel Iechyd a Diogelwch, Diogelu a Gwrth-Gyffuriau. Mae hyn wedi rhoi her a chyfle craffu i'r Tîm Gweithredol mewn meysydd gwaith allweddol.

Caiff penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau eu seilio ar gyngor a ddarperir gan staff Chwaraeon Cymru. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.

Dosberthir papurau cyn pob cyfarfod o'r bwrdd a'r pwyllgorau; dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau llafar.

Roedd y Bwrdd yn fodlon yn ystod y flwyddyn gydag amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer ei ddefnydd.

Cynhaliwyd adolygiadau effeithiolrwydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod 2025-26. Nododd y ddau adolygiad fod y trefniadau'n effeithiol a nodwyd rhai mân feysydd i'w gwella.

Rheoli risg

Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri Genedlaethol a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau'r Loteri Genedlaethol.

Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Ceir cofnod o Ddyhead Risg a Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg ac yn datgan sut dylid canfod, cofnodi, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr priodol neu aelod priodol o'r Weithrediaeth a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu'n gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw aelod o'r tîm Gweithredol a / neu reolwr priodol.

Y fframwaith risg a rheoli

Ceir sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo drwy gyfuniad o adroddiadau rheoli a ffynonellau annibynnol. Mae'r Tîm Gweithredol yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ar berfformiad, cyllid, risgiau cyflawni a materion cydymffurfio, a gefnogir gan y Gofrestr Risg Gorfforaethol a gwaith y Grŵp Rheoli Risg a Sicrwydd.

Rhoddir sicrwydd annibynnol drwy'r rhaglen archwilio mewnol, sy'n rhoi barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheoli risg, y llywodraethu a'r rheolaeth fewnol, a thrwy adroddiadau archwilio allanol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu digonolrwydd a dibynadwyedd y sicrwydd hwn, yn monitro'r gweithredu ar yr argymhellion archwilio mewnol ac allanol, ac yn adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd, gan alluogi'r Swyddog Cyfrifo i ffurfio barn wybodus ar effeithiolrwydd amgylchedd rheoli cyffredinol y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg yn hygyrch i holl gyflogeion Chwaraeon Cymru drwy gyfrwng porthol ar-lein, gyda'r hawliau golygu wedi'u cyfyngu i reolwyr perthnasol. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn destun archwiliad mewnol blynyddol ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan y Tîm Gweithredol, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Camau gweithredu ar gyfer gwelliant parhaus wrth reoli risg

Gan adeiladu ar adolygiad archwilio mewnol y flwyddyn flaenorol o reoli risg, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o gofnodi ac adrodd ar risg gydag adborth gan amrywiaeth o ddefnyddwyr allweddol.

Nododd hyn fod sylfeini cadarn ac arferion rheoli risg da ar waith a darparodd blatfform ar gyfer datblygiad pellach.

Roedd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant yn cynnwys opsiynau ar gyfer system ddigidol newydd y gellid ei defnyddio i reoli risg yn well yn ogystal â chefnogi staff i ddefnyddio arferion rheoli risg yn gyson.

Bydd y camau gweithredu ar gyfer gwelliant allweddol yn cael eu datblygu yn 2026-27.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Tîm Arweinyddiaeth ymarfer cynllunio parhad busnes gan gofnodi camau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd pe bai Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yn cau heb gynllun. Roedd hwn yn ymarfer efelychu defnyddiol, ac yn sail i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Darparwyd hyfforddiant rheoli risg i aelodau ARAC yn ystod y flwyddyn a'i rannu gyda holl aelodau'r Bwrdd.

Risgiau allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu hadnabod, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg, a gweithredir yn briodol i'w lliniaru.

Adolygir y Risgiau Corfforaethol a'r camau gweithredu i'w lliniaru yn rheolaidd. Mae'r rhaglen archwilio mewnol yn seiliedig ar y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risgiau neu ganfod rhai newydd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ym mhob cyfarfod pwyllgor, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda gweithredu'r argymhellion. Mae'r eitemau'n cael eu trafod ac mae adborth yn cael ei roi i'r Tîm Gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y proffil risg corfforaethol cyffredinol yn gymharol sefydlog, gyda'r rhan fwyaf o'r risgiau'n parhau o fewn y dyhead risg y cytunwyd arno gan y Bwrdd. Roedd y prif newidiadau'n adlewyrchu amgylchiadau allanol sy'n esblygu a nifer bach o ffactorau cyfyngedig o ran amser, yn hytrach nag unrhyw wendidau sylfaenol mewn trefniadau llywodraethu neu reoli.

Mae risg barhaus ynghylch cyllid i Chwaraeon Cymru a chynaliadwyedd ariannol partneriaid y sector. Yn benodol, mae risg nad yw incwm achosion da'r Loteri Genedlaethol yn tyfu yn unol â llwybr y darparwr. Mae cynlluniau ar waith i ystyried hyn yn barhaus gyda lliniaru yn ystod y flwyddyn. Mae gwydnwch y sector yn parhau i fod yn faes ffocws gyda chefnogaeth a chamau gweithredu pwrpasol i brosiectau sydd ar droed.

Ymhlith y datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn roedd y canlynol:

- Cynyddodd y risg seibrddiogelwch dros dro yn dilyn y newid i ddarparwr Canolfan Gweithrediadau Diogelwch newydd. Roedd hyn yn adlewyrchu cyfnod "dysgu" system byr yn hytrach nag unrhyw fethiant rheoli a nodwyd. Wrth i'r gwasanaeth gael ei ymgorffori ac yn dilyn sicrwydd o adroddiadau perfformiad, gostyngwyd y risg weddillol i risg ganolig erbyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd dwy risg gorfforaethol newydd a'u hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dilyn adolygiad gan y Grŵp Rheoli Risg a Sicrwydd:

- Ansicrwydd gwleidyddol sy'n gysylltiedig ag etholiadau'r Senedd sydd i ddod.
- Y risg o fethiant seilwaith trydanol sy'n heneiddio ym Mhlas Menai, gyda goblygiadau posibl o ran parhad busnes ar draws y sefydliad.

Cytunodd y Bwrdd i gyflwyno categori risg Cyflawni Strategol newydd, gan arwain at ailddosbarthu rhai risgiau presennol (gan gynnwys cyllid a chynaliadwyedd ariannol). Llwyddodd y newid hwn i wella eglurder ac aliniad ag amcanion strategol ond ni chynyddodd y lefel sylfaenol o risg.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd ddoeth a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n perchnogi'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i leihau a rheoli'r risgiau hyn ar lefel briodol.

Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gyflymach yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, mae'n edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw gamau gweithredu a gafodd eu dosbarthu fel blaenoriaeth "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 16 o argymhellion ac, o blith y rhain, cafodd 8 eu dosbarthu fel "blaenoriaeth ganolig" a'r 8 yn weddill eu dosbarthu fel "blaenoriaeth isel", ynghyd â 7 pwynt datblygu o'r adroddiad cynghori perthnasol i Adolygiad Risg sy'n Dod i'r Amlwg – Adnabod ac Ymateb i Arwyddion Rhybudd Cynnar mewn Cyrff Sector Cyhoeddus.

Nododd yr adolygiad dilynol a gynhaliwyd gan yr Archwilwyr Mewnol fod 'cynnydd rhesymol' wedi'i wneud ar weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o adroddiadau'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n amserol.

Monitro grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol.

Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Mewn ymateb i'r risg o dwyll yn codi mewn perthynas â thaliadau grant, gwnaed gwelliannau i'r broses wirio yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cynyddu maint y sampl ar gyfer grantiau llai eu gwerth. Adroddwyd ar hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn.

Caiff y prosesau dyfarnu a monitro grantiau eu hadolygu'n flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol. Hefyd mae archwilwyr allanol yn archwilio ein gweithgareddau dyfarnu grantiau o dan y Trysorlys a'r Loteri Genedlaethol bob blwyddyn.

Rheolaeth fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn sail i'm hadolygiad mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2025-26 gan RSM, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus a'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o'r archwilio mewnol, fel sail i farn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

Datblygiadau parhaus

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gadarn, nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau, ac fel rhan o'n hethos o welliant parhaus, rydym yn adolygu'r meysydd rydym yn credu y gallem eu gwella ac yn cymryd camau i greu newid.

Bydd y meysydd ffocws ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:-

- Gwella trefniadau seibrddiogelwch ymhellach, gan gynnwys camau gweithredu i gyflawni achrediad IASME Lefel 2.
- Gweithredu trefniadau gwell a datrysiad digidol posibl ar gyfer cofnodi ac adrodd ar risg.

Swyddog Cyfrifo:

B Davies
18 Medi 2026

Adroddiad tâl a staff

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac sydd â'r nod o sicrhau cadw a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gyda'n Hundeb Llafur cydnabyddedig, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi fel rhan o'r broses hon.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 ac rydym hefyd wedi llofnodi Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned.

Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol gyda chyflog cychwynnol o £13.45 yr awr o leiaf. Dyfarnwyd dyfarniad tâl o 3.75% i'r holl staff yn ystod y flwyddyn i helpu gyda'r cynnydd mewn costau byw

Roedd trosiant y staff ar gyfer 2025/26 yn 6.94% (2024/25 yn 8.38%, 2023/24 yn 9.38%). Cafwyd un diswyddiad yn ystod y flwyddyn.

Data absenoldeb salwch

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2025/26 (2024/25) fel a ganlyn:

Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd	Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn)	Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen
1,069.47 (1,004.05)	154.84 (150.05)	6.90 (6.69)

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2025/26 yw 3.26%. Mae hwn yn gynnydd bychan ar gyfradd 2024/25 o 3.16%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r gyfradd a adroddwyd gan yr ONS o 2.9% ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus yn 2025.

O blith y 3.26%, cafodd 2.1% eu dosbarthu fel tymor hir ac 1.15% fel tymor byr.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i iechyd meddwl a lles ei gyflogeion ac wedi cynnal nifer o fentrau i gefnogi'r gweithlu yn y cyswllt hwn.

Cynllun pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE).

Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn.

Yn unol â rheoliadau LGPS, caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.7 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

Polisi tâl

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogeion Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch gorchwyl cyflog Llywodraeth Cymru.

Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Swyddog Gweithredol gan y Pwyllgor Tâl, ac yn yr un modd rhaid i unrhyw gynnydd mewn tâl i staff gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Contractau gwasanaeth

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract am gyfnod o dair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. O fis Ionawr 2026 ymlaen, mae cyfraddau dyddiol canllawiau Cynllun Taliadau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 3.25%. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £348 (£337 yn flaenorol) gyda chontract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd gyda chontract i weithio tridiau y mis.

Cyfnod rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o ddeuddeg wythnos o derfynu'r contract.

Amser cyfleuster Undeb Llafur

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

Cyflog y Prif Swyddog Gweithredol

Tâl

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog gros o £123,000 (2024/25 £119,000). Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys i gael taliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

Manteision mewn nwyddau neu gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

Hawliadau cyflog a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am dâl a llog pensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau / gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 115.

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

Costau staff (yn amodol ar archwiliad)

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Parhaol:		
Cyflogau a thâl	7,106	6,636
Costau Nawdd Cymdeithasol	931	695
Costau Pensiwn eraill	144	971
Staff ar secondiad	(3)	(8)
	8,178	8,294
Staff Asiantaeth	35	43
	8,213	8,337
Addasiadau IAS19	580	(80)
	8,793	8,257
Llai: Dyraniad i SPORTLOT	(3,592)	(3,290)
	5,201	4,967

Tâl (yn amodol ar archwiliad)

Enw	Teitl	% a Neilltuwyd i'r Loteri 2025/26 (2024/25)	Cyflog £000 2025/26 (2024/25)	Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf 2025/26 (2024/25)	Cyfanswm £000 2025/26 (2024/25)
Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL	Cadeirydd	50% (50%)	35 – 40 (35 – 40)	- -	35 – 40 (35 – 40)
Mr Ian Bancroft	Is Gadeirydd	50% (50%)	10 – 15 (10 – 15)	- -	10 – 15 (10 – 15)
Mr Brian Davies OBE	PSG	25% (25%)	120 – 125 (115 – 120)	46,000 (38,000)	165 – 170 (155 – 160)
Ms Emma Wilkins	Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes	25% (25%)	85 – 90 (80 – 85)	29,000 (26,000)	110 – 115 (105 – 110)
Mr Graham Williams	Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau	25% (25%)	90 – 95 (90 – 95)	40,000 (40,000)	130 – 135 (130 – 135)
Mr Craig Nowell	Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf	0% (0%)	70 – 75 (70 – 75)	30,000 (27,000)	100 – 105 (95 – 100)
Mr Owen Lewis	Cyfarwyddwr – Systemau Chwaraeon, Strategaeth a Gwasanaethau	75% (75%)	85 – 90 (80 – 85)	38,000 (36,000)	120 – 125 (115 – 120)
Ms Judi Rhys MBE[1]	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 – 5 (5 – 10)	- -	0 – 5 (5 – 10)
Mr Phil Tilley[2]	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 – 5 (5 – 10)	- -	0 – 5 (5 – 10)

[1] Tymor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[2] Tymor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k

Enw	Teitl	% a Neilltuwyd i'r Loteri 2025/26 (2024/25)	Cyflog £000 2025/26 (2024/25)	Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf 2025/26 (2024/25)	Cyfanswm £000 2025/26 (2024/25)
Mr Martin Veale YH[3]	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 – 5 (5 – 10)	- -	0 – 5 (5 – 10)
Ms Rajma Begum	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 – 10 (5 – 10)	- -	5 – 10 (5 – 10)
Mr Dafydd T Davies[4]	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 – 5 (0 – 5)	- -	0 – 5 (0 – 5)
Ms Delyth Evans[5]	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 – 5 (5 – 10)	- -	0 – 5 (5 – 10)
Ms Nicola Mead-Batten	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 – 10 (5 – 10)	- -	5 – 10 (5 – 10)
Ms Hannah Bruce	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 – 10 (5 – 10)	- -	5 – 10 (5 – 10)
Ms Rhian Gibson	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 – 10 (5 – 10)	- -	5 – 10 (5 – 10)
Mr Chris Jenkins OBE [6]	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 – 5 (5 – 10)	- -	0 – 5 (5 – 10)
Ms Nuria Zolle	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 – 10 (5 – 10)	- -	5 – 10 (5 – 10)
Ms Roisin Connolly[7]	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 – 5 -	- -	0 – 5 -
Mr Martin Hurst[8]	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 – 5 -	- -	0 – 5 -
Ms Alison Parken[9]	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 – 5 -	- -	0 – 5 -
Mr Owain Schiavone[10]	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 – 5 -	- -	0 – 5 -
Mr Sanjiv Vedi[11]	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 – 5 -	- -	0 – 5 -

[3] Tymor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[4] Sabothol / tâl sero wedi dod i ben ar 8fed Gorffennaf 2024 / Tymor wedi dod i ben ar 31ain Awst 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[5] Tymor wedi dod i ben ar 31ain Awst 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[6] Ymddiswyddodd 28ain Ebrill 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[7] Penodwyd 1af Hydref 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[8] Penodwyd 1af Hydref 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[9] Penodwyd 1af Hydref 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[10] Penodwyd 1af Hydref 2025 – Cyflog sy'n cyfateb i flwyddyn lawn £5 i £10k
[11] Penodwyd 1af Hydref 2025

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai).

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd / gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

Buddiannau Pensiwn yr Uwch Reolwyr (yn amodol ar archwiliad)

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer 2025/26 £000	Cyfanswm y Pensiwn wedi cronni (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar 31 Mawrth 2026 £000	CETV ar 31 Mawrth 2026 £000	CETV ar 31 Mawrth 2025 £000	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) CETV yn ystod y Flwyddyn £000
Mr Brian Davies OBE PSG	2.5 – 5.0 (0.0 – 2.5)	40 – 45 (25 – 30)	858	771	74
Mr Graham Williams Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau	2.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	45 – 50 (50 – 55)	981	900	72
Ms Emma Wilkins Cyfarwyddwr – Cyllid a Gwasanaethau Busnes	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	10 – 15 (0 – 5)	180	148	23

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer 2025/26 £000	Cyfanswm y Pensiwn wedi cronni (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar 31 Mawrth 2026 £000	CETV ar 31 Mawrth 2026 £000	CETV ar 31 Mawrth 2025 £000	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) CETV yn ystod y Flwyddyn £000
Mr Craig Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	30 – 35 (10 – 15)	420	380	34
Mr Owen Lewis Cyfarwyddwr –Systemau, Strategaeth a Gwasanaethau Chwaraeon	2.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	25 – 30 (15 – 20)	492	441	44

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir CETVs oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

McCloud

Mae'r Rhwymedi Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro ac, yn unol â rheolau'r cynllun hwnnw, nid oes raid i aelodau gael eu rholio'n ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer cyfnod y rhwymedi.

Yn LGPS, mae rhwymedi McCloud yn cynnwys cymhwyso sail a phrofir buddion aelodau cymwys pan fyddant yn dewis ymddeol. Ar y pwynt hwn, bydd y cynllun yn cymharu'r pensiwn cyfartalog gyrfa a gronnwyd yn y cyfnod rhwymedi gyda'r pensiwn a fyddai wedi'i gronni yn y cynllun cyflog terfynol. Os yw'r pensiwn cyflog terfynol yn uwch, bydd y gwahaniaeth yn cael ei ychwanegu at y pensiwn a delir.

Nid yw'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ystyried yr effaith. Gall y gwerthoedd CETV terfynol a'r pensiynau a delir ar ymddeoliad fod yn wahanol yn dibynnu a oes angen y sail ai peidio, ond mae ffactorau eraill i'w hystyried, fel oedran ymddeol gwirioneddol.

Staff (yn amodol ar archwiliad)

Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

	2025/26 Nifer	2024/25 Nifer
Cyfanswm	154.84	150.05

Mae cyfansoddiad staff cyfredol y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 75% gwryw a 25% benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 42% yn wryw a 58% yn fenyw.

Polisi treth ar gyfer pobl a benodir oddi ar y gyflogres

Fel ar 31 Mawrth 2026, roedd 8 trefniant a oedd wedi bodoli (2024/25, 8 trefniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Roedd y nifer a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ac a oedd yn ennill £245 y dydd neu fwy yn chwe ymgynghorydd. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad)

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau 2025/26	Nifer y diswyddiadau 2024/25
< £10,000	1	0
£10,000 - £25,000	0	0
£25,000 - £50,000	0	0
£50,000 - £100,000	0	1
£100,000 - £150,000	0	0
Cyfanswm y pecynnau ymadael	1	1
Cyfanswm costau adnoddau (£)	9	52

Telir taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru.

Datgeliadau Cyflog Teg (yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad.

Cymhareb Tâl Canradd	2025/26 Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £000	2025/26 Cyflogai £000	2025/26 Cymhareb	2024/25 Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £000	2024/25 Cyflogai £000	2024/25 Cymhareb
25ain	122.5	30.4	4.0	117.5	29.3	4.0
Canolrifol	122.5	41.6	2.9	117.5	42.9	2.7
75ain	122.5	55.3	2.2	117.5	48.8	2.4

Nid yw cyflogeion yn derbyn buddion mewn nwyddau na thâl perfformiad.

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres a staff asiantaeth sydd wedi cael eu defnyddio.
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon Dosbarthu'r Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a lwfansau ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £25,977 i £123,229 (2024/25 amrywiodd y tâl o £24,420 i £118,774). Mae'r cynnydd bychan yn y gymhareb ganolrifol 50fed oherwydd nifer cynyddol o gyflogeion ar raddfeydd canolig. Mae'r gostyngiad yn y gymhareb ar gyfer y canradd 75ain yn ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y staff asiantaeth a ddefnyddiwyd yn ystod 2025/26.

Mae'r gymhareb cyflog canolrifol yn gyson â'r polisïau tâl a dyfarnu ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf oedd 3.75%. Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd oedd 4.19% .

Swyddog Cyfrifo:

B Davies
18 Medi 2026

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo sylfaenol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifo rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol, ym mhob cyswllt sylfaenol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2026 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo rhyngwladol y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir y sail cyfrifo busnes gweithredol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol wrth ragweld y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol, yr adroddiad tâl a staff na fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol.

Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan yn sylfaenol fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd wedi cael ei harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- nid yw rhai datgeliadau am dâl a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifo priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol
- mesurau rheoli mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifo'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o fethu cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, archwiliad mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
- y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Chwaraeon Cymru; a
- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid o ran canfod anghysondebau, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a weithredir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf yn sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Catherine Mealing-Jones
22 Medi 2026
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd

Cyhoeddi datganiadau ariannol yn electronig

Cyfrifoldeb Chwaraeon Cymru yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Chwaraeon Cymru. Nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn; yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r Datganiad o Gyfrifon ar y wefan ers ardystio'r archwiliad.

Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Disgrifiad	Nodyn	2025/26 £000	2024/25 £000
Gwariant			
Gwariant Grant	5	29,948	25,530
Costau Staff	6	5,201	4,967
Gwariant Arall	7	5,050	4,992
Dibrisiant	9	646	606
Dibrisiant ROU	10	5	5
Colled Ailbrisio	9b	75	-
		40,925	36,100
Incwm			
Incwm o Weithgareddau	3	(2,127)	(2,041)
Incwm Arall	3	(250)	(313)
		(2,377)	(2,354)
Gwariant Net		38,548	33,746
(Enillion) / Cost Cyllid Pensiwn		-	(14)
Diffyg / (Gwarged) ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer	8	2	(3)
Llog Derbyniadwy		(35)	(39)
		(33)	(56)
Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant		38,515	33,690
Trethiant Taladwy		7	7
Gwariant Net ar ôl Trethiant		38,522	33,697
Gwariant Cynhwysfawr Arall			
Colled net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer	9b	267	1,433
(Enillion) / colled actwaraidd ar bensiwn	18	(418)	72
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben		38,371	35,202

Gweithrediadau sy'n parhau

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol na dod ag unrhyw weithgareddau i ben.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £38,522,000 (2024/2025 £33,697,000).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2026

Disgrifiad	Nodyn	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Ar 31 Mawrth 2025 (Ailddatganwyd) £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, Peiriannau ac Offer	9(a)	809	747
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		809	747
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	11	5,644	5,186
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		257	475
		5,901	5,661
Cyfanswm yr Asedau		6,710	6,408
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	12	(528)	(547)
Croniadau grant	13	(4)	(8)
Darpariaethau	19	-	(261)
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol		(532)	(816)
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		6,178	5,592
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn	12	-	-
Atebolrwydd Pensiwn	18	-	-
Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol		-	-
Asedau llai atebolrwydd		6,178	5,592
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		6,178	5,592
Cronfa bensiwn wrth gefn		-	-
		6,178	5,592

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 18fed Medi 2026 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

Swyddog Cyfrifo:

B Davies
18 Medi 2026

Datganiad Cyfnerthedig o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2026

Disgrifiad	Nodyn	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Ar 31 Mawrth 2025 (Ailddatganwyd) £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, Peiriannau ac Offer	9(b)	19,996	19,566
Ased Prydles Hawl i Ddefnydd	10	1,841	1,859
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		21,837	21,425
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	11	5,644	5,186
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	15	261	479
		5,905	5,665
Cyfanswm yr Asedau		27,742	27,090
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	12	(534)	(552)
Croniadau grant	13	(4)	(8)
Darpariaethau	19	-	(261)
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol		(538)	(821)
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		27,204	26,269
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn	12	(77)	(83)
Atebolrwydd Pensiwn	18	-	-
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		(77)	(83)
Asedau llai atebolrwydd		27,127	26,186
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		25,373	23,699
Cronfa bensiwn wrth gefn		-	-
Cronfa wrth gefn ailbrisio		1,754	2,487
		27,127	26,186

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 18fed Medi 2026 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

Swyddog Cyfrifo:

B Davies
18 Medi 2026

Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Disgrifiad	Nodyn	2025/26 £000	2024/25 £000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net ar ôl trethiant		(38,522)	(33,697)
Diffyg / (Gwarged) ar waredu eiddo, peiriannau ac offer	8 & 9	77	(3)
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer ac ailbrisio ar i lawr	9(b)	646	606
Dibrisiant ased Hawl i Ddefnydd	10	5	5
(Cynnydd) / Gostyngiad mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	11	(453)	552
(Gostyngiad) mewn elfennau taladwy masnach	12	(24)	(573)
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn croniadau grant	13	(4)	4
Llog a dderbyniwyd	14	(35)	(39)
Llog ROU	10	1	1
Atebolrwydd Prydles Cyfalaf	10	(6)	(6)
Costau pensiwn	18	418	(72)
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn darpariaeth	19	(261)	261
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(38,158)	(32,961)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer*	9(b)	(1,420)	(1,580)
Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer	8	-	11
Llog a dderbyniwyd	14	35	39
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(1,385)	(1,530)
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru	4	39,325	34,724
(Gostyngiad) / cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		(218)	233
Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod			
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	15	479	246
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	15	261	479
		(218)	233

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Disgrifiad	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000	Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £000	Cyfanswm £000
Cyllid ar 31 Mawrth 2025	2,487	23,699	-	26,186
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(38,522)	-	(38,522)
Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd	(13)	-	-	(13)
Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4)	-	39,325	-	39,325
Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol	(267)	-	-	(267)
Costau pensiwn	-	418	(418)	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(453)	453	-	-
Colled actwaraidd	-	-	418	418
Cyllid ar 31 Mawrth 2026	1,754	25,373	-	27,127

Y cyllid yng nghyfrifon anghyfnerthedig Chwaraeon Cymru ei hun ar 31 Mawrth 2026 oedd £6,178,000, (31 Mawrth 2025 £5,592,000 (ailddatganwyd)) gyda £19,191,000 (2024/25 £18,823,000) yn cael ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Disgrifiad	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000	Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn (Ailddatganwyd) £000	Cyfanswm (Ailddatganwyd) £000
Cyllid ar 31 Mawrth 2024	4,375	22,296	(450)	26,221
Addasiad y Flwyddyn Flaenorol (Nodyn 21)	-	-	450	450
Balans wedi'i ailddatgan fel ar 31 Mawrth 2024	4,375	22,296	-	26,671
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(33,697)	-	(33,697)
Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd	(7)	-	-	(7)
Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4)	-	34,724	-	34,724
Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol	(1,433)	-	-	(1,433)
Costau pensiwn	-	(72)	72	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(448)	448	-	-
Colled actwaraidd	-	-	(72)	(72)
Cyllid ar 31 Mawrth 2025	2,487	23,699	-	26,186

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2024/25 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo yn y FReM yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel yr addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon.

Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru er mwyn cadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2019.

1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio tir ac adeiladau.

1.2 Cyllid

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a refeniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu sy'n codi.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

1.3 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn.

Mae offer a cherbydau'n gynwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £5,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

Disgrifiad	Blynyddoedd
Eiddo rhydd-ddaliadaeth	35 mlynedd
Eiddo prydles	35-50 mlynedd
Offer - cyfrifiaduron	3 mlynedd
Offer – arall	3 - 10 mlynedd
Cerbydau	5 mlynedd

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

1.5 Prydlesau

Ar gyfer unrhyw gontractau newydd yr ymrwymwyd iddynt ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, mae Chwaraeon Cymru yn ystyried a yw contract yn, neu'n cynnwys, prydles. Diffinnir prydles fel 'contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth'.

I gymhwyso'r diffiniad hwn mae Chwaraeon Cymru yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri maen prawf allweddol:

- Mae'r contract yn cynnwys ased a nodwyd, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu wedi'i nodi'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg pan wneir yr ased ar gael i Chwaraeon Cymru.
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gael yr holl fuddion economaidd sylweddol o ddefnyddio'r ased a nodwyd drwy gydol y cyfnod defnyddio, gan ystyried ei hawliau o fewn cwmpas penodol y contract.
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gyfarwyddo'r defnydd o'r ased a nodwyd trwy gydol y cyfnod defnydd.

Mesur a chydnabod

Ar ddyddiad dechrau'r brydles, mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod ased hawl i ddefnydd ac atebolrwydd prydles ar y fantolen. Mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar gost, sy'n cynnwys y mesur cychwynnol o atebolrwydd y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol i Chwaraeon Cymru, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed ymlaen llaw cyn dyddiad dechrau'r brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae Chwaraeon Cymru yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad dechrau'r brydles hyd at y cynharaf o ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer gwall pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Lle mae'r rhent yn cael ei ystyried yn rhent rhad, mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur yn ôl ei werth presennol o ran defnydd presennol neu werth teg.

Mae gwerth presennol y defnydd presennol yn cael ei gyfrifo drwy gyfalafu gwerth rhent cyfredol y farchnad y gellid ei gyflawni ar gyfer defnydd presennol yr ased hawl i ddefnydd dros weddill tymor y brydles. Mae Chwaraeon Cymru yn cael prisiad arbenigol trydydd parti ar gyfer yr holl brydlesau rhad.

Ar ddyddiad dechrau'r brydles, mae Chwaraeon Cymru yn mesur atebolrwydd y brydes ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, gyda gostyngiad gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynnyddrannol Trysorlys EM.

Mae'r taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur atebolrwydd y brydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys mewn sylwedd sefydlog), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n rhesymol sicr i cael eu hymarfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'u cynyddu ar gyfer llog. Caiff ei ailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sylwedd sefydlog.

Pan fydd atebolrwydd y brydles yn cael ei ailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd, neu'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, os yw'r ased hawl i ddefnydd wedi'i ostwng i sero eisoes.

Ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi cael eu dangos ar wahân ac mae atebolrwydd prydles wedi'i gyflwyno mewn symiau Masnach a symiau taladwy eraill.

1.6 Pensiynau

Daw'r cyfraniadau at gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru o'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru.

Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan actwari'r Cynllun. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel atebolrwydd pensiwn net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rhennir unrhyw atebolrwydd pensiwn neu asedau rhwng Chwaraeon Cymru a Chyfrif Dosbarthu'r Loteri ar sail y gyfradd neilltuo hanesyddol o gostau staff, yn unol â'r amser mae'r staff yn ei dreulio'n rhoi gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri ar waith.

1.7 Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 19% (19% 2024/25) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

1.8 Grantiau taladwy

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cydnabyddir cynigion grant fel gwariant, ac os na chânt eu talu, fel atebolrwydd os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli. Er mwyn i rwymedigaeth adeiladol fodoli, rhaid cyfathrebu ymrwymiad y dyfarniad yn uniongyrchol i dderbynnydd y dyfarniad ac mae'n rhaid i'r cyllid cymorth grant priodol i fodloni'r ymrwymiad fod wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli ond amodau grant yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r grantiau'n cael eu datgelu fel atebolrwydd wrth gefn.

1.9 Cyfuno

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifon ac Adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau 2019. Mae hyn yn cymhwyso Safon Adrodd Ariannol 102 sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2025/26 ('y FREM'), mae'r polisïau cyfrifo wedi cael eu halinio ar ôl eu cyfuno. Y prif reswm dros yr addasiad yw gweithredu IFRS 16 (Prydlesau) o fewn y FREM.

Mae hyn wedi arwain at yr addasiadau canlynol:

Disgrifiad	Mantolen Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru £000	Alinio polisïau cyfrifo £000	Sefyllfa wedi'i haddasu cyn cyfuno £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, Peiriannau ac Offer	19,187	-	19,187
Ased prydles hawl i ddefnydd	-	1,841	1,841
Cyfanswm yr asedau anghyfredol	**19,187**	**1,841**	**21,028**
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	-	-	-
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	4	-	4
Cyfanswm yr Asedau	**4**	**-**	**4**
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	-	6	6
Croniadau grant	-	-	-
Darpariaethau	-	-	-
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol	**-**	**6**	**6**
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net	**19,191**	**1,835**	**21,026**
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn	-	77	77
Atebolrwydd Pensiwn	-	-	-
Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol	**-**	**77**	**77**
Asedau llai atebolrwydd	**19,191**	**1,758**	**20,949**
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol	19,191	4	19,195
Cronfa bensiwn wrth gefn	-	-	-
Cronfa ailbrisio wrth gefn	-	1,754	1,754
	19,191	**1,758**	**20,949**

Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad yw wedi'i gyfuno â'r cyfrifon hyn.

1.10 Defnydd o amcangyfrifon a phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:-

Nodyn 6 – Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas Dosbarthu'r Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

Nodyn 9(b) – Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiadau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

Nodyn 10 – Mae cymhwyso IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n effeithio ar y prisiad o atebolrwydd prydles a gwerth asedau hawl i ddefnydd, gan gynnwys pennu a yw'r contract yn dod o fewn cwmpas IFRS 16 ac ystyried y gyfradd llog a ddefnyddir ar gyfer gostyngiad i lifau arian yn y dyfodol.

Mae cyfnod y brydles a bennir gan Chwaraeon Cymru yn cynnwys cyfnod y contractau prydles na ellir ei ganslo.

O ystyried natur y prydlesau a sut maent yn gysylltiedig â'r busnes, lle mae cymal terfynu ar gael i Chwaraeon Cymru, daethpwyd i'r casgliad na fyddai hyn yn cael ei ymarfer.

Mae gwerth presennol y taliadau prydles sy'n berthnasol i bortffolio Chwaraeon Cymru wedi cael ei bennu gan ddefnyddio cyfradd fenthyca Trysorlys EM i ostyngiad.

Nodyn 13 – Cyfrifir croniadau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.8.

Nodyn 18 – Mae'r mesur o gyfraniadau budd pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

1.11 Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu nwyddau ac eitemau gwasanaeth yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru yn wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

1.12 Nam

Adolygir gwerth cludo asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau.

Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

1.13 Darpariaethau

Gwneir darpariaeth i ddarparu ar gyfer atebolrwydd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd digwyddiad neu benderfyniad a wneir yn ystod blwyddyn ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch y swm a / neu'r dyddiad pryd bydd yn codi. Dangosir newid i'r ddarpariaeth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Pan fydd yr atebolrwydd gwirioneddol yn digwydd, mae'n cael ei roi yn erbyn y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol.

1.14 Gweithredu safonau cyfrifo wedi'u cyhoeddi o'r newydd

Nid oes unrhyw safonau cyfrifo wedi'u cyhoeddi o'r newydd wedi cael eu gweithredu yn ystod 2025/26.

IFRS 17 yw'r safon gyfrifo newydd ar gyfer contractau yswiriant. Disodlodd IFRS 4 ar gyfer y cyfnodau cyfrifo yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023.

Mae'n cael ei defnyddio gan Drysorlys EM yn y FreM ers 1 Ebrill 2025. Gan nad oes gan y cyfrifon hyn unrhyw rwymedigaethau contract yswiriant, nid oes unrhyw effaith ar y cyfrifon.

1.15 Safonau cyfrifo wedi'u cyhoeddi o'r newydd heb fod yn weithredol eto


Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig drwy eu mabwysiadu gan y FreM. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Nid oes unrhyw effeithiau sylfaenol hysbys yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol.

2. Dadansoddiad o'r gwariant net cynhwysfawr

Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac i asesu ei berfformiad.


Disgrifiad	Nodyn	2025/26 £000	2024/25 £000
Y Canolfannau Cenedlaethol			
Refeniw	3	(2,126)	(2,038)
Gwariant Arall	7	1,443	1,477
(Cyfraniad) / Colled Gweithredu Net		(683)	(561)
Grantiau			
Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon	3	(1)	(3)
Gwariant Grant	5	29,948	25,530
Cost Gweithredu Net		29,947	25,527
Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol			
Incwm Arall	3	(250)	(313)
Llog Derbyniadwy		(35)	(39)
Gwariant Arall	7	3,607	3,515
Cost Gweithredu Net		3,322	3,163
Costau Staff	6	5,201	4,967
Gwariant Net Cynhwysfawr cyn Costau Eraill		37,787	33,096
Costau Eraill			
Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau		584	2,106
Cost Gweithredu Net		584	2,106
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr		38,371	35,202

Gwariant Cynhwysfawr Net Cyn Costau Eraill



* yn cynnwys staff perthnasol

Gwariant Grantiau £'000



3. Incwm

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Incwm o weithgareddau:		
Grantiau Datblygu Chwaraeon:		
Arall	1	3
	1	3
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol:		
Arlwyo	459	418
Defnydd Cyrff Rheoli o Gyfleusterau	583	569
Defnydd Cyffredinol o Gyfleusterau	311	292
Llety	401	444
Aelodaeth Canolfan Ffitrwydd	352	292
Archebion Cyrsiau	20	23
	2,126	2,038
	2,127	2,041
Incwm gweithredu arall:		
Adfer grantiau	250	223
Incwm arall*	-	90
	250	313
Cyfanswm yr Incwm	2,377	2,354

*Cyllid Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru ar gyfer 2024/25

4. Grantiau a dderbynnir gan y llywodraeth

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Cyllid Cyfalaf	13,596	8,734
Lido Brynaman	650	-
Cyllid Refeniw - Pwysau Iach Cymru Iach Hamdden Actif 60+	500	500
Cyllid Refeniw a Chyfalaf Mewnol	24,485	25,390
Cyllid Refeniw – Plant a Theuluoedd	94	100
Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol	39,325	34,724

5. Gwariant grant

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Cyrff Rheoli / Partneriaid Allanol	25,095	12,591
Awdurdodau Lleol	4,853	12,939
	29,948	25,530
Mae'r ffigur uchod yn cynnwys £1,497,945 o wariant uniongyrchol ar ran derbynyddion grantiau (£887,341 yn 2024/25).		

6. Costau staff

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Parhaol:		
Cyflogau a thâl	7,106	6,636
Costau Nawdd Cymdeithasol	931	695
Costau Pensiwn eraill	144	971
Staff ar secondiad	(3)	(8)
	8,178	8,294
Staff asiantaeth	35	43
	8,213	8,337
Addasiadau IAS19	580	(80)
	8,793	8,257
Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT	(3,592)	(3,290)
	5,201	4,967

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol, gorffennol a setliad) gael ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2025/26, y gost oedd £630,000 (2024/25 £710,000) ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y SoCNE. Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £50,000 (2024/25 £790,000), felly roedd yr effaith net yn £580,000, (2024/25 £(80,000)) i gostau staff. Gan fod cost gyfredol y gwasanaeth yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n cael ei thynnu o'r Gronfa Gyffredinol.

Cyfrifir y rhwymedigaeth net mewn perthynas â'r cynlluniau pensiynau budd pendant hyn drwy amcangyfrif faint o fudd mae cyflogeion wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau cyfredol a blaenorol.

Gostyngir y budd i bennu ei werth presennol, a didynnir gwerthoedd teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir enillion a cholledion actwaraidd sy'n codi yn y cyfnod maent yn digwydd drwy Wariant Net Cynhwysfawr Arall.

7. Gwariant arall

Disgrifiad (a)	2025/26 £000	2024/25 £000
Ffioedd Archwilydd - Gwasanaethau Archwilio	31	29
Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth	4	4
Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol:		
Aelodau	5	3
Staff y Pencadlys	23	18
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	1	2
Datblygiad Chwaraeon	101	111
Gwariant Arall:		
Gwasanaethau Cefnogi Canolog	626	671
Cyfathrebu a Digidol	798	835
Dirnadaeth a Pholisi	235	310
Llog Taladwy i Lywodraeth Cymru	28	31
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	1,442	1,475
Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon	1,756	1,503
Symudiad yn y Ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus	-	-
	5,050	4,992

Gellir dadansoddi'r gwariant hwn ymhellach fel a ganlyn:

Disgrifiad (b)	2025/26 £000	2024/25 £000
Canolfannau Cenedlaethol	1,443	1,477
Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon	1,857	1,614
Corfforaethol	1,750	1,901
	5,050	4,992

8. Gwaredu eiddo, peiriannau ac offer

Disgrifiad	2025/26 £000	2025/26 £000	2024/25 £000	2024/25 £000
Elw o werthu		-		11
Gwerth llyfr gros	63		85	
Dibrisiant cronnol	(61)		(77)	
Gwerth llyfr net		2		8
(Diffyg) / Gwarged ar waredu		(2)		3

9. Eiddo, peiriannau ac offer

Disgrifiad (a) Cyngor:	Offer £000	Cerbydau £000	TGCh £000	Cyfanswm £000
Cost fel ar 1 Ebrill 2025	1,438	251	334	2,023
Ychwanegiadau	225	-	32	257
Gwaredu	(64)	-	-	(64)
Ar 31 Mawrth 2026	1,599	251	366	2,216
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2025	(827)	(174)	(275)	(1,276)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(111)	(34)	(48)	(193)
Gwaredu	62	-	-	62
Ar 31 Mawrth 2026	(876)	(208)	(323)	(1,407)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2026	723	43	43	809
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025	611	77	59	747

Cost fel ar 1 Ebrill 2024	1,071	265	379	1,715
Ychwanegiadau	383	-	10	393
Gwaredu	(16)	(14)	(55)	(85)
Ar 31 Mawrth 2025	1,438	251	334	2,023
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2024	(762)	(145)	(288)	(1,195)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(77)	(39)	(42)	(158)
Gwaredu	12	10	55	77
Ar 31 Mawrth 2025	(827)	(174)	(275)	(1,276)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025	611	77	59	747
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024	309	120	91	520

Disgrifiad (b) Cyfnerthedig:	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £000	Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £000	Offer £000	Cerbydau £000	TGCh £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2025	8,041	10,778	1,875	253	334	21,281
Ychwanegiadau	610	553	225	-	32	1,420
Gwaredu	-	-	(64)	-	-	(64)
Ffi ailbrisiad i'r gronfa ailbrisio wrth gefn	(816)	96	-	-	-	(720)
Ffi ailbrisiad i SOCNE	(75)	-	-	-	-	(75)
Ar 31 Mawrth 2026	7,760	11,427	2,036	253	366	21,842
Dibrisiant ar 1	-	-	(1,264)	(176)	(275)	(1,715)
Ebrill 2025	(217)	(236)	(111)	(34)	(48)	(646)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	-	-	62	-	-	62
Gwaredu	217	236	-	-	-	453
Ar 31 Mawrth 2026	-	-	(1,313)	(210)	(323)	(1,846)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2026	7,760	11,427	723	43	43	19,996
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025	8,041	10,778	611	77	59	19,566
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2024	7,023	12,490	1,508	267	379	21,667
Ychwanegiadau	856	331	383	-	10	1,580
Gwaredu	-	-	(16)	(14)	(55)	(85)
Ailbrisiad	162	(2,043)	-	-	-	(1,881)
Ar 31 Mawrth 2025	8,041	10,778	1,875	253	334	21,281
Dibrisiant ar 1	-	-	(1,199)	(147)	(288)	(1,634)
Ebrill 2024	(225)	(223)	(77)	(39)	(42)	(606)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	-	-	12	10	55	77
Gwaredu	225	223	-	-	-	448
Ar 31 Mawrth 2025	-	-	(1,264)	(176)	(275)	(1,715)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025	8,041	10,778	611	77	59	19,566
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024	7,023	12,490	309	120	91	20,033

Wedi'i gynnwys yn nhir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai mae tir a brisiwyd yn £175,000 (2024/25 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisio'n annibynnol ar 31 Mawrth 2026 yn £19,187,000 gan Feistri Cooke & Arkwright, Syrfëwyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Mae'r prisiad hwn yn eithrio'r tir yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles.

10. Ased hawl i ddefnydd

Disgrifiad	Tir £000	Adeiladau £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 31 Mawrth 2025	1,810	64	1,874
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwaredu	-	-	-
Ailbrisiad	(13)	-	(13)
Ar 31 Mawrth 2026	1,797	64	1,861
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2025	(3)	(12)	(15)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(1)	(4)	(5)
Gwaredu	-	-	-
Ailbrisiad	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2026	(4)	(16)	(20)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025	1,807	52	1,859
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2026	1,793	48	1,841

Dadansoddiad Aeddfedrwydd	2026 £000
Llifau arian cytundebol heb ostyngiad yn ymwneud ag atebolrwydd prydles	
O fewn blwyddyn	6
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	25
Ar ôl pum mlynedd	58
	89
Llai ffioedd yn y dyfodol a neilltuir i gyfnodau yn y dyfodol	(6)
Taliadau prydles isafswm	83
Cynhwysir yn:	
Elfennau taladwy masnach cyfredol	6
Elfennau taladwy masnach anghyfredol	77
Cyfanswm	83

Gwerth presennol y taliadau prydles isafswm	2026 £000
O fewn blwyddyn	6
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	17
Ar ôl pum mlynedd	60
	83

Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	2026 £000
Dibrisiant	5
Nam	-
Llog ar atebolrwydd prydles	1
Treuliau cysylltiedig â phrydlesau tymor byr	-
Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Lif Arian (net ar TAW anadferadwy	
Cost llog	1
Ad-daliadau prif brydlesau	5
Cyfanswm llif arian	6

11. Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill (dyledus o fewn blwyddyn)

Disgrifiad	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Masnach Dderbyniadwy	86	240
SPORTLOT	4,828	3,945
TAW	174	262
Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd	556	498
Rhagdaliad grant	-	91
Grant ad-daladwy	-	150
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus	-	-
	5,644	5,186

Balansau rhyng-lywodraeth	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	5,263	4,207
Balans gydag awdurdodau lleol	-	241
	5,263	4,448
Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	381	738
	5,644	5,186

12. Elfennau masnach taladwy ac atebolrwydd arall

Disgrifiad	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Elfennau Masnach Taladwy	200	247
Croniadau	328	300
Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd	83	88
	611	635

Cyfredol:	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Masnach ac Elfennau Taladwy Eraill	528	547
Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd	6	5
Anghyfredol:		
Masnach ac Elfennau Taladwy Eraill	-	-
Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd	77	83
	611	635

Balansau rhyng-lywodraeth	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	7	7
Balans gydag awdurdodau lleol	85	90
	92	97
Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	519	538
	611	635

13. Croniadau grant

Disgrifiad	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Grantiau Wedi Cronni	4	8

14. Llifau arian gros

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi		
Llog a dderbyniwyd	35	39
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol		
Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer	(1,420)	(1,580)
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer	-	11
	(1,420)	(1,569)
Llif Arian o Weithgareddau Cyllido		
Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4)	39,325	34,724

15. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Disgrifiad	2025/26 £000	2024/25 £000
Fel ar 1 Ebrill	479	246
Newid net y balansau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod	(218)	233
Fel ar 31 Mawrth	261	479
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:		
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	261	479
Fel ar 31 Mawrth	261	479

16. Ymrwymiadau cyfalaf

Disgrifiad	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Contractiwyd ond heb dalu	284	235

17. Atebolrwydd wrth gefn

Disgrifiad	Fel ar 31 Mawrth 2026 £000	Fel ar 31 Mawrth 2025 £000
Atebolrwydd Grant Wrth Gefn	-	-

18. BUDDION I GYFLOGEION

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar Enillion Gyrfa Cyfartalog Wedi'u Hailbrisio (CARE).

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol y Cynllun, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Dosbarthu'r Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data gros.

Mae ased / diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Dosbarthu'r Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri. Ar gyfer 2025/26 mae hwn yn 72% i Gyngor Chwaraeon Cymru (2024/25 72%), a 28% i Gyfrif Dosbarthu'r Loteri (2024/25 28%).

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £51,000 (2024/25 £790,000) o gyfraniad pensiwn yn 2025/26 ac fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o Ddim yn cynrychioli 0% o dâl pensiynadwy (2024/25 £790,000 33.4%). Dim ond yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Hydref 2024 y gwnaed cyfraniadau cyflogwr. Yn dilyn adolygiad actwaraidd, mae Chwaraeon Cymru bellach yn cael ei gydnabod fel Corff Rhestredig ac Is-gysylltiedig o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro. Ar ddyddiad yr adolygiad, nododd yr actwariaid fod y sefyllfa warged ar gronfa Chwaraeon Cymru yn fwy na'r targed ar gyfer cyrff Rhestredig ac Is-gysylltiedig. Roedd hyn yn golygu bod angen cyfradd cyfraniad newydd o 0% tan y gwerthusiad bob tair blynedd nesaf.
- Roedd £51,000 o gyfraniadau mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar yn ystod 2025/26 (2024/25 Dim)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2024/25 ymlaen yw 0%. Pennwyd y gyfradd hon o ganlyniad i'r adolygiad actwaraidd ym mis Tachwedd 2024. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwarïau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu dim i'r gronfa yn 2026/27 oherwydd y newid yn y statws cydnabyddedig o fewn y gronfa bensiwn. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar y gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw Dim (2024/25 (£20,000)) gyda Dim (2024/25 (£14,000)) yn cael ei ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o Ddim (2024/25 (£6,000)) wedi'i ddyrannu i Ddosbarthu'r Loteri.

Yr enillion actwaraidd llawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £580,000 (2024/25 colled o £100,000) gyda £418,000 (2024/25 colled o £72,000) yn cael ei ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £162,000 (2024/25 colled o £28,000) wedi'i ddyrannu i Ddosbarthu'r Loteri.

Gan weithredu darpariaethau IFRIC14, nid oes modd cydnabod yr ased pensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru ac felly mae'n Ddim (2024/25 Dim), gyda Dim (2024/25 Dim) yn cael ei ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r balans o Ddim (2024/25 Dim) wedi'i ddyrannu i Ddosbarthu'r Loteri.

Crynhoir y cofnodion pensiwn fel a ganlyn:

Disgrifiad	2025/26 Cyfanswm	2025/26 Chwaraeon Cymru	2025/26 Loteri	2024/25 Cyfanswm	2024/25 Chwaraeon Cymru	2024/25 Loteri
	100%	72%	28%	100%	72%	28%
Costau pensiwn	0.00	0.00	0.00	(20,000)	(14,000)	(6,000)
(Enillion) / colled actwaraidd ar bensiwn	(580,000)	(418,000)	(162,000)	100,000	72,000	28,000

Prif ragdybiaethau ariannol

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 %	31 Mawrth 2025 %	31 Mawrth 2024 %
Cyfradd Gostyngiad	6.2	5.8	4.8
Chwyddiant – CPI	2.8	2.5	2.6
Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau	2.8	2.5	2.6
Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig	2.8	2.5	2.6
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	3.8	3.5	3.6

Rhagdybiaethau Marwoldeb:	2026 Blynyddoedd	2025 Blynyddoedd	2024 Blynyddoedd
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
Gwryw	22.3	21.9	22.1
Benyw	24.6	24.2	24.3
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
Gwryw	22.6	22.2	22.7
Benyw	25.3	25.0	25.3

Neilltuo asedau

Disgrifiad	Gwerth ar 31 Mawrth 2026 Wedi'i Ddyfynnu	Gwerth ar 31 Mawrth 2026 Heb Ei Ddyfynnu	Gwerth ar 31 Mawrth 2026 Cyfanswm	Gwerth ar 31 Mawrth 2025
Ecwiti	63.8%	4.3%	68.1%	67.6%
Eiddo	5.2%	0.0%	5.2%	5.8%
Bondiau'r llywodraeth	7.2%	0.0%	7.2%	7.5%
Bondiau corfforaethol	4.4%	0.0%	4.4%	5.1%
Credyd Aml-ased	5.1%	0.0%	5.1%	5.2%
Arian Parod	0.5%	0.0%	0.5%	0.5%
Arall	0.0%	9.5%	9.5%	8.3%
Cyfanswm	**86.2%**	**13.8%**	**100.0%**	**100.0%**

Mae'r categori Arall yn cynnwys Credyd Preifat a Seilwaith

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa.

Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2026.

Dadansoddiad o symudiadau mewn gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Gwerth teg asedau'r gronfa	76.90	66.25
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(41.19)	(39.37)
Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged	(35.71)	(26.88)
Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm	0.00	0.00
Ased / (Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	0.00	0.00

Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â chostau gweithredu

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.51	0.71
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.12	0.00
Cost setliad	0.00	0.00
Cost llog	0.00	(0.02)
Treuliau wedi'u cydnabod	0.63	0.69

Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn gwariant cynhwysfawr arall

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Adenillion ar asedau cynllun (mwy) / llai na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net	(8.76)	1.05
(Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau ariannol	(0.56)	(8.14)
(Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0.30	(0.34)
Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd	1.17	0.08
Colledion (enillion) addasiad oherwydd y cyfyngu ar warged	7.27	7.45
Colledion (enillion) addasiad oherwydd gofyniad cyllido isafswm	0.00	0.00
Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall	(0.58)	0.10
Cyfanswm y swm cydnabyddedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr		
Adenillion ar asedau cynllun (mwy) / llai na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net	0.05	0.79

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth budd pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Rhwymedigaeth budd pendant agoriadol	39.37	45.77
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.51	0.71
Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant	2.23	2.18
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.31	0.30
(Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol	(0.56)	(8.14)
(Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig	0.30	(0.34)
Colledion actwaraidd ar atebolrwydd – profiad	1.17	0.08
Buddiannau net a dalwyd	(2.26)	(1.19)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad)	0.12	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Rhwymedigaeth budd pendant wrth gloi	41.19	39.37

Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Gwerth teg agoriadol yr asedau	66.25	64.31
Incwm llog ar asedau	3.79	3.09
Ailfesur (colledion) / enillion ar asedau	8.76	(1.05)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.05	0.79
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.31	0.30
Buddiannau net a dalwyd	(2.26)	(1.19)
Setliadau	0.00	0.00
Gwerth teg yr asedau wrth gloi	76.90	66.25

Adenillion gwirioneddol ar asedau

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Adenillion disgwyliedig ar asedau	3.79	3.09
(Colledion) / enillion actwaraidd ar asedau	8.76	(1.05)
Adenillion gwirioneddol ar asedau	12.55	2.04

Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant a diffyg

Disgrifiad	31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m	31 Mawrth 2024 £m	31 Mawrth 2023 £m	31 Mawrth 2022 £m	31 Mawrth 2021 £m
Gwerth teg yr asedau	76.90	66.25	64.31	57.54	61.70	54.14
Gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant	(41.19)	(39.37)	(45.77)	(46.14)	(71.32)	(74.63)
Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged	(35.71)	(26.88)	(18.54)	(11.40)	0.00	0.00
Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg	0.00	0.00	0.00	(1.47)	0.00	0.00
Gwarged / (Diffyg)	0.00	0.00	0.00	(1.47)	(9.62)	(20.49)

Dadansoddiad sensitifrwydd

Rhwymedigaeth Budd Pendant a Gyllidwyd £41.19m	+0.1% y flwyddyn		-0.1% y flwyddyn	
Newid mewn Rhagdybiaethau ar werth Presennol y rhwymedigaeth budd pendant a gyllidwyd	**£m**	**% Cynnydd / Gostyngiad i Atebolrwydd Cyflogeion**		**£m**
Addasiad i'r gyfradd Ostyngiad	40.57	-1.5%	1.5%	41.81
Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Cyflog	41.23	0.1%	-0.1%	41.15
Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Pensiwn	41.77	1.4%	-1.4%	40.61
	-1 blwyddyn		**+1 blwyddyn**	
Addasiad i'r gyfradd Marwoldeb	42.14	2.3%	-2.3%	40.24

19. Darpariaethau

Disgrifiad	Darpariaeth ar gyfer hawliad £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2025	261	261
Darpariaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn	-	-
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(261)	(261)
Ar 31 Mawrth 2026	-	-
Dim hwyrach nag un flwyddyn	-	-
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	-
Hwyrach na phum mlynedd	-	-
Ar 31 Mawrth 2026	-	-

20. Trafodion parti cysylltiedig

Cyrff cyhoeddus

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd.

Unigolion

Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylfaenol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol wedi datgan budd ynddynt.

Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymiadau cyfredol, ymrwymiadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau. Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno. Mae'r nodyn hwn yn cynnwys datgelu perthnasoedd sy'n mynd y tu hwnt i'r diffiniad o bartïon cysylltiedig yn unol â safonau cyfrifyddu.

Aelod o'r Panel	Corff	Taliad yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000
Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL Cadeirydd	Youth Sport Trust	65	Noddwr	-
	Fields In Trust	17	Llysgennad	-
	Prifysgol Abertawe	198	Cymrawd	-
I Bancroft Is Gadeirydd	CBS Wrecsam	305	PSG	-
J Rhys MBE Aelod o'r Cyngor	Athletau Cymru	779	Aelod	-
P Tilley Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Triathlon Cymru	93	Aelod	-
	Undeb Beicio Cymru	264	Aelod	-
M Veale YH Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Benfro	433	Aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	-
	CBS Merthyr Tudful	65	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau	-
	Llywodraeth Cymru	30	Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	-
	CBS Blaenau Gwent	327	Aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	-

Aelod o'r Panel	Corff	Taliad yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000
M Veale YH Aelod o'r Cyngor (parhad)	Cyngor Sir Fynwy	150	Aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	-
	CBS Rhondda Cynon Taf	20	Aelod lleyg o'r Pwyllgor Addysg a Chynhwysiant	-
R Begum Aelod o'r Cyngor	Llywodraeth Cymru	30	Aelod atebolrwydd allanol Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru	-
	Cymdeithas Bêl Droed Cymru	1,535	Aelod o'r Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb	-
D Evans Aelod o'r Cyngor	Urdd Gobaith Cymru	2,500	Ymddiriedolwr	-
N Mead-Batten Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Bêl Droed Cymru	1,535	Cadeirydd y Corff Cyntaf ar gyfer penderfynu ar Drwyddedau Haen 1 / UEFA ar gyfer gêm y Merched	-
	Undeb Rygbi Cymru	1,164	Cadeirydd ad hoc Panel Person Addas a Phriodol ar gyfer aelodau'r Gymuned	-

Aelod o'r Panel	Corff	Taliad yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000
N Zolle Aelod o'r Cyngor	Llywodraeth Cymru	30	Penodiad Gweinidogol - Partneriaeth Cyngor a Gwybodaeth Genedlaethol	-
	Archwilio Cymru	33	Partner yn Rheolwr	-
C Jenkins OBE Aelod o'r Cyngor	Gemau'r Gymanwlad Cymru	47	PSG ac Ymddiriedolwr	-
R Connolly Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	33	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Aelod o'r Bwrdd	-
	Prifysgol Caerdydd	10	Gŵr yn gyflogai	-
	Clwb Tennis Lawnt Caerdydd	52	Gŵr yn aelod	-
S Vedi Aelod o'r Cyngor	Llywodraeth Cymru	30	Gwas Sifil	-
	Cymdeithas Bêl Droed Cymru	1,535	CBC - Cadeirydd y Pwyllgor Apêl Trydydd Haen	
B Davies OBE PSG	Prifysgol Abertawe	198	Cymrawd Anrhydeddus	-
	Gymnasteg Cymru	473	Cymar yn Hyfforddwr	-
	Undeb Hoci Cymru	144	Merch yn gwneud gwaith llawrydd	129
	Prifysgol Caerdydd	10	Mab yn aelod o'r clwb rygbi	-
	Clwb Rygbi Cas-gwent	17	Mab yn aelod	-

Aelod o'r Panel	Corff	Taliad yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000
C Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf	Clwb Tennis Lawnt Stow Park	21	Gwraig yn aelod o'r Pwyllgor / Mab yn aelod	-
O Lewis Cyfarwyddwr – Systemau, Strategaeth a Gwasanaethau Chwaraeon	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	33	Plant yn aelodau – Clybiau Tennis a Nofio	-

Tâl yr uwch reolwyr ac aelodau'r bwrdd

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Bwrdd fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 110 i 118.

21. Addasiad y Flwyddyn Flaenorol

Mae Chwaraeon Cymru yn dyrannu costau pensiwn cyflogeion rhwng gweithgareddau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a gweithgareddau a gyllidir gan y Loteri Genedlaethol. Yn hanesyddol, dyrannwyd rhan o'r diffyg pensiwn i gyfrifon y Loteri Genedlaethol yn seiliedig ar gyfran y cyflogeion sy'n cefnogi gweithgarwch y Loteri, gyda'r dyraniad hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Yn 2024-25, symudodd y sefyllfa bensiwn o ddiffyg i warged, na ellir ei gydnabod fel ased o dan y fframwaith cyfrifo perthnasol.

Creodd hyn anghydbwysedd cyflwyno cronnol rhwng cyfrifon y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru, er bod yr effaith net gyffredinol ar Chwaraeon Cymru yn ddim.

Felly, gwnaed addasiad blwyddyn flaenorol i gywiro'r dyraniad rhwng y ddwy ffrwd gyfrifo a chyflwyno'r balans pensiwn cronnol fel dim ar draws y ddau gyfrif. Nid yw'r addasiad yn cael unrhyw effaith ar asedau net cyffredinol, gwariant na sefyllfa arian parod Chwaraeon Cymru.

22. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

sportwales
chwaraeoncymru

THE NATIONAL LOTTERY®

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government